



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 29 Medi 2010
Wednesday, 29 September 2010**

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|--|
| 3 | Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol
Questions to the Counsel General and Leader of the Legislative Programme |
| 4 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government |
| 25 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning |
| 42 | Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Wahaniaethu yn erbyn Pobl sy'n Byw gydag
HIV gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Darparwyr Gofal Iechyd
The Equality of Opportunity Committee's report on Discrimination against People
Living with HIV by Healthcare Professionals and Providers |
| 59 | Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fynediad i Ddŵr Mewndirol
The Sustainability Committee's Report into Access to Inland Water |
| 82 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ardrethi Busnes
Welsh Conservatives Debate: Business Rates |
| 109 | Dadl Fer: Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Abertawe—Dewis y Bobl?
Short Debate: Welsh-medium Education in Swansea—the People's Choice? |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau.

The Presiding Officer: Order for questions.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol Questions to the Counsel General and Leader of the Legislative Programme

Prosesau Deddfwriaethol

Legislative Processes

I. Alun Davies: *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei adolygiad o brosesau deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)0153(CGE)*

I. Alun Davies: *Will the Counsel General provide an update on his review on the Welsh Assembly Government's legislative processes. OAQ(3)0153(CGE)*

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): The review is on-going. I will be reporting my findings to the Cabinet in November.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Mae'r adolygiad yn barhaus. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Cabinet beth yw fy nghanfyddiadau ym mis Tachwedd.

Alun Davies: Thank you for that response, Counsel General. One issue that I believe concerns Assembly Members, as well as people across Wales, is the cost involved in the current legislative processes, and the duplication involved with Measures and legislative competence Orders. Will you be considering this issue as part of your review? Furthermore, could the Welsh Assembly Government provide the Assembly with any information that it has as to the financial cost of operating the current system?

Alun Davies: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Gwnsler Cyffredinol. Un mater sy'n berthnasol, yn fy marn i, i Aelodau'r Cynulliad, yn ogystal ag i bobl ledled Cymru, yw'r gost sy'n gysylltiedig â'r prosesau deddfwriaethol cyfredol a'r dyblygu sy'n gysylltiedig â Mesurau a Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol. A fyddwch yn ystyried y mater hwn fel rhan o'ch adolygiad? Yn ogystal, a all Llywodraeth Cynulliad Cymru rannu unrhyw wybodaeth sydd ganddi ynglŷn â'r gost ariannol o weithredu'r system gyfredol gyda'r Cynulliad?

John Griffiths: It will be part of my review, because I am looking at the efficiency and the effectiveness of the system. Cost and duplication are important factors in that. It has recently been estimated that the duplication involved in having to secure powers for the Assembly through the LCO process, before then implementing policy through Measures, costs just under £2 million per annum in staff time and resource. Therefore, it would be important to have that cost and duplication in mind when, for example, considering the advantages of gaining a 'yes' vote in the referendum, and moving on to Part 4 of the Government of Wales Act 2006. That duplication would then be effectively tackled, which would save considerable time, resource and money.

John Griffiths: Bydd hynny'n rhan o fy adolygiad, gan fy mod yn edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system. Mae cost a dyblygu yn ffactorau pwysig yn hynny o beth. Amcangyfrifwyd yn ddiweddar bod y dyblygu sy'n gysylltiedig â gorfod sicrhau pwerau i'r Cynulliad drwy'r broses LCO, cyn gweithredu polisi drwy Fesurau ar ôl hynny, yn costio ychydig o dan £2 miliwn y flwyddyn o ran amser staff ac adnoddau. Felly, byddai'n bwysig cadw'r gost honno a'r dyblygu hwnnw mewn cof wrth, er enghraifft, ystyried manteision sicrhau pleidlais 'ie' yn y refferendwm, a symud ymlaen at Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Yna, byddai modd mynd i'r afael â'r dyblygu hwnnw'n effeithiol, a byddai hynny'n arbed cryn dipyn o amser, adnoddau

ac arian.

Darren Millar: One issue that is often commented on as part of the legislative process is the quality of the pre-legislative scrutiny, before the Government brings it to the table. I attended a conference on scrutiny recently, in the Pierhead building, at which this was an issue of great concern to many of the organisations present. They suggested that, if the Government would only take steps before proposing legislation to discuss and consult with them, there could be a fast-tracking, almost, of the Assembly's scrutiny process, which would lead to better quality scrutiny. Can you comment on that suggestion?

John Griffiths: I am happy to do so. I do not wish to pre-empt my review and its findings, but I recognise the concerns and the views that you express, on your behalf, no doubt, as well as on behalf of those external organisations. Those are important factors for any executive or legislature. There is considerable progress and improvement that we could make, and I look forward to addressing those issues in the review.

Darren Millar: Un mater y gwneir sylwadau yn ei gylch yn aml fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol yw ansawdd y craffu cyn-ddeddfwriaethol, cyn i'r Llywodraeth ei gyflwyno. Bûm mewn cynhadledd ar graffu yn ddiweddar, yn adeilad y Pierhead, ac roedd hyn yn destun pryder mawr i nifer o'r sefydliadau a oedd yn bresennol. Roeddent yn awgrymu ei bod yn bosibl y gellid sicrhau proses graffu'r Cynulliad bron ar lwybr carlam, a fyddai'n arwain at graffu o well ansawdd. pe na bai'r Llywodraeth ond yn cymryd camau i drafod ac ymgynghori â hwy cyn cynnig deddfwriaeth. A allwch roi sylwadau ynglŷn â'r awgrym hwnnw?

John Griffiths: Rwyf yn fodlon iawn gwneud hynny. Nid wyf am achub y blaen ar fy adolygiad a'i ganfyddiadau, ond rwyf yn cydnabod y pryderon a'r safbwyntiau rydych yn eu mynegi, ar eich rhan chi, mae'n siŵr, yn ogystal ag ar ran y sefydliadau allanol hynny. Mae'r rheini'n ffactorau pwysig ar gyfer unrhyw weithrediaeth neu ddeddfwrfa. Mae cynnydd a gwelliannau sylweddol y gallem eu gwneud, ac edrychaf ymlaen at roi sylw i'r materion hynny yn yr adolygiad.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government

Cyflog Cyfartal

1. David Melding: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cyflog cyfartal yng Nghymru. OAQ(3)1336(SJL)*

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): In collaboration with the Wales Trades Union Congress and the Equality and Human Rights Commission, the Welsh Assembly Government has promoted gender equal pay in Wales by supporting the Close the Pay Gap campaign. I continue to remind leaders of public authorities about their responsibilities under equal pay legislation during my regular visits.

David Melding: I acknowledge that the pay

Equal Pay

1. David Melding: *Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government efforts to promote equal pay in Wales. OAQ(3)1336(SJL)*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Mewn cydweithrediad â Chyngres Undebau Llafur Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hyrwyddo cyflog cyfartal rhwng y ddau ryw yng Nghymru trwy gefnogi ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog. Rwyf yn parhau i atgoffa penaeithiaid awdurdodau cyhoeddus ynglŷn â'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cyflog cyfartal yn ystod fy ymweliadau rheolaidd.

David Melding: Rwyf yn cydnabod bod y

gap is narrowing in Wales, and in the rest of the UK, which we are pleased about. Indeed, there have been several Welsh Assembly Government initiatives over the last decade that have addressed this issue. However, it is still the case that only about half the local authorities in Wales have even partially resolved their pay issues, if you look at the need for rigorous pay policies now and the need to address past injustices. Given the financial constraints that we are now under, and bearing in mind that there are tight budgets ahead, what will you do to ensure that local authorities are not let off in terms of the pace of addressing these issues, and that the Government's single equality scheme will effectively promote equal pay in Wales at a more rapid rate?

Carl Sargeant: Thank you for acknowledging that the gap is narrowing. However, I agree with you that it is of increased concern that we are not there yet. Rapid progress is needed to get there. I am hopeful that our draft regulations around the equality duties will help in this process. I explained earlier this week that we are in the consultation period, and it is about understanding the scale of the problem. Once we have established that, public authorities—that includes local authorities—will have to identify any pay gaps that may exist and what they will do about it. How they will seek to improve the situation will then be on public record.

Helen Mary Jones: Minister, you will be aware that research undertaken by the Fawcett Society and others has demonstrated that the proposed cuts from the Government in London will have a greater effect on women workers and therefore may have an effect on equal pay because of the high percentage of women working in relatively low-paid jobs in the public sector. Given your responsibilities for equality, will you undertake, Minister, to work with your Cabinet colleagues when we have to implement cuts in public spending in Wales to try to ensure that, at the very least, low-paid women workers are not affected

bwlch cyflog yn lleihau yng Nghymru, ac yng ngweddill y DU, ac rydym yn falch iawn o hynny. Yn wir, cafwyd nifer o fentrau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dros y degawd diwethaf a oedd yn rhoi sylw i'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir mai dim ond tua hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi datrys eu materion cyflog yn rhannol hyd yn oed, os edrychwch ar yr angen am bolisiau cyflog llym nawr a'r ffaith bod angen rhoi sylw i anghyfiawnderau'r gorffennol. O ystyried y cyfyngiadau ariannol rydym bellach yn gaeth iddynt, a chan gofio bod cyllidebau tynn o'n blaenau, beth a wnewch i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn segura wrth fynd i'r afael â'r materion hyn, ac i sicrhau y bydd cynllun cydraddoldeb sengl y Llywodraeth yn hyrwyddo cyflog cyfartal yng Nghymru yn effeithiol ar gyfradd gyflymach?

Carl Sargeant: Diolch ichi am gydnabod bod y bwlch yn lleihau. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno â chi bod y ffaith nad ydym wedi cyrraedd y nod eto yn peri mwy a mwy o bryder. Mae angen gwneud cynnydd cyflym er mwyn cyrraedd y nod. Rwyf yn gobeithio y bydd ein rheoliadau drafft ynglŷn â'r dyletswyddau cydraddoldeb yn helpu'r broses hon. Esboniais yn gynharach yr wythnos hon ein bod yn y cyfnod ymgynghori, sy'n ymwneud â deall maint y broblem. Ar ôl inni wneud hynny, bydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus—sy'n cynnwys awdurdodau lleol—ganfod unrhyw fylchau cyflog a allai fodoli, a nodi'r hyn y byddant yn ei wneud i fynd i'r afael â hwy. Yna, bydd y ffordd y byddant yn ceisio gwella'r sefyllfa ar gofnod cyhoeddus.

Helen Mary Jones: Weinidog, mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod ymchwil a wnaed gan Gymdeithas Fawcett ac eraill wedi dangos y bydd y toriadau arfaethedig gan y Llywodraeth yn Llundain yn cael mwy o effaith ar weithwyr sy'n fenywod, ac mae'n bosibl, felly, y byddant yn cael effaith ar gyflog cyfartal o ganlyniad i'r canran uchel o fenywod sy'n gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus sydd â chyflogau cymharol isel. O ystyried eich cyfrifoldebau chi dros gydraddoldeb, a wnewch chi, Weinidog, ymrwmo i weithio gyda'ch cyd-Weinidogion yn y Cabinet pan fydd yn rhaid inni weithredu toriadau mewn gwariant

disproportionately and that, ideally, we make what efforts we can to protect their terms and conditions, even if the terms and conditions of men further up the pecking order have to be cut?

Carl Sargeant: You raise a very important point. I have concerns about the impacts of the block funding from the UK Government, and what will happen in October could be even more devastating. There is already evidence that those most likely to be hit by this will be women and children and black, minority and ethnic communities, which make up most of our disadvantaged communities. I and my colleagues across Government are applying our decisions based on equality impact assessments. I would expect authorities to do the same.

Cyfle Cyfartal

2. Peter Black: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfle cyfartal i'r gymuned anabl. OAQ(3)1353(SJL)*

Carl Sargeant: The Welsh Assembly Government is committed to promoting equality of opportunity for all citizens and ensuring that services and facilities are accessible to disabled people across the whole of Wales.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. You may know that, during the general election, a survey carried out by Scope Cymru discovered that 67 per cent of polling stations surveyed presented an access barrier that may have prevented disabled voters from being able to vote independently and in secret. Given that we have a year of public votes next year, with the Welsh referendum and alternative vote referendum, as well as Assembly elections, what actions are you taking to try to address this issue?

Carl Sargeant: I can refer you to the meeting of the Committee on Equality of Opportunity, chaired by Ann Jones, which I

cyhoeddus yng Nghymru i geisio sicrhau, fan leiaf, nad effeithir yn anghymesur ar weithwyr cyflog isel sy'n fenywod ac i sicrhau ein bod, yn ddefnyddol, yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu eu telerau ac amodau, hyd yn oed os bydd yn rhaid torri telerau ac amodau dynion sy'n uwch ar y drefn flaenoriaeth?

Carl Sargeant: Rydych yn codi pwynt pwysig iawn. Mae gennyf bryderon ynglŷn ag effeithiau'r arian bloc gan Lywodraeth y DU, a gallai'r hyn a fydd yn digwydd fis Hydref fod hyd yn oed yn fwy dinistriol. Ceir tystiolaeth eisoes mai'r rheini sy'n fwyaf tebygol o ddioddef yn sgîl hyn yw menywod a phlant a chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'n cymunedau difreintiedig. Rwyf fi a fy nghyd-Weinidogion ar draws y Llywodraeth yn gwneud ein penderfyniadau ar sail asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau wneud yr un fath.

Equality of Opportunity

2. Peter Black: *Will the Minister make a statement on equality of opportunity for the disabled community. OAQ(3)1353(SJL)*

Carl Sargeant: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dinesydd ac i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau yn hygyrch i bobl anabl ym mhob cwr o Gymru.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Efallai eich bod yn gwybod bod arolwg a gynhaliwyd gan Scope Cymru yn ystod yr etholiad cyffredinol wedi canfod rhwystr rhag mynediad yn 67 y cant o'r gorsafodded pleidleisio a arolygydd, a allai fod wedi atal pleidleiswyr anabl rhag gallu pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol. O gofio bod blwyddyn o bleidleisiau cyhoeddus o'n blaenau'r flwyddyn nesaf, gyda refferendwm Cymru a refferendwm y bleidlais amgen, yn ogystal ag etholiadau'r Cynulliad, pa gamau rydych yn eu cymryd i geisio mynd i'r afael â'r mater hwn?

Carl Sargeant: Gallaf eich cyfeirio at gyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, o dan gadeiryddiaeth Ann Jones, y bûm yn

recently attended, as that issue was raised with me there. I have already written to local authority chief executives to assess what they are going to do to enhance access to polling stations. I will write to the Committee on Equality of Opportunity when I receive the responses, and I am sure that you will be able to obtain copies of that correspondence.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I fully support the statement that you made in answer to Peter's tabled question, but I ask you to take up with the Minister for transport, in recognition that this issue goes across portfolios, the position in relation to trains and, in particular, the call by Railfuture Wales to require the Welsh national transport plan to report annually on the number of trains with disabled access, disabled toilet provision on trains, the number of railway stations with platforms that enable disabled access onto trains, and the number of railway stations with audible and visual customer information. All of these are issues that, I am sure, Assembly Members have had raised with them. It is a real issue. I am sure that there is a way forward, but I think that it requires annual monitoring.

Carl Sargeant: This has been brought to my attention in the past. One significant issue that is raised with me regularly is audio-visual support on stations and on buses. I will be happy to write to the Minister for transport to see what action he is taking on these issues.

Biliau'r Dreth Gyngor

3. Ann Jones: *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu pensynwyr i dalu eu biliau treth gyngor. OAQ(3)1346(SJL)*

Carl Sargeant: This year, we have allocated £4 million in grants directly to all local authorities so that they may determine how funds are used to best help pensioners with their council tax. This follows the success of

bresennol ynddo yn ddiweddar, oherwydd codwyd y mater hwnnw gyda mi yno. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at brif weithredwyr awdurdodau lleol i asesu'r hyn maent yn mynd i'w wneud i wella mynediad i orsafoedd pleidleisio. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal pan y caf yr ymatebion, ac rwyf yn siŵr y bydd modd ichi gael copïau o'r ohebiaeth honno.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Rwyf yn llwyr gefnogi'r datganiad y gwnaethoch wrth ateb y cwestiwn a gyflwynwyd gan Peter, ond gan gydnabod bod y mater hwn yn mynd ar draws portffolios, gofynnaf ichi drafod gyda'r Gweinidog dros drafnidiaeth y sefyllfa yng nghyswllt trenau ac, yn benodol, y galw gan Railfuture Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gynllun trafnidiaeth cenedlaethol Cymru adrodd yn ôl yn flynyddol ar nifer y trenau sydd â mynediad ar gyfer bobl anabl, y ddarpariaeth o doiledau anabl ar drenau, nifer y gorsafoedd rheilffordd sydd â phlatformau sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl anabl allu mynd ar drenau, a nifer y gorsafoedd rheilffordd sydd â gwybodaeth gweledol a chlywedol i gwsmeriaid. Rwyf yn siŵr bod y materion hyn i gyd yn faterion y mae Aelodau'r Cynulliad wedi eu codi gyda hwy. Mae'n fater go iawn. Rwyf yn siŵr bod ffordd ymlaen i'w chael, ond rwyf yn credu bod monitro blynyddol yn angenrheidiol.

Carl Sargeant: Mae fy sylw wedi cael ei ddwyn at hyn yn y gorffennol. Un mater pwysig sy'n cael ei godi gyda mi yn rheolaidd yw cefnogaeth glyweled mewn gorsafoedd ac ar fysiau. Byddaf yn fwy na bodlon ysgrifennu at y Gweinidog dros drafnidiaeth i gael gwybod pa gamau mae'n eu cymryd ar y materion hyn.

Council Tax Bills

3. Ann Jones: *What is the Welsh Assembly Government doing to help pensioners meet their council tax bills. OAQ(3)1346(SJL)*

Carl Sargeant: Eleni, rydym wedi dyrannu £4 miliwn mewn grantiau uniongyrchol i bob awdurdod lleol fel y gallant benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r arian i helpu pensynwyr gyda'r dreth gyngor. Daw hyn ar

last year's £2.1 million grant scheme, when over 36,000 pensioners received help.

1.40 p.m.

Ann Jones: Thank you for that response. I am pleased that the Welsh Assembly Government recognises the need to help pensioners. It is only through your efforts and those of your predecessor that we are providing that help to pensioners. You have mentioned the £4 million-worth of support; how will you evaluate best practice in relation to that funding? Will you look at whether good practice already exists in some council areas? For the second consecutive day, I would like to congratulate Denbighshire County Council for the way in which it has tackled this. *[Interruption.]* Well, times are changing. Denbighshire council has published adverts asking every pensioner to apply for pensions credit or a benefits check. The approach that we take in Wales is in stark contrast to that of the Tories and the Libs at Westminster. Those on pension credit are now set to lose £11 per week and thousands of older people will be robbed of winter fuel payments. This is why the Institute for Fiscal Studies has said that the budget is regressive. Do you agree, Minister, that it is up to us on this side of the Chamber to continue to support pensioners in need?

Carl Sargeant: I am sure that Denbighshire council will be delighted by your comments over the last two days. I hope to continue to champion best practice and the sharing of good quality schemes. This is part of the review that I announced yesterday about who does what, where, and how. Once we have that understanding, we can improve the distribution of the schemes for the public. As I said yesterday, this is not about the way in which we operate these schemes; we should have our eyes set on our objective, namely the customer—in this case, pensioners.

In its scheme, Denbighshire council was able to make 2,139 payments last year, which is a

ôl llwyddiant cynllun grant £2.1 miliwn y llynedd, wrth i dros 36,000 o bensiynwyr gael help.

1.40 p.m.

Ann Jones: Diolch am yr ymateb hwnnw. Rwyf yn falch bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod angen helpu pensiynwyr. Dim ond drwy eich ymdrechion chi ac ymdrechion eich rhagflaenydd rydym bellach yn darparu'r help hwnnw i bensiynwyr. Rydych wedi crybwyll gwerth £4 miliwn o gefnogaeth; sut y byddwch yn gwerthuso arfer gorau yng nghyswllt yr arian hwnnw? A fyddwch yn edrych i weld a oes arfer da eisoes yn bodoli mewn rhai ardaloedd cyngor? Am yr ail ddiwrnod yn olynol, hoffwn longyfarch Cyngor Sir Ddinbych am y ffordd y mae wedi mynd i'r afael â hyn. *[Torri ar draws.]* Wel, mae pethau'n newid. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi hysbysebion yn gofyn i bob pensiynwr wneud cais am gredyd pensiwn neu brawf budd-daliadau. Mae ein hagwedd yng Nghymru yn gwbl groes i agwedd y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Bydd y rheini sydd ar gredyd pensiwn bellach yn colli £11 yr wythnos a bydd taliadau tanwydd gaeaf yn cael eu cymryd oddi ar filoedd o bobl hŷn. Dyma pam fod y Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud bod y gyllideb yn gam yn ôl. A ydych yn cytuno, Weinidog, ei bod yn ddyletswydd arnom ni ar yr ochr hon i'r Siambr i barhau i gefnogi pensiynwyr mewn angen?

Carl Sargeant: Rwyf yn siŵr y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn falch iawn o glywed eich sylwadau dros y deuddydd diwethaf. Rwyf yn gobeithio parhau i hyrwyddo arfer gorau a rhannu cynlluniau o ansawdd da. Mae hyn yn rhan o'r adolygiad a gyhoeddwyd gennyf ddoe ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth, ymhle, a sut. Ar ôl inni ddeall hynny, gallwn wella'r modd y mae'r cynlluniau'n cael eu dosbarthu i'r cyhoedd. Fel y dywedais ddoe, nid oes a wnelo hyn ddim â'r ffordd rydym yn gweithredu'r cynlluniau hyn; dylem ganolbwyntio ar ein nod, sef y cwsmer—pensiynwyr yn yr achos hwn.

O dan ei gynllun, roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi gallu gwneud 2,139 o daliadau y

significant number, and will make a huge difference to the lives of pensioners. On the broader question of benefits, I share your concern about the winter fuel payments. The change of the age criteria to the date on which you were born will not change anything at the moment, but, by 2020, will cause a shift in the age at which people become eligible from 60 to 65, the retirement age. This means that a number of people who would currently receive it will not receive it in the future.

Darren Millar: I also welcome Ann Jones's recognition of the support being given to pensioners throughout Denbighshire by the coalition that is responsible for governing that local authority. The cabinet member responsible for pensioner support is a Conservative, which is most welcome indeed.

As you know, Minister, one of the big concerns that pensioners and other householders have across Wales is the anticipation that, in order to balance the books, local authorities may well have to raise council tax significantly over the next few years because of the irresponsible mismanagement of the UK public finances and the consequential impact that that will have in Wales. Can you tell us what action you will take as Minister to protect pensioners and other householders in Wales from excessive council tax increases? Will you take a leaf from the Conservative book and allow referenda to take place on council tax increases that the public finds excessive?

Carl Sargeant: Your questions are always interesting, Darren; thank you for that. Let us be clear, the reason why council tax may have to be increased—which will have a direct effect on everyone in Wales—is the cuts being made in Westminster by your Government, supported very heavily by the Conservatives with yellow ties, the new Liberal Democrats. That is unmistakable. Your cuts in Westminster are having a direct impact on services in Wales. I am keen to ensure that we continue with schemes devolved to the One Wales Government, like council tax benefit, while we have the funds to do so.

llynedd, nifer sylweddol yn wir, a bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pensiynwyr. O ran budd-daliadau'n ehangach, rwyf finnau hefyd yn bryderus am y taliadau tanwydd gaeaf. Ni fydd newid y meini prawf oedran i'r dyddiad y cawsoch eich geni yn newid unrhyw beth ar hyn o bryd, ond, erbyn 2020, bydd yn newid yr oedran y bydd pobl yn dod yn gymwys o 60 i 65, yr oedran ymddeol. Mae hyn yn golygu na fydd nifer o bobl a fyddai'n ei gael ar hyn o bryd yn ei gael yn y dyfodol.

Darren Millar: Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod Ann Jones yn cydnabod y gefnogaeth a roddir i bensynwyr ledled Sir Ddinbych gan y glymblaid sy'n gyfrifol am lywodraethu'r awdurdod lleol hwnnw. Mae'r aelod cabinet sy'n gyfrifol am gymorth pensiynwyr yn Geidwadwr, ac mae hynny i'w groesawu, yn wir.

Fel y gwyddoch, Weinidog, un peth y mae pensiynwyr a deiliaid tai eraill ledled Cymru yn pryderu yn ei gylch yw'r disgwyl y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol, o bosibl, er mwyn mantoli'r llyfrau, godi'r dreth gyngor yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i gamreoli arian cyhoeddus y DU yn anghyfrifol a'r effaith y bydd hynny'n ei chael yng Nghymru. A allwch ddweud wrthym pa gamau y byddwch yn eu cymryd fel Gweinidog i amddiffyn pensiynwyr a deiliaid tai eraill yng Nghymru rhag cynnydd gormodol yn y dreth gyngor? A wnewch chi ddilyn esiampl y Ceidwadwyr a chaniatáu i refferenda gael eu cynnal ar gynnydd yn y dreth gyngor sy'n ormodol ym marn y cyhoedd?

Carl Sargeant: Mae eich cwestiynau bob amser yn ddiddorol, Darren; diolch ichi am hynny. Gadewch inni fod yn glir, y rheswm pam mae'n bosibl y bydd yn rhaid cynyddu'r dreth gyngor—a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar bawb yng Nghymru—yw'r toriadau sy'n cael eu gwneud yn San Steffan gan eich Llywodraeth chi, gyda chefnogaeth gadarn iawn gan y Ceidwadwyr sydd â chysylltiadau melyn, y Democratiaid Rhyddfrydol newydd. Ni ellir camgymryd hynny. Mae eich toriadau chi yn San Steffan yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau yng Nghymru. Rwyf yn awyddus i sicrhau ein bod yn parhau gyda chynlluniau sydd

wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru'n Un, fel y budd-dal treth gyngor, tra bod yr arian gennym i wneud hynny.

Darren Millar: May I come back on that point?

Darren Millar: A gaf fi ddod yn ôl at y pwynt hwnnw?

The Presiding Officer: Yes.

Y Llywydd: Cewch.

Darren Millar: Thank you, Presiding Officer; I greatly appreciate the opportunity. Minister, I listened to your answer with interest, but you failed to respond directly to my question on the issue of local referenda where council tax increases are deemed to be excessive by members of the public. Will you or will you not permit residents in areas affected by large-scale council tax increases the opportunity to have a referendum, as will be available in England?

Darren Millar: Diolch ichi, Lywydd; rwyf yn mawr werthfawrogi'r cyfle. Weinidog, gwrandewais â diddordeb ar eich ateb, ond ni wnaethoch ymateb yn uniongyrchol i fy nghwestiwn ynglŷn â refferenda lleol lle mae'r cynnydd yn y dreth gyngor yn ormodol ym marn aelodau o'r cyhoedd. A wnewch chi roi'r cyfle i drigolion mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan gynnydd mawr yn y dreth gyngor gael refferendwm, fel sy'n mynd i fod ar gael yn Lloegr, ai peidio?

Carl Sargeant: I am not considering that at the moment.

Carl Sargeant: Nid wyf yn ystyried hynny ar hyn o bryd.

Undebau Credyd

Credit Unions

4. Irene James: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo defnyddio undebau credyd. OAQ(3)1323(SJL)*

4. Irene James: *Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government action to promote the use of credit unions. OAQ(3)1323(SJL)*

Carl Sargeant: On 14 September, I announced new funding of £3.4 million to support the continued growth and sustainability of credit unions in Wales. These significant resources will ensure that credit unions continue to develop financial services that are available to all Welsh citizens during the next three years.

Carl Sargeant: Ar 14 Medi, cyhoeddais gyllid newydd gwerth £3.4 miliwn i gefnogi twf a chynaliadwyedd parhaus undebau credyd yng Nghymru. Bydd yr adnoddau sylweddol hyn yn sicrhau bod undebau credyd yn parhau i ddatblygu gwasanaethau ariannol a fydd ar gael i holl ddinasyddion Cymru yn ystod y tair blynedd nesaf.

Irene James: Thank you for your response, Minister. I am delighted to hear that the Assembly Government takes this issue so seriously. With Christmas fast approaching—I am not sure whether I should be saying that, as it will probably seem even nearer—many of my Islwyn constituents will feel the pressure of children's expectations. Unscrupulous loan sharks will also be aware of this. I know that you are working with groups such as the Welsh illegal money lending unit, but do you agree that encouraging people to join and work with local credit unions, such as the Islwyn

Irene James: Diolch am eich ymateb, Weinidog. Braf iawn yw clywed bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y mater hwn o ddifrif. Wrth i'r Nadolig brysur agosáu—nid wyf yn siŵr a ddylwn i fod yn dweud hynny, oherwydd mae'n siŵr y bydd yn teimlo'n agosach fyth—bydd llawer o fy etholwyr yn Islwyn yn teimlo o dan bwysau gan ddisgwyliadau'r plant. Bydd siarcod benthyg arian diegwyddor hefyd yn ymwybodol o hyn. Gwn eich bod yn gweithio gyda grwpiau fel uned benthyca arian anghyfreithlon Cymru, ond a ydych yn cytuno bod annog pobl i ymuno a gweithio

Community Credit Union and the BAG Credit Union Ltd in my constituency, will keep them out of the hands of loan sharks?

Carl Sargeant: Yes. I agree that that is an important point. Removing loan sharks from the alternative credit market will, undoubtedly, make life easier for thousands of people. Finding sources of affordable credit, such as credit unions, is important. That is why we have put significant amounts of funding into that. I recently visited the Welsh illegal money lending unit and heard some terrible stories there of people's lives being badly affected—indeed, threatened—by loan sharks if they did not pay up. I am keen to support the stamping out of such practices. Christmas is around 80 days away—which is quite nerve-wracking—but the issue is about people being able to save safely for Christmas and beyond.

Mark Isherwood: Minister, you were recently reported in our local press as rightly supporting investment in credit unions and the development of financial services through credit unions, saying that they offer an alternative, safe and reliable way of saving and borrowing money, especially for people on lower incomes. Just as with banks and building societies, credit unions must manage lending risk and be assured of their borrowers' capacity to repay debt, so how are you working with the sector and with other providers to secure appropriate levels of underwriting expertise and capacity and to ensure that, in managing that risk, you do not end up penalising the very people who need the help most?

Carl Sargeant: As you will be aware, Mark, all credit unions are regulated by the Financial Services Authority, and all levels of training are professionally supported. My department helps with that. We also provide broader support for consumers' financial knowledge. I am pleased to support the Consumer Financial Education Body's 'Moneymadeclear' guidance, so that people can learn about borrowing, saving, pensions

gydag undebau credyd lleol, fel Undeb Credyd Cymunedol Islwyn ac Undeb Credyd BAG Cyf yn fy etholaeth innau, yn eu gwarchod rhag y siarcod benthyc arian?

Carl Sargeant: Ydw. Rwyf yn cytuno bod hynny'n bwynt pwysig. Bydd cael gwared ar siarcod benthyc arian o'r farchnad credyd amgen, heb os, yn gwneud bywyd yn haws i filoedd o bobl. Mae'n bwysig dod o hyd i ffynonellau credyd fforddiadwy, fel undebau credyd. Dyna pam rydym wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian yn hynny. Bûm yn ymweld ag uned benthyc arian anghyfreithlon Cymru yn ddiweddar, a chlywais ambell stori ofnadwy lle'r effeithiwyd yn wael ar fywydau pobl—yn wir, lle'r oedd eu bywydau'n cael eu bygwith—gan siarcod benthyc arian pe na baent yn talu. Rwyf yn awyddus i gefnogi unrhyw ymgais i ddileu arferion o'r fath. Bydd hi'n Nadolig mewn tua 80 diwrnod—sy'n ddigon i godi braw—ond mae'r gwir fater yn ymwneud â phobl yn gallu cynilo'n ddiogel ar gyfer y Nadolig a thu hwnt.

Mark Isherwood: Weinidog, roedd adroddiad yn ein gwasg leol yn ddiweddar yn dweud eich bod yn cefnogi buddsoddiad mewn undebau credyd a datblygu gwasanaethau ariannol drwy undebau credyd, gan ddweud eu bod yn cynnig ffordd wahanol, ffordd ddiogel a dibynadwy, o gynilo a benthyc arian, yn enwedig i bobl sy'n cael incwm is. Yn yr un modd â banciau a chymdeithasau adeiladu, rhaid i undebau credyd reoli risg benthyc a bod yn sicr o allu eu benthycwyr i ad-dalu eu dyledion. Felly, sut rydych yn gweithio gyda'r sector a chyda darparwyr eraill i sicrhau lefelau priodol o arbenigedd a gallu o ran gwarantu ac i sicrhau nad ydych, yn y pen draw, yn cosbi'r union bobl y mae arnynt angen help fwyaf, wrth ichi reoli'r risg honno?

Carl Sargeant: Fel y gwyddoch, Mark, rheoleiddir pob undeb credyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, a chaiff pob lefel hyfforddiant ei gefnogi'n broffesiynol. Mae fy adran innau yn helpu yn hynny o beth. Rydym hefyd yn darparu cymorth ehangach er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall gwybodaeth ariannol. Rwyf yn falch o gefnogi cyfarwyddyd 'Moneymadeclear' Corff Addysg Ariannol

and so on in simple language. This is about a package of good financial management across Wales, in which we see credit unions playing a part.

Leanne Wood: Minister, while there has been a lot of controversy about the financial crash of 2007 and the subsequent bail-out of the banks, few people argued against the need to prop them up. The reason for that is that too many people rely on our high street banks and, had they been allowed to fail, it would have caused financial chaos. However, it seems that lessons have not been learned, and banks have adopted a business-as-usual attitude since then. It is no surprise that an internal Bank of England working paper has said that another crash is inevitable within the next 10 to 25 years if far-reaching reform does not take place. I welcome the funding that you have just mentioned. Do you agree that much more effort could be made to market alternative lending sources, such as credit unions, and others, so that people have a real alternative to the risk-taking high-street banks? Are you prepared to explore that further?

1.50 p.m.

Carl Sargeant: Yes. I am very supportive of the promotion of credit unions in whatever way we can. Success is bound by hearsay much of the time. If we can encourage good saving practices at an early age, we will be on the road to success for the future. I was delighted to visit a school in Rhyl with Ann Jones during my tour, 'Your Service, Your Say', and we were pleased to present that school with a best saving credit union award. Again, it is about communication. If children start to save in school, they will go home and tell their parents about saving and good savings. Credit unions are professional bodies and they are huge in Ireland and America. We should be promoting them in Wales, and I do so.

Joyce Watson: Minister, I would like to take this opportunity to welcome the recent funding for credit unions across Wales. I

Defnyddwyr, er mwyn i bobl allu dysgu am fenthyca, cynilo, pensiynau ac yn y blaen mewn iaith syml. Mae hyn yn ymwneud â phecyn o reolaeth ariannol da ledled Cymru, lle gwelwn undebau credyd yn chwarae rhan.

Leanne Wood: Weinidog, er y bu llawer o ddadlau ynghylch cwmp ariannol 2007, a'r cymorth ariannol roedd yn rhaid ei roi i fanciau wedi hynny, ychydig iawn o bobl a fu'n dadlau yn erbyn yr angen i'w cynnal. Y rheswm am hynny yw bod gormod o bobl yn dibynnu ar fanciau ein stryd fawr, a byddai anrhefn ariannol wedi'i greu pe gadewid iddynt fethu. Fodd bynnag, ymddengys nad yw gwersi wedi'u dysgu, ac mae banciau wedi mabwysiadu agwedd busnes-fel-arfer ers hynny. Nid yw'n syndod bod papur gwaith mewnol o Fanc Lloegr wedi dweud bod cwmp arall yn anochel o fewn y 10-25 mlynedd nesaf os na sicrhair diwygio pellgyrhaeddol. Croesawaf yr arian rydych newydd ei grybwyll. A ydych yn cytuno y gellid gwneud llawer mwy o ymdrech i farchnata ffynonellau amgen o fenthyca, fel undebau credyd, ac eraill, fel bod gan bobl ddewis arall ar wahân i fanciau'r stryd fawr sy'n cymryd risgiau? A ydych yn barod i ystyried hynny ymhellach?

1.50 p.m.

Carl Sargeant: Ydw. Rwyf yn gefnogol iawn o'r ymdrech i hyrwyddo undebau credyd ym mha bynnag ffordd y gallwn. Fel arfer, mae llwyddiant yn ddibynnol ar sion sydd ar led. Pe gallwn annog arferion cynilo da yn ifanc, byddwn ar ben ffordd o ran llwyddiant yn y dyfodol. Braff oedd ymweld ag ysgol yn y Rhyl gydag Ann Jones yn ystod fy nhaith, 'Eich Gwasanaethau, Eich Llais', ac roeddem yn falch o gyflwyno gwobr undeb credyd sy'n cynilo orau i'r ysgol honno. Unwaith eto, cyfathrebu sy'n bwysig. Os bydd plant yn dechrau cynilo yn yr ysgol, byddant yn mynd adref ac yn sôn wrth eu rhieni am gynilo a chynilion da. Mae undebau credyd yn gyrrff proffesiynol, ac maent yn boblogaidd iawn yn Iwerddon ac yn America. Dylem fod yn eu hyrwyddo yng Nghymru, ac rwyf finnau yn gwneud hynny.

Joyce Watson: Weinidog, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i groesawu'r arian diweddar ar gyfer undebau credyd ledled Cymru. Rwyf yn

particularly welcome the £30,000 each allocated to the Save Easy Credit Union and the Haven Credit Union, because both are based in my constituency. I know that the money will be used to boost the presence of credit unions in the area and offer greater choice to people when deciding how to manage their finances. Do you agree that offering safe means of financial planning to the people of Wales is crucial to the safeguarding of personal finances, particularly for those on low incomes?

Carl Sargeant: I agree with everything that you said. Leanne's question and yours are about how we promote that service to the broader public. We launched our credit union action plan earlier this year and it mentions the need to further strengthen the governance and management of credit unions so that people see them as the professional bodies that they are, and the need to raise the profile of credit unions in Wales to make their services more widely understood. All of those points feature in our credit union action plan. It is a bit of an uphill struggle because of the financial industry's position and people's perception of what is safe and what is not. I support credit unions, the Welsh Assembly Government supports them and the action plan is a good step forward, alongside the additional funding, in order to strengthen their capability across Wales.

Diwygio Ardrethi Busnes

5. Jenny Randerson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio ardrethi busnes. OAQ(3)1310(SJL)*

Carl Sargeant: On 8 September 2010, I informed Assembly Members of increases in rate relief that will result in the majority of businesses in Wales paying significantly reduced rates, or no rates, for 12 months from 1 October 2010.

Jenny Randerson: At a UK level, the Deputy Prime Minister has announced that tax increment financing legislation will be put through Westminster. This mechanism

croesawu'n arbennig y £30,000 yr un a ddyrannwyd i Undeb Credyd Save Easy ac Undeb Credyd Haven, gan fod y ddau wedi eu lleoli yn fy etholaeth. Gwn y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i roi hwb i bresenoldeb undebau credyd yn yr ardal ac i gynnig gwell dewis i bobl wrth iddynt benderfynu sut i reoli eu materion ariannol. A ydych yn cytuno bod cynnig ffordd ddiogel i bobl Cymru gynllunio'n ariannol yn hanfodol wrth ddiogelu arian personol, yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n cael incwm isel?

Carl Sargeant: Rwyf yn cytuno â phopeth rydych wedi'i ddweud. Mae cwestiwn Leanne a'ch cwestiwn chi yn ymwneud â sut rydym yn hyrwyddo'r gwasanaeth hwnnw i'r cyhoedd ehangach. Gwnaethom lansio ein cynllun gweithredu undebau credyd yn gynharach eleni ac mae'n sôn am yr angen i gryfhau ymhellach y modd y mae undebau credyd yn cael eu llywodraethu a'u rheoli, er mwyn i bobl eu gweld fel y cyrff proffesiynol yr ydynt. Mae'n sôn hefyd am yr angen i godi proffil undebau credyd yng Nghymru er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu deall yn fwy eang. Mae pob un o'r pwyntiau hynny wedi eu cynnwys yn ein cynllun gweithredu undebau credyd. Mae'n frwydr weddol anodd oherwydd sefyllfa'r diwydiant ariannol a chanfyddiad pobl o'r hyn sy'n ddiogel a'r hyn nad yw'n ddiogel. Rwyf yn cefnogi undebau credyd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cefnogi ac mae'r cynllun gweithredu yn gam da ymlaen, ochr yn ochr â'r arian ychwanegol, er mwyn cryfhau eu gallu ledled Cymru.

Reforming Business Rates

5. Jenny Randerson: *Will the Minister make a statement on reforming business rates. OAQ(3)1310(SJL)*

Carl Sargeant: Ar 8 Medi 2010, rhoddais wybod i Aelodau'r Cynulliad am gynnydd yn y rhyddhad ardrethi a fydd yn golygu y bydd y rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru yn talu ardrethi sylweddol is, neu ddim ardrethi o gwbl, am 12 mis o 1 Hydref 2010 ymlaen.

Jenny Randerson: Ar lefel y DU, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cyhoeddi y bydd deddfwriaeth ariannu drwy gynyddrannau treth yn cael ei chyflwyno

allows local authorities to borrow money specifically for regeneration projects against the collateral provided by increased business rates. Are you considering the same scheme here in Wales?

Carl Sargeant: I am aware of the proposals and will certainly study them in more detail after the comprehensive spending review. While I am broadly supportive of the idea of TIFs, I think that they are not without risk and we have to consider that.

Gareth Jones: Weinidog, yr wyf yn croesawu'n fawr y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ddydd Gwener, 1 Hydref, a fydd yn arwain at leihau ardrethi busnes bron hanner y busnesau yn etholaeth Aberconwy. Bydd hynny'n gymorth sylweddol ar adeg anodd. A ydyw'r Gweinidog yn cytuno mai un o'r rhwystrau sylfaenol i ddiwygio'r system gymhleth ac annheg o ardrethi busnes a orfodwyd arnom gan Mrs Thatcher—yr ydym i gyd yn gwybod hynny bellach—yw'r ffaith bod cyfrifoldeb am y system ddieflig hon wedi ei hollti rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisió, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Llywodraeth y Cynulliad, sy'n rhannol gyfrifol, a Llywodraeth San Steffan? Mae'r cyfrifoldeb wedi ei hollti yn y modd hwnnw. A gytunwch, felly, y byddai modd dyfeisio system well a thecach, ond nid hyd nes y bydd yr holl swyddogaethau perthansol wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru?

Carl Sargeant: The system is complicated, but taxation systems require detailed legislation to ensure that tax is levied and collected fairly. The Valuation Office Agency is independent of the Assembly Government and local authorities to ensure independent valuation for the ratepayer. The business rating system was reviewed by Sir Michael Lyons, and was given a clean bill of health. However, given that powers over business rates have only been partially devolved to the Assembly Government, there may be an opportunity to tidy that system up and have a fairer and better system for Wales in the future.

Paul Davies: Supporting businesses must

gerbron San Steffan. Mae'r mecanwaith hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol fenthyca arian yn benodol ar gyfer prosiectau adfywio yn erbyn y warant a ddarperir gan ardrethi busnes uwch. A ydych yn ystyried yr un cynllun yma yng Nghymru?

Carl Sargeant: Rwyf yn ymwybodol o'r cynigion a byddaf yn sicr yn eu hastudio yn fwy manwl ar ôl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Er fy mod yn cefnogi'r syniad o ariannu drwy gynyddrannau treth yn frwd, nid wyf yn credu eu bod heb risg a rhaid inni ystyried hynny.

Gareth Jones: Minister, I warmly welcome the steps that the Government of Wales will take from Friday, 1 October, that will lead to a reduction in business rates for almost half the businesses in the Aberconwy constituency. That will help considerably at a difficult time. Does the Minister agree that one of the fundamental barriers to reforming the complex and unfair system of business rates that was imposed on us by Mrs Thatcher—we all know that by now—is the fact that responsibility for that evil system has been split between the Valuation Office Agency, HM Revenue and Customs, the Assembly Government, which is partly responsible, and the Westminster Government? The responsibility has been split in that way. Do you agree, therefore, that we could come up with a better and fairer system, but not until all of the relevant functions have been devolved to the Welsh Government?

Carl Sargeant: Mae'r system yn gymhleth, ond mae ar systemau trethi angen deddfwriaeth fanwl i sicrhau bod treth yn cael ei chodi a'i chasglu'n deg. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisió yn annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau prisiad annibynnol ar gyfer y sawl sy'n talu ardrethi. Adolygwyd y system ardrethi busnes gan Syr Michael Lyons, a rhoddwyd sêl bendith iddi. Fodd bynnag, o gofio mai dim ond wedi'u datganoli'n rhannol i Lywodraeth y Cynulliad y mae pwerau dros ardrethi busnes, mae'n bosibl y bydd cyfle i dacluso'r system honno er mwyn sicrhau system decach a gwell i Gymru yn y dyfodol.

Paul Davies: Rhaid i gefnogi busnesau fod

surely be a priority for any Government, particularly in the current economic climate. As the Minister is aware, the Welsh Conservatives last year called on the Welsh Assembly Government to introduce a business rate relief scheme that would provide 100 per cent rate relief to businesses with a rateable value of up to £10,000—and we fully costed those proposals. In the circumstances, will the Minister consider looking at those proposals, so that many businesses can be taken out of paying business rates in the first place?

Carl Sargeant: Many businesses will be taken out of paying business rates from 1 October of this year. It is interesting that you say that you brought to the floor detailed evidence of how you would make the savings to businesses with a rateable value of up to £10,000, and that when you got into Government you said that you did not realise what the numbers were. Has it all been changed now with regard to the UK spend? You are kidding yourselves if you think that we can afford to put more money into business rates, when the rate of funding coming from Westminster is reducing. I do not quite know from where you would get that additional money.

Cefnogi Pobl dan Anfantais

6. Darren Millar: *Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi pobl dan anfantais yng Nghymru. OAQ(3)1309(SJL)*

Carl Sargeant: Initiatives such as Communities First, the community facilities and activities programme and Communities 2.0 help support the most disadvantaged areas. Communities First provides an infrastructure for organisations from all sectors to engage with the most disadvantaged, CFAP provides capital funding support, and Communities 2.0 is ensuring that people are not excluded digitally.

Darren Millar: Thank you for that response, Minister. My question is particularly about the future of Communities First in Wales, because we know that there have been

yn flaenoriaeth i unrhyw Lywodraeth, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Fel y gŵyr y Gweinidog, y llynedd, galwodd y Ceidwadwyr Cymreig ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi busnes a fyddai'n rhoi 100 y cant o ryddhad ardrethi i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £10,000—a gwnaethom gostio'r cynigion hynny yn llawn. O dan yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog ystyried edrych ar y cynigion hynny, er mwyn eithrio llawer o fusnesau rhag gorfod talu ardrethi busnes yn y lle cyntaf?

Carl Sargeant: Bydd llawer o fusnesau yn cael eu heithrio rhag talu ardrethi busnes o 1 Hydref eleni ymlaen. Mae'n ddi-ddorol eich bod yn dweud eich bod wedi cyflwyno tystiolaeth fanwl o sut y byddech yn gwneud yr arbedion i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £10,000, a phan ddaethoch i Lywodraeth, gwnaethoch ddweud nad oeddech yn sylweddoli beth oedd y rhifau. A yw popeth wedi ei newid erbyn hyn o ran gwariant y DU? Rydych yn twyllo eich hunain os ydych yn credu y gallwn fforddio buddsoddi rhagor o arian mewn ardrethi busnes, pan fo cyfradd yr arian a ddaw o San Steffan yn lleihau. Nid wyf yn gwbl siŵr o ble yn union y byddech yn cael yr arian ychwanegol.

Supporting Disadvantaged People

6. Darren Millar: *What is the Minister doing to support disadvantaged people in Wales. OAQ(3)1309(SJL)*

Carl Sargeant: Mae mentrau fel Cymunedau yn Gyntaf, y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol a Cymunedau 2.0 yn helpu i gefnogi'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn darparu seilwaith i sefydliadau o bob sector ymgysylltu â'r rhai mwyaf difreintiedig, mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn darparu cefnogaeth cyllid cyfalaf, ac mae Cymunedau 2.0 yn sicrhau nad yw pobl yn cael eu heithrio yn ddi-gidol.

Darren Millar: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Mae fy nghwestiwn yn benodol am ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru, oherwydd rydym yn gwybod

problems in parts of the country with regard to the way that its programmes have underachieved against the Government's objectives. However, there are good examples of where Communities First has been a success, not least in the Chester Avenue part of Kinnel Bay, in my constituency, which has been transformed with the support of Communities First. That is highly valued by me, as the local Assembly Member. If a Communities First scheme proves to be a success, as has been the case on the Chester Avenue estate in Kinnel Bay, can you assure us that you will continue to invest in those schemes beyond March 2012, when the current schemes come to an end?

Carl Sargeant: It is astonishing that you seem to want it both ways. You say that Communities First has been a fantastic success in your area, but, in other areas, Members say that it is not delivering at all. It is either good for our communities or bad for them, surely. There is definitely a future for Communities First in our most deprived communities, and I will be supporting it post 2012, given the opportunity.

Bethan Jenkins: Minister, you will be aware that there was very little detail within the Conservative and Lib Dem coalition agreement on child poverty. What discussions have you had with the UK Government on meeting the 2020 targets to eradicate child poverty, particularly with regard to the upheaval that we are now facing in the benefits system and the impact that these changes will have on people in Wales?

2.00 p.m.

Carl Sargeant: I will ask the Deputy Minister for Children to write to you specifically on the child poverty strategy and the links between Wales and what is happening in England. If the Conservative and Liberal Democrat Government in Westminster thinks that cutting child trust funds across Wales and the UK will help in providing support for our most deprived communities, they are sadly mistaken.

bod problemau wedi bod mewn rhannau o'r wlad o ran y ffordd mae ei raglenni wedi tangyflawni yn erbyn amcanion y Llywodraeth. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau da lle mae Cymunedau yn Gyntaf wedi llwyddo, er enghraifft yn rhan Chester Avenue o Fae Cinnel, yn fy etholaeth i, sydd wedi ei weddnewid gyda chefnogaeth Cymunedau yn Gyntaf. Fel yr Aelod Cynulliad lleol, rwyf yn gwerthfawrogi hynny yn fawr. Os bydd cynllun Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddiannus, fel sydd wedi digwydd ar ystâd Chester Avenue ym Mae Cinnel, a allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn parhau i fuddsoddi yn y cynlluniau hynny ar ôl mis Mawrth 2012, pan fydd y cynlluniau presennol yn dod i ben?

Carl Sargeant: Mae'n rhyfeddol eich bod am ei chael y naill ffordd a'r llall, yn ôl pob golwg. Rydych yn dweud bod Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn llwyddiant ysgubol yn eich ardal chi, ond, mewn ardaloedd eraill, mae Aelodau'n dweud nad yw'n esgor ar ganlyniadau. Yn ddiau, mae naill ai'n dda ar gyfer ein cymunedau neu'n ddrwg ar eu cyfer. Mae dyfodol pendant ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a byddaf yn ei gefnogi ar ôl 2012, pe rhoddir y cyfle imi.

Bethan Jenkins: Weinidog, byddwch yn ymwybodol nad oedd ond ychydig iawn o fanylion yng nghytundeb glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar dlodi plant. Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch bodloni targedau 2020 i ddileu tlodi plant, yn enwedig o ystyried y cynnwrf rydym yn awr yn ei wynebu yn y system fudd-daliadau a'r effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael ar bobl yng Nghymru?

2.00 p.m.

Carl Sargeant: Byddaf yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog dros Blant ysgrifennu atoch yn benodol ynglŷn â'r strategaeth tlodi plant a'r cysylltiadau rhwng Cymru a'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Os yw Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn credu y bydd torri cronfeydd ymddiriedolaeth plant ledled Cymru a'r DU yn helpu i gefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig, maent yn

anghywir, yn anffodus.

Veronica German: Minister, one group of people who are disadvantaged are those who suffer from mental illnesses, whose chances of finding or keeping a job are drastically reduced compared with others in the population. I recently had the pleasure of visiting Gofal Cymru's Gateway project in Newport. This excellent scheme helps people with serious mental health illnesses by providing them with much-needed training, support and confidence workshops as well as work placements. Do you agree that such schemes are key in allowing people who suffer from serious mental health illnesses to re-engage with the workplace and help to lift them out of poverty?

Carl Sargeant: We have had great vision in Wales about delivering services that support our communities. For example, our work, in conjunction with the former UK Government, on the Equality Act 2010, which was passed by the last, Labour, Government and which will provide protection for the most disadvantaged groups in Wales. That is vital because we know that women, disabled children, people from the black and minority ethnic communities and mental health groups are more likely to face disadvantage than others. That was our commitment then, and I wish that the UK Government, which is your Government, would support us to a greater extent in Wales to deliver equality across sectors.

Veronica German: I am sure that the coalition Government will endeavour to provide the equality that is required. Given your position with regard to local government and the fact that you are in touch with other providers of public services, you are also in a position to provide opportunities for placements for people in such a position. Are you willing to engage with public sector organisations and local government to encourage them to take on these work placements and help to facilitate such schemes?

Carl Sargeant: I have already written to the chief executives of local authorities to ensure that they have direct discussions with the

Veronica German: Weinidog, un grŵp o bobl sydd o dan anfantais yw'r rheini sy'n dioddef o salwch meddwl, y mae eu siawns o ddod o hyd i swydd, neu i gadw swydd, yn llai o lawer o'i chymharu â phobl eraill yn y boblogaeth. Yn ddiweddar, plaser oedd imi ymweld â phrosiect Gateway Gofal Cymru yng Nghasnewydd. Mae'r cynllun rhagorol hwn yn helpu pobl sydd â salwch meddwl difrifol drwy roi iddynt hyfforddiant, cefnogaeth a gweithdai hyder mawr eu hangen, yn ogystal â lleoliadau gwaith. A ydych yn cytuno bod cynlluniau o'r fath yn allweddol wrth roi cyfle i bobl sy'n dioddef salwch meddwl difrifol ail-ymuno â'r gweithle a'u helpu i oresgyn tloidi?

Carl Sargeant: Mae gweledigaeth wych wedi bod yng Nghymru ynghylch darparu gwasanaethau sy'n cefnogi ein cymunedau. Er enghraifft, ein gwaith, ar y cyd â chyn-Llywodraeth y DU, ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a basiwyd gan y Llywodraeth, Lafur, ddiwethaf, ac a fydd yn amddiffyn y grwpiau mwyaf o dan anfantais yng Nghymru. Mae hynny'n hanfodol oherwydd rydym yn gwybod bod menywod, plant anabl, pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau ieched meddwl yn fwy tebygol o wynebu anfantais nag eraill. Dyna oedd ein hymrwymiad bryd hynny, a byddai'n dda gennyf weld Llywodraeth y DU, sef eich Llywodraeth chi, yn ein cefnogi i raddau mwy yng Nghymru, er mwyn sicrhau cydraddoldeb ar draws sectorau.

Veronica German: Rwyf yn siŵr y bydd y Llywodraeth glymblaid yn ymdrechu i sicrhau'r cydraddoldeb angenrheidiol. O ystyried eich sefyllfa o ran llywodraeth leol a'r ffaith eich bod mewn cysylltiad â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, rydych hefyd mewn sefyllfa i ddarparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau i bobl mewn sefyllfa o'r fath. A ydych yn barod i ymgysylltu â sefydliadau sector cyhoeddus a llywodraeth leol i'w hannog i ymgymryd â'r lleoliadau gwaith hyn ac i helpu i hwyluso cynlluniau o'r fath?

Carl Sargeant: Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at brif weithredwyr awdurdodau lleol i wneud yn siŵr eu bod yn trafod yn uniongyrchol â'r

voluntary, or third, sector. I have had assurances from them that they are doing so, and I hope that they will consider the opportunities to which you have just referred.

Brian Gibbons: Minister, last Thursday I had the pleasure of welcoming the Minister for Children, Education and Lifelong Learning to Sandfields in my constituency, where we saw absolutely brilliant examples—I do not think that that is an exaggeration—of what Communities First is doing for our most disadvantaged communities. We heard impassioned contributions from the beneficiaries of the Communities First programme. Therefore, it is amazing to listen to what Darren Millar had to say.

I would also like to draw your attention to the fact that, on Friday, the Bevan Foundation, working with Dr Hywel Francis MP, is launching a pamphlet on valley regeneration in my constituency. One fact that the Bevan Foundation revealed in its report was that there was a hiatus of 25 years—a quarter of a century—in which nothing was taking place in communities such as the upper Afan valley. That was the period during which that party, which was in Government, closed the coal mines and spread despondency and despair in our communities. We must never go back to those days.

Carl Sargeant: I would also like to place on record my congratulations to the Sandfields Communities First project. An awful lot of work is going on in our communities that has had to take place because of the destruction of those communities many years ago under the Conservative administration. I am still committed to working with communities post 2012, given that opportunity. The Conservatives are finding it very hard to make a statement on whether or not they support Communities First. That is the key question. I do, but let us wait for an answer from them.

Cymunedau yn Gyntaf

7. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mentrau Cymunedau yn*

sector gwirfoddol, neu'r trydydd sector. Rwyf wedi cael sicrwydd ganddynt eu bod yn gwneud hynny, a gobeithiaf y byddant yn ystyried y cyfleoedd rydych chi newydd gyfeirio atynt.

Brian Gibbons: Weinidog, ddydd Iau diwethaf roedd yn bleser imi groesawu'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i Sandfields yn fy etholaeth, lle gwelsom enghreifftiau hollol wych—ni chredaf fod hynny'n ei gor-ddweud hi—o'r hyn y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud ar gyfer ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Clywsom gyfraniadau angerddol gan y rheini sydd wedi elwa o raglen Cymunedau yn Gyntaf. Felly, mae'n anhygoel gwrando ar yr hyn roedd gan Darren Millar i'w ddweud.

Hoffwn dynnu eich sylw hefyd at y ffaith bod Sefydliad Bevan, ar y cyd â Dr Hywel Francis AS, yn lansio taflen ynghylch adfywio'r cymoedd yn fy etholaeth i ddydd Gwener. Un ffaith a ddatgelwyd gan Sefydliad Bevan yn ei adroddiad oedd bod bwlch o 25 mlynedd—chwarter canrif—lle nad oedd dim yn digwydd mewn cymunedau fel dyffryn Afan uchaf. Dyna oedd y cyfnod y bu i'r blaid honno, a oedd mewn Llywodraeth, gau'r pyllau glo a lledaenu digalondid ac anobaith yn ein cymunedau. Nid ydym byth am ddychwelyd at y dyddiau hynny.

Carl Sargeant: Hoffwn hefyd longyfarch prosiect Cymunedau yn Gyntaf Sandfields. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud yn ein cymunedau sy'n angenrheidiol o ganlyniad i ddifa'r cymunedau hynny flynyddoedd lawer yn ôl o dan weinyddiaeth y Ceidwadwyr. Rwyf yn dal wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau ar ôl 2012, pe rhoddid y cyfle hwnnw imi. Mae'r Ceidwadwyr yn ei chael yn anodd iawn gwneud datganiad ynghylch a ydynt yn cefnogi Cymunedau yn Gyntaf ai peidio. Dyna'r cwestiwn allweddol. Rwyf fi yn ei gefnogi, ond gadewch inni ddisgwyl am ateb ganddynt hwy.

Communities First

7. William Graham: *Will the Minister make a statement on the Communities First*

Gyntaf yn Nwyrain De Cymru.
OAQ(3)1338(SJL)

Carl Sargeant: We remain committed to addressing the needs of deprived communities and Communities First continues to do this in South Wales East. Much good work is being undertaken and we are looking at a range of evidence in order to consider the future, post-March 2012.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. How is your Government engaging with community groups in South Wales East to ensure that projects to replace Communities First offer better value for money than their predecessors and engage with the UK Government's big society programme?

Carl Sargeant: As you will be aware, following my statement yesterday on 'Your Service, Your Say', I have met many groups across Wales, including Communities First groups, to discuss their vision for communities and for Wales as a whole. We are learning a lot from that process, and my review of Communities First is testing views from the UK and also from Ireland, where similar programmes are taking place. We are looking very closely at this, and we are addressing people who deliver and receive these services on the ground. It is very important that we listen to people who are delivering the services, because they know what is going on in their communities. I have an open door in terms of listening to them.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 8, OAQ(3)1329(SJL), yn ôl.

Rhwydwaith Swyddfa'r Post

9. Nick Ramsay: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â dyfodol rhwydwaith Swyddfa'r Post.* OAQ(3)1320(SJL)

Carl Sargeant: None. [Laughter.]

Nick Ramsay: Thank you for that helpful answer, Minister. Given that you have had no

initiatives in South Wales East.
OAQ(3)1338(SJL)

Carl Sargeant: Rydym yn dal yn ymrwymedig i fynd i'r afael ag anghenion cymunedau difreintiedig ac mae Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i wneud hyn yn Nwyrain De Cymru. Mae llawer o waith da yn cael ei wneud ac rydym yn edrych ar ystod o dystiolaeth er mwyn ystyried y dyfodol, ar ôl mis Mawrth 2012.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weinidog. Sut mae eich Llywodraeth yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol yn Nwyrain De Cymru er mwyn sicrhau bod prosiectau a fydd yn cymryd lle Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig gwell gwerth am arian na'u rhagflaenwyr, a'u bod yn ymgysylltu â rhaglen cymdeithas fawr Llywodraeth y DU?

Carl Sargeant: Fel y gwyddoch, ar ôl fy natganiad ddoe ar 'Eich Gwasanaethau, Eich Llais', rwyf wedi cwrdd â llawer o grwpiau ledled Cymru, gan gynnwys grwpiau Cymunedau yn Gyntaf, i drafod eu gweledigaeth ar gyfer cymunedau ac ar gyfer Cymru gyfan. Rydym yn dysgu llawer o'r broses honno, ac mae fy adolygiad o Cymunedau yn Gyntaf yn profi safbwyntiau o'r DU ac hefyd o Iwerddon, lle mae rhaglenni tebyg yn cael eu cynnal. Rydym yn edrych yn agos iawn ar hyn, ac yn rhoi sylw i bobl sy'n cyflwyno ac yn derbyn y gwasanaethau hyn ar lawr gwlad. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwrando ar bobl sy'n darparu'r gwasanaethau, gan eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd yn eu cymunedau. Mae gennyf ddrws agored o ran gwrando arnynt.

The Presiding Officer: Question 8, OAQ(3)1329(SJL), is withdrawn.

The Post Office Network

9. Nick Ramsay: *What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the future of the Post Office network.* OAQ(3)1320(SJL)

Carl Sargeant: Dim. [Chwerthin.]

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb defnyddiol hwnnw, Weinidog. Gan nad ydych wedi cael

discussions whatsoever regarding the future of the post office network, would you endeavour to have some discussions? I am sure that you will agree that the loss of post offices across Wales—over a third of them since 1999—has resulted in a major deterioration in the quality of life of many people in rural communities who used to access services at their post offices. Only recently, the National Farmers Union and the Farmers Union of Wales once again voiced concern over the impact of post office closures in my constituency, and there have been concerns about Post Office Ltd and the support that has been given to outreach services in those areas where there are no standard post office services. Minister, will you agree to hold some discussions at some point, in some form or other, with the UK Government, to see that these concerns are addressed?

Carl Sargeant: As you are aware, post office policy is not devolved, but I would be happy to have some discussions about this with the Westminster Government. As you are aware, we in Wales value our post offices. Only last week, I announced further funding for the post office diversification fund, which provides significant help for post offices across Wales to create a sustainable environment for our communities. These post offices are greatly valued, and so is the scheme.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, yn ystod eich trafodaethau â'r Gweinidog yn San Steffan, a wnewch chi bwysleisio'r ffaith bod swyddfeydd post, yn aml, yn ganolbwynt i fywyd cymunedau, ac yn eithriadol o bwysig? Yn ogystal â gwasanaethau traddodiadol, mae swyddfeydd post yn gallu cynnig gwasanaethau eraill i bobl yn y cymunedau hyn. Pe bai'r cymunedau yn colli'r gwasanaethau hynny, ni fyddai ganddynt unrhyw wasanaethau o gwbl. Hyderaf y byddwch yn cyfleu'r neges hon mewn modd grymus i'r Gweinidog, ac yn dadlau fod y mater hwn yn un eithriadol o bwysig, yn enwedig yng nghymunedau gwledig Cymru.

unrhyw drafodaethau o gwbl ynglŷn â dyfodol rhwydwaith Swyddfa'r Post, a fydddech cystal â cheisio cynnal rhywfaint o drafodaethau? Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod colli swyddfeydd post ledled Cymru—dros draean ohonynt er 1999—wedi arwain at ddirywiad sylweddol yn ansawdd bywyd llawer o bobl mewn cymunedau gwledig a arferai gael mynediad at wasanaethau yn eu swyddfeydd post. Yn ddiweddar, bu i Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru unwaith eto leisio pryder ynglŷn ag effaith cau swyddfeydd post yn fy etholaeth innau, a bu pryderon ynghylch Swyddfa'r Post Cyf a'r cymorth a roddir i wasanaethau allgymorth yn yr ardaloedd hynny lle nad yw gwasanaethau safonol swyddfa'r post yn bodoli. Weinidog, a wnewch chi gytuno i gynnal rhywfaint o drafodaethau ar ryw adeg, ar ryw ffurf neu'i gilydd, gyda Llywodraeth y DU, i sicrhau y rhoddir sylw i'r pryderon hyn?

Carl Sargeant: Fel y gwyddoch, nid yw polisi swyddfa'r post wedi'i ddatganoli, ond byddwn yn fodlon trafod rhywfaint ar hyn gyda Llywodraeth San Steffan. Fel y gwyddoch, mae ein swyddfeydd post yn bwysig iawn i ni yma yng Nghymru. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais gyllid pellach ar gyfer cronfa arallgyfeirio swyddfeydd post, sy'n rhoi cymorth sylweddol i swyddfeydd post ledled Cymru greu amgylchedd cynaliadwy ar gyfer ein cymunedau. Mae'r swyddfeydd post hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, yn yr un modd â'r cynllun.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, during your discussions with the Minister at Westminster, will you emphasize the fact that post offices are often a focal point for community life, and are extremely important? In addition to traditional services, post offices can offer other services to people in these communities. If communities were to lose those services, they would be left with no services at all. I trust that you will convey this message in a compelling manner to the Minister, and argue that this issue is exceptionally important, especially in the rural communities of Wales.

Carl Sargeant: I would be happy to have that discussion with the appropriate Minister in Westminster. As I mentioned earlier, we value our post offices; to that end, we invest in our post office diversification fund. There is also the rate relief scheme that the Welsh Assembly Government offers to post offices, which was introduced in April 2007. We have significantly reduced rates for some post offices in Wales, and offer 100 per cent relief to many. We are committed to that. Regarding post offices and the Royal Mail as a whole, I do not believe that a form of privatisation will create any more post offices or Royal Mail provision in Wales. This service is something that we should protect at all costs in Wales.

2.10 p.m.

Mick Bates: Minister, I am sure that Ed Davey will welcome your meeting to find out what excellent plans are available in Westminster for the expansion of post office services. Given that the last Labour Government closed so many, I am sure that you will also learn a lot from that discussion about opening post offices. One consequence of the last Labour Government's closure programme was that many mobile services were introduced, particularly in rural areas. In itself, that was acceptable, but recently one of my communities, Castell Caereinion, has forwarded a complaint about its service not being punctual. That is causing problems for young mothers and children, disabled people and elderly people. Will your Government undertake an evaluation of the mobile services to see if it is possible to make them more punctual so that they can serve the communities from which the post office, via Labour Government diktat, was withdrawn?

Carl Sargeant: I am surprised that you asked the question in that way. You tell me that Ed Davey will solve the problems relating to post offices in Wales and then you raise a problem with me. I am more than happy to

Carl Sargeant: Byddwn yn fodlon cael y drafodaeth honno gyda'r Gweinidog priodol yn San Steffan. Fel y soniais yn gynharach, mae ein swyddfeydd post yn bwysig iawn inni; i'r perwyl hwnnw, rydym yn buddsoddi yn ein cronfa arallgyfeirio swyddfeydd post. Ceir hefyd y cynllun rhyddhad ardrethi y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gynnig i swyddfeydd post, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2007. Rydym wedi gostwng ardrethi yn sylweddol ar gyfer rhai swyddfeydd post yng Nghymru, ac yn cynnig 100 y cant o ryddhad i lawer ohonynt. Rydym wedi ymrwmo i hynny. O ystyried swyddfeydd post a'r Post Brenhinol yn gyffredinol, nid wyf yn credu y bydd math o breifateiddio yn creu rhagor o swyddfeydd post nac yn cynyddu darpariaeth y Post Brenhinol yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhywbeth y dylem ei ddiogelu ar bob cyfrif yng Nghymru.

2.10 p.m.

Mick Bates: Weinidog, rwyf yn siŵr y bydd Ed Davey yn croesawu eich cyfarfod i gael gwybod pa gynlluniau ardderchog sydd ar gael yn San Steffan er mwyn ehangu gwasanaethau Swyddfa'r Post. O gofio bod y Llywodraeth Lafur ddiwethaf wedi cau cymaint ohonynt, rwyf yn siŵr y byddwch hefyd yn dysgu llawer yn sgîl y drafodaeth honno ynghylch agor swyddfeydd post. Un o ganlyniadau rhaglen gau'r Llywodraeth Lafur ddiwethaf oedd i lawer o wasanaethau symudol gael eu cyflwyno, yn benodol mewn ardaloedd gwledig. Yn ei hun, roedd hynny'n dderbyniol, ond yn ddiweddar mae un o fy nghymunedau, Castell Caereinion, wedi anfon cwyn nad yw'r gwasanaeth yn brydlon. Mae hynny'n peri problemau i famau ifanc a phlant, pobl anabl a phobl hŷn. A fydd eich Llywodraeth yn cynnal gwerthusiad o'r gwasanaethau symudol i weld a yw'n bosibl eu gwneud yn fwy prydlon er mwyn iddynt allu gwasanaethu'r cymunedau lle caewyd swyddfeydd post, trwy ddictad Llywodraeth Lafur?

Carl Sargeant: Rwyf yn synnu eich bod wedi gofyn y cwestiwn yn y ffordd honno. Rydych yn dweud wrthyf y bydd Ed Davey yn datrys y problemau sy'n ymwneud â swyddfeydd post yng Nghymru ac yna

raise these issues with Ed Davey to see if he can help to support your local post office service. Again, this is a non-devolved matter, but we invest heavily in the post office network in Wales and will continue to do so because we value it in Wales.

rydych yn codi problem gyda mi. Rwyf yn fwy na pharod i godi'r materion hyn gydag Ed Davey i weld a all helpu i gefnogi eich gwasanaeth Swyddfa'r Post lleol. Unwaith eto, mae hwn yn fater nad yw wedi ei ddatganoli, ond rydym yn buddsoddi'n helaeth yn rhwydwaith Swyddfa'r Post yng Nghymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny gan ei fod yn bwysig iawn i ni yng Nghymru.

Cymunedau yn Gyntaf

10. Brian Gibbons: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Cymunedau yn Gyntaf. OAQ(3)1327(SJL)*

Carl Sargeant: We are committed to continuing the Communities First programme to March 2012 in the most deprived areas of Wales. Officials are currently looking at a range of evidence, from the current programme and wider, in order to consider the future of Communities First post March 2012.

Brian Gibbons: Much of the literature on Communities First recounts an evaluation of the programme prior to the refocusing of the activities of Communities First and the outcome fund, and the streamlining that was introduced by your colleague, Leighton Andrews. In my constituency, I have seen the real benefits of that refocusing—it has led to tangible benefits being delivered for our most disadvantaged communities. Therefore, do you agree that it is important that the future of Communities First is evaluated—not on its historic record going back possibly a decade, but its current performance, which is improving week by week and month by month in my personal experience?

Carl Sargeant: There is a great deal of information to take on board around Communities First—both historic and current data. I am delighted that some of the projects that I have recently visited are showing community transformation; they are making a huge difference to the people whom they support. My review in terms of the future of Communities First is important. For example, should the scheme that we developed early

Communities First

10. Brian Gibbons: *Will the Minister make a statement on Communities First. OAQ(3)1327(SJL)*

Carl Sargeant: Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf tan fis Mawrth 2012 yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn edrych ar ystod o dystiolaeth, o'r rhaglen bresennol ac yn ehangach, er mwyn ystyried dyfodol Cymunedau yn Gyntaf ar ôl mis Mawrth 2012.

Brian Gibbons: Mae llawer o'r llenyddiaeth ar Cymunedau yn Gyntaf yn trafod gwerthusiad o'r rhaglen cyn i ffocws gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf a'r gronfa ganlyniadau gael ei newid, a chyn y symleiddio a gyflwynwyd gan eich cyd-Weinidog, Leighton Andrews. Yn fy etholaeth i, rwyf wedi gweld gwir fanteision y newid ffocws hwnnw—mae wedi arwain at fanteision pendant ar gyfer ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Felly, a ydych yn cytuno ei bod yn bwysig bod dyfodol Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei werthuso—nid yn ôl ei gofnod hanesyddol sy'n edrych ar ddeg mlynedd yn ôl, o bosibl, ond yn ôl ei berfformiad cyfredol, sy'n gwella o wythnos i wythnos ac o fis i fis yn fy mhrofiad personol innau?

Carl Sargeant: Mae llawer iawn o wybodaeth i'w hystyried ynghylch Cymunedau yn Gyntaf—data hanesyddol a chyfredol. Rwyf yn falch iawn bod rhai o'r prosiectau rwyf wedi ymweld â hwy yn ddiweddar yn dangos gweddnewid yn y gymuned; maent yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae fy adolygiad o ran dyfodol Cymunedau yn Gyntaf yn bwysig. Er enghraifft, a ddylai'r

on be transposed to 2012 and beyond? We need to look at that scheme closely and consider the needs of our communities now. That is something that my officials are looking at closely. As I said earlier, Brian, I have a commitment to our most deprived communities in Wales and that will continue beyond 2012; I must now consider the shape of the Communities First programme in the future and develop the right programme for the right time.

Mark Isherwood: As you know, Minister, Communities First was launched in 2001 as the Welsh Government's flagship programme for tackling deprivation. Like you, I have visited many successful and effective Communities First projects that are delivered by passionate and compassionate people and welcomed by the communities in which they live. However, as you know, over the years, a series of problems have been identified with the scheme, if not with many of the excellent projects. For example, concerns were raised with me about submissions made by my local authority. I asked the Wales Audit Office about this in the last Assembly and it concluded that there was a wider issue in terms of the potential impact of the errors identified that were not addressed at the time and are still not being addressed, and that the most appropriate organisation to address it was the Welsh Government.

In 2006, the interim evaluation into Communities First found little evidence of rigorous monitoring and evaluation and that it was still a long way from producing the regeneration outcomes that were its main aims. We know that, last July, the Wales Audit Office's report identified serious weaknesses in financial planning, an absence of basic human resource, weak monitoring, and no evidence that anything was done with the feedback. Why did it take the subsequent report on a Communities First partnership, against which serious allegations were upheld, for the Welsh Government to finally act on concerns that, to my certain personal knowledge, had been raised at least six years previously?

cynllun a ddatblygwyd gennym ar y dechrau gael ei fabwysiadu yn 2012 a thu hwnt? Mae angen inni edrych yn agos ar y cynllun hwnnw ac ystyried anghenion ein cymunedau nawr. Mae hynny'n rhywbeth y mae fy swyddogion yn edrych yn agos arno. Fel y dywedais yn gynharach, Brian, rwyf wedi ymrwymo i'n cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a bydd hynny'n parhau y tu hwnt i 2012; rhaid imi nawr ystyried siâp rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol a datblygu'r rhaglen briodol ar gyfer yr adeg briodol.

Mark Isherwood: Fel y gwyddoch, Weinidog, lansiodd Cymunedau yn Gyntaf yn 2001 fel rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd. Fel chi, rwyf wedi ymweld â llawer o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf llwyddiannus ac effeithiol sy'n cael eu cyflawni gan bobl angerddol a thosturiol ac yn cael eu croesawu gan y cymunedau lle maent yn byw. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, dros y blynyddoedd, canfuwyd cyfres o broblemau gyda'r cynllun, os nad gyda llawer o'r prosiectau ardderchog. Er enghraifft, codwyd pryderon gyda mi ynglŷn â chyflwyniadau a wnaed gan fy awdurdod lleol. Holais Swyddfa Archwilio Cymru am hyn yn y Cynulliad diwethaf a daeth i'r casgliad bod mater ehangach yn bodoli o ran effaith bosibl y gwallau a ganfuwyd na roddwyd sylw iddynt ar y pryd ac sy'n dal heb gael sylw, ac mai'r sefydliad mwyaf priodol i roi sylw i hyn oedd Llywodraeth Cymru.

Yn 2006, ni chanfu'r gwerthusiad interim i Cymunedau yn Gyntaf fawr ddim tystiolaeth o fonitro a gwerthuso trylwyr, a chanfuwyd bod y ffordd yn bell o hyd cyn gallu cyflawni'r canlyniadau adfywio, sef prif amcanion Cymunedau yn Gyntaf. Rydym yn gwybod bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fis Gorffennaf y flwyddyn diwethaf wedi canfod gwendidau difrifol o ran cynllunio ariannol, diffyg adnoddau dynol sylfaenol, monitro gwan, a dim tystiolaeth bod unrhyw beth wedi cael ei wneud gyda'r adborth. Pam y bu'n rhaid cael yr adroddiad dilynol ar bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, y cadarnhawyd honiadau difrifol yn ei erbyn, er mwyn i Lywodraeth Cymru, o'r diwedd, weithredu ynghylch pryderon rwyf

yn gwybod iddynt gael eu codi o leiaf chwe blynedd yn ôl?

Carl Sargeant: I acted swiftly on the initial trigger of Plas Madoc. I have changed the system based on the recommendations of the then Audit Committee's report. I believe that I have acted appropriately with regard to the committee's report by putting in processes that support and strengthen governance procedures across partnerships. I do not believe that I am taking my eye off the ball. For the future, we need to look at how we develop strong community partnerships for our most deprived communities.

Carl Sargeant: Bu imi weithredu'n gyflym ar sbardun cychwynnol Plas Madoc. Rwyf wedi newid y system ar sail argymhellion adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar y pryd. Rwyf yn credu fy mod wedi ymddwyn yn briodol mewn perthynas ag adroddiad y pwyllgor drwy roi prosesau ar waith sy'n cefnogi ac yn cryfhau gweithdrefnau llywodraethu ar draws partneriaethau. Nid wyf yn credu fy mod wedi colli golwg ar y nod. Yn y dyfodol, mae angen inni edrych ar sut rydym yn datblygu partneriaethau cymunedol cryf ar gyfer ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mark Isherwood: I agree that the challenge now is to look to the future. The Wales Council for Voluntary Action has said that, at its inception, the programme lacked clear, measurable outcomes, and that it seemed dominated by the methodology. It added that, in creating an expectation that it would dramatically alter the relative deprivation of areas, it was likely to fail, although there have been beneficial changes in many areas and a greater perception of wellbeing. It also said that existing research has tended to focus on process rather than impact. How do you respond to the WCVA's proposals to move Communities First beyond a Government programme and away from Government dependency towards the creation of strong, independent community organisations in each area, which would provide the community-owned dimension that is often sought, but seldom achieved, in creating a better Wales?

Mark Isherwood: Rwyf yn cytuno mai'r her yn awr yw edrych i'r dyfodol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi dweud nad oedd gan y rhaglen ganlyniadau clir a mesuradwy o'r dechrau, a'i bod yn ymddangos bod y fethodoleg yn ei dominyddu. Ychwanegodd bod y rhaglen, wrth greu disgwyliad y byddai'n newid amddifadedd cymharol ardaloedd yn ddramatig, yn debygol o fethu, er bod newidiadau buddiol wedi bod mewn sawl ardal a gwell canfyddiad o les. Dywedodd hefyd bod ymchwil sydd eisoes yn bodoli wedi tueddu i ganolbwyntio ar broses yn hytrach nag effaith. Sut rydych yn ymateb i gynigion WCVA i symud Cymunedau yn Gyntaf y tu hwnt i raglen y Llywodraeth ac oddi wrth bod yn ddibynnol ar y Llywodraeth, tuag at greu sefydliadau cymunedol cryf ac annibynnol ym mhob ardal, a fyddai'n darparu'r dimensiwn eiddo-i'r-gymuned sy'n cael ei geisio yn aml, ond nad yw bron byth yn cael ei gyflawni, wrth greu Cymru well?

Carl Sargeant: Measuring success in Communities First and other support programmes is difficult. To put a cash measure on an outcome is challenging for us as a Government, and I do not believe that we are unique in that. I think that you will agree with me that it is evident when you visit successful partnerships that are making real and significant changes in their communities. The First Minister was in Caia Park in Wrexham, as I was, just before Christmas, and heard the evidence of people

Carl Sargeant: Mae mesur llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni cymorth eraill yn anodd. Mae rhoi mesur arian parod ar ganlyniad yn heriol i ni fel Llywodraeth, ac nid wyf yn credu ein bod yn unigryw yn hynny o beth. Rwyf yn credu y byddwch yn cytuno â mi ei bod yn amlwg pan fyddwch yn ymweld â phartneriaethau llwyddiannus sy'n gwneud newidiadau gwirioneddol a sylweddol yn eu cymunedau. Roedd y Prif Weinidog ym Mharc Caia yn Wrecsam, fel yr oeddwn innau, ychydig cyn y Nadolig, a

in the community—not those in the partnership or on the board—that Communities First has changed their community. That is tangible evidence of how communities can be changed, transformed and turned around, but in monetary terms, it is difficult to measure.

For the future, my vision is to embed in communities that growth from within. I am really keen on social enterprise and other mechanisms that give communities ownership of promotion of growth from within. That is part of the review that I am currently looking at, with regard to what will come next after 2012. I will not turn my back on deprived communities, and I hope that neither will you.

chlywodd dystiolaeth gan bobl yn y gymuned—nid y rhai yn y bartneriaeth nac ar y bwrdd—bod Cymunedau yn Gyntaf wedi newid eu cymuned. Mae hynny'n dystiolaeth bendant o sut y gall cymunedau gael eu newid, eu trawsnewid a'u gwyrddroi, ond mae'n anodd ei fesur mewn termau ariannol.

Fy ngweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw plannu'r twf hwnnw sy'n egino o'r cymunedau eu hunain. Rwyf yn frwd o blaid mentrau cymdeithasol a mecanweithiau eraill sy'n rhoi i gymunedau berchnogaeth o'r gwaith o hyrwyddo'r twf hwnnw. Mae hynny'n rhan o'r adolygiad rwyf yn edrych arno ar hyn o bryd, yng nghyswllt beth fydd yn dod nesaf ar ôl 2012. Ni fyddaf yn troi fy nghefn ar gymunedau difreintiedig, a gobeithio na fyddwch chithau'n gwneud ychwaith.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiynau 1, OAQ(3)1469(CEL), a 2, OAQ(3)1501(CEL), yn ôl.

The Presiding Officer: Questions 1, OAQ(3)1469(CEL), and 2, OAQ(3)1501(CEL), have been withdrawn.

Blaenoriaethau Portffolio

3. Mohammad Asghar: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau portffolio ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1473(CEL)*

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): My priorities remain as stated in 'One Wales', with additional measures in response to the economic downturn. I also hope to achieve a shift from support costs to the front line through our front-line resources review, so that the percentage of funds delivered directly to the learner is increased.

Mohammad Asghar: Minister, can you provide an update on your plans to ensure that the educational attainment gap is closed between children and young people who are deaf and those who are not? As you know, statistics from recent years suggest a significant attainment gap at every key stage, suggesting that action is required at all levels.

Portfolio Priorities

3. Mohammad Asghar: *Will the Minister make a statement on his portfolio priorities for the remainder of the Third Assembly. OAQ(3)1473(CEL)*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Mae fy mlaenoriaethau yn dal i fod fel y'u nodwyd yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol mewn ymateb i'r dirywiad economaidd. Rwyf hefyd yn gobeithio llwyddo i symud costau cefnogi i'r rheng flaen drwy ein hadolygiad o adnoddau rheng flaen, fel bod y ganran o arian a gaiff y dysgwr yn uniongyrchol yn cynyddu.

Mohammad Asghar: Weinidog, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eich cynlluniau i sicrhau bod y bwch cyrhaeddiad addysgol rhwng plant a phobl ifanc sy'n fyddar a'r rhai nad ydynt yn fyddar yn cau? Fel y gwyddoch, mae ystadegau o'r blynyddoedd diweddar yn awgrymu bod bwch cyrhaeddiad arwyddocaol ym mhob

While I welcome recent Welsh Assembly Government support for events that raise awareness, it is clear that significant work remains to be done. What priority, Minister, will you be giving this issue for the remainder of this Assembly?

Leighton Andrews: Through all our work on the school effectiveness framework and our various policies to support pupils who have additional learning needs, we seek to challenge the inequalities that exist in the education system at present. We have given support through our programmes overall, and we expect local authorities to do so as well. If you have any specific examples of problems or deficiencies that you want to draw to my attention, I would be pleased to hear from you on those.

2.20 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, un o'r materion yr ydych chi'n gorfod eu hwynebu ar hyn o bryd—a bydd rhaid i Weinidogion addysg wynebu hyn yn y dyfodol—yw'r broses anodd iawn, sy'n gallu bod yn brofiad emosiynol i gymunedau, o orfod cau ysgolion nad ydynt bellach yn hyfyw o ran niferoedd ac nad ydynt yn gallu darparu'r cwricwlwm cenedlaethol. A ydych yn credu ei bod yn hollbwysig yn y sefyllfaoedd hynny fod awdurdodau lleol yn cynnal ymgynghoriad ac yn rhoi cyfle i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol honno fynegi barn a deall y broses honno? Yr wyf yn deall, Weinidog, eich bod wedi cael problem mewn perthynas ag un ysgol yn fy etholaeth i, Ysgol Capel Iwan. Mae'n gydnabyddedig bellach mai'r broblem oedd nad oedd yr awdurdod addysg wedi dechrau'r broses yn ddigon cynnar, ac yr wyf yn falch eich bod wedi gwneud hynny'n glir iddo ac i bawb arall, ac eich bod yn delio â hynny. A ydych yn cytuno bod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ymgymryd â phroses ymgynghorol mewn modd priodol, ac na ddylai pobl deimlo bod y penderfyniad wedi'i wneud cyn i'r broses ymgynghori ddechrau?

Leighton Andrews: As you know, in June, I announced plans to address the issue of

cyfnod allweddol, sy'n awgrymu bod angen gweithredu ar bob lefel. Er fy mod yn croesawu cefnogaeth ddiweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer digwyddiadau sy'n codi ymwybyddiaeth, mae'n amlwg bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd. Pa flaenoriaeth, Weinidog, a fyddwch yn ei roi i'r mater hwn am weddill y Cynulliad hwn?

Leighton Andrews: Drwy ein holl waith ar y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a'n polisïau amrywiol i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, rydym yn ceisio herio'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn y system addysg ar hyn o bryd. Rydym wedi darparu cefnogaeth drwy ein rhaglenni yn gyffredinol, ac rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud hynny hefyd. Os oes gennych unrhyw enghreifftiau penodol o broblemau neu ddiffygion rydych am dynnu fy sylw atynt, byddwn yn falch o glywed gennych am y rheini.

2.20 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, one of the issues that you currently have to face—and future Ministers for education will also have to face this—is the very difficult process, which can be an emotional experience for communities, of having to close schools that are no longer viable given their falling rolls and that cannot deliver the national curriculum. Do you believe that it is vital in those situations that local authorities consult fully and give everyone involved with a school the opportunity to express their opinions and understand the process? Minister, I understand that you have had a problem with a school in my constituency, Ysgol Capel Iwan. It is now acknowledged that the problem was that the education authority had not started the process early enough, and I am pleased that you have made that clear to it and to everyone else, and that you are dealing with that. Do you agree that local authorities have a responsibility to undertake a consultation process in an appropriate manner, and that people should not feel as though the decision was made before the consultation process was begun?

Leighton Andrews: Fel y gwyddoch, ym mis Mehefin, bu imi gyhoeddi cynlluniau i fynd

school reorganisation and we are currently consulting on some of the regulations. We will also require a proposed Measure to implement some of the other changes that we want to bring forward. However, none of our actions obviate the need for local authorities to consult properly with local communities on the plans that they have for future school reorganisation. You highlighted the example of Ysgol Capel Iwan in your constituency. That situation was one where the local authority had failed to start the consultation process, even though it knew at the beginning of this year that the school was down to about a dozen pupils. As I have been quoted widely as saying during August, the situation was completely 'bonkers'.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, will you outline your approach to special educational needs? Over the last 20 years, there has been an increase in the severity and complexity of the needs of children attending special schools the length and breadth of Wales, which can put pressure on existing institutions. Do you agree that it would not be appropriate for councils to deal with pressures around capacity or funding by forcing parents to choose integrated mainstream education for their children, and that parents who have children with special educational needs should have a choice between integrated mainstream or specialist school provision, so that they can choose the best approach, depending on the needs of the individual child?

Leighton Andrews: It is important that the appropriate provision is available, whether locally or out of county, or in some cases out of country. I established a task and finish group to look at the issue of special educational needs, because not only have pupil numbers more or less doubled over the last four or five years, but so has the cost. It is clear to us that some local authorities are more efficient in the way that they are delivering locally for special educational needs than others. The task and finish group is due to report to me shortly, and when it has done so, I will bring the conclusions to the attention of the Assembly.

i'r afael ag ad-drefnu ysgolion ac rydym wrthi'n ymgynghori ar rai o'r rheoliadau ar hyn o bryd. Bydd hefyd arnom angen Mesur arfaethedig i weithredu rhai o'r newidiadau eraill rydym yn awyddus i'w cyflwyno. Fodd bynnag, nid yw dim a wnawn yn osgoi'r angen i awdurdodau lleol ymgynghori'n briodol â chymunedau lleol ar y cynlluniau sydd ganddynt ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol. Rydych chi wedi tynnu sylw at enghraifft Ysgol Capel Iwan yn eich etholaeth chi. Roedd y sefyllfa honno yn un lle nad oedd yr awdurdod lleol wedi dechrau'r broses ymgynghori, er ei fod yn gwybod ddechrau'r flwyddyn hon bod nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng i oddeutu dwsin. Fel rwyf wedi cael fy nyfynnu'n eang yn ei ddweud yn ystod mis Awst, roedd y sefyllfa'n hollol 'wallgof'.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, a wnewch chi amlinellu eich agwedd at anghenion addysgol arbennig? Dros yr 20 mlynedd diwethaf, bu cynnydd yn nifrifoldeb a chymhlethdod anghenion plant sy'n mynychu ysgolion arbennig ar hyd a lled Cymru, a all roi pwysau ar sefydliadau sydd eisoes yn bodoli. A ydych yn cytuno na fyddai'n briodol i gynghorau ymdrin â phwysau o ran gallu nac arian drwy orfodi rhieni i ddewis addysg prif ffrwd integredig ar gyfer eu plant, ac y dylai rhieni sydd â phlant ag anghenion addysgol arbennig gael dewis rhwng darpariaeth prif ffrwd integredig neu ysgol arbennig, fel y gallant ddewis y dull gorau, yn dibynnu ar anghenion y plentyn unigol?

Leighton Andrews: Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth briodol ar gael, boed yn lleol neu y tu allan i'r sir, neu mewn rhai achosion y tu allan i'r wlad. Bu imi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar anghenion addysgol arbennig, gan fod y gost wedi dyblu, mwy neu lai, dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf, yn ogystal â nifer y disgyblion. Mae'n amlwg i ni bod rhai awdurdodau lleol yn fwy effeithlon nag eraill yn y ffordd y maent yn darparu'n lleol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn adrodd yn ôl i mi cyn bo hir, a phan fydd wedi gwneud hynny, byddaf yn rhoi'r casgliadau gerbron y

Cynulliad.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1502(CEL), yn ôl.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)1502(CEL), was withdrawn.

Masnacheiddio Ymchwil

5. Alun Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fasnacheiddio ymchwil mewn Addysg Uwch yng Nghymru. OAQ(3)1491(CEL)*

Leighton Andrews: Transforming ideas into new products and business ventures is a critical aspect of economic renewal. The measures that we have announced in 'Economic Renewal: a new direction' and the 'For Our Future' strategy for higher education will help us build a more knowledge-intensive economy where research and innovation can flourish.

Alun Davies: Thank you for that response, Minister. I was impressed, just before the summer recess, to see the announcement on the high-performance computing network that is being established in Wales, which appears to be a collaboration between you, the department responsible for economic development and the universities in Wales, supported by European funding, to provide Wales with a computing network that is without comparison in any other region of Europe.

Minister, this appears to me to be exactly the way that the Welsh Assembly Government should be investing in an entirely new infrastructure in Wales, one which will sustain economic development, drive innovation, and enable Wales to compete at the very highest levels of economic activity. Minister, can you assure me and other Members that this is exactly the sort of initiative that you and the department responsible for economic development will be prioritising, as we seek to invest in Wales's future?

Leighton Andrews: It is an important initiative. We have obviously invested in it and there has also been investment from other sources, including some of the institutions. In terms of commercialising

Leighton Andrews: If you want greater clarity, let me repeat what I said to Nick Ramsay, which was not what you said. I said that I had no plans to abolish local education authorities. That is not the same as the way that you recycled it. I hope that that is fairly clear.

I believe that local authorities should collaborate more together. I want to see them delivering more to the front line. I believe that we can get benefits from local authorities collaborating together. I note with interest that, when Estyn produced its annual report this year, it said that four of the seven local authorities that it surveyed had significant shortcomings in their strategic management of education. As I look back through previous Estyn reports, I notice that similar comments have been made in the past.

Paul Davies: Could I therefore clarify, Minister, whether it is your intention to create regional education authorities in the future?

Leighton Andrews: I am going to look at the structure of delivery for education in Wales and I will have more to say on that in due course.

ond rwyf hefyd am fod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ei wneud â'r cyfalaf a ddyrennir iddi.

Paul Davies: Mae'n amlwg o'ch sylwadau bod sicrhau adnoddau ar gyfer y rheng flaen yn flaenoriaeth ichi dros y misoedd nesaf, ac rwyf yn gwerthfawrogi eich bod yn annog darparwyr i weithio'n agosach gyda'i gilydd i symud arian addysgol i'r rheng flaen. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae angen gwell eglurhad gennych chi a chan Lywodraeth Cynulliad Cymru. O'ch ateb i Nick Ramsay yn gynharach, mae'n amlwg na fyddwch yn creu awdurdodau addysg rhanbarthol yn y dyfodol. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno bod rhai awdurdodau lleol yn dod yn fwy effeithlon, ac felly, mae arbedion yn cael eu gwneud hyd yn oed heb weithio ar sail ranbarthol?

Leighton Andrews: Os oes arnoch eisiau gwell eglurhad, gadewch imi ailadrodd yr hyn a ddywedais wrth Nick Ramsay, nad yw yr un fath â'r hyn rydych chi wedi'i ddweud. Dywedais nad oedd gennyf unrhyw gynlluniau i ddiddymu awdurdodau addysg lleol. Nid yw hynny'r un fath â'r ffordd y gwnaethoch ei ailgylchu. Gobeithiaf fod hynny'n weddol glir.

Credaf y dylai awdurdodau lleol gydweithio rhagor â'i gilydd. Rwyf am eu gweld yn darparu rhagor ar gyfer y rheng flaen. Credaf y gallwn elwa o weld awdurdodau lleol yn cydweithio â'i gilydd. Pan y lluniodd Estyn ei adroddiad blynyddol eleni, nodaf â diddordeb ei fod yn dweud bod gan bedwar awdurdod lleol o'r saith a gafodd eu harolygu ddiffygion sylweddol yn y modd y maent yn rheoli addysg yn strategol. Wrth imi edrych yn ôl drwy adroddiadau blaenorol Estyn, rwyf yn sylwi bod sylwadau tebyg wedi cael eu gwneud yn y gorffennol.

Paul Davies: A gaf fi felly fod yn sicr, Weinidog, eich bod yn bwriadu creu awdurdodau addysg rhanbarthol yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Rwyf yn mynd i edrych ar y strwythur darparu ar gyfer addysg yng Nghymru a bydd gennyf ragor i'w ddweud am hyn maes o law.

Mick Bates: Those were interesting replies, Minister. I would like to examine what flexibility you have in your budget to encourage collaboration between schools. As you may know, there is an innovative project in my constituency between three high schools—Llanfair Caereinion, Llanfyllin and Welshpool—that has been labelled Tair Ysgol, where they have added value to post-16 learning by collaborating, using, at present, their own resources. That has delivered over 30 courses, in particular in the Welsh medium. In your budget, do you have some flexibility to assist schools, particularly in a rural setting, to collaborate on maintaining post-16 education?

Mick Bates: Roedd y rheini'n ymatebion diddorol, Weinidog. Hoffwn ystyried pa hyblygrwydd sydd gennych yn eich cyllideb i annog cydweithio rhwng ysgolion. Efallai eich bod yn gwybod y ceir prosiect arloesol yn fy etholaeth i rhwng tair ysgol uwchradd—Llanfair Caereinion, Llanfyllin a'r Trallwng—o'r enw Tair Ysgol, lle maent wedi ychwanegu gwerth at ddysgu ôl-16 drwy gydweithio, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, hyd yma. Mae hynny wedi darparu dros 30 o gyrsiau, yn benodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn eich cyllideb, a oes gennych ryw faint o hyblygrwydd i gynorthwyo ysgolion, yn arbennig mewn lleoliad gwledig, i gydweithio i gynnal addysg ôl-16?

Leighton Andrews: We have been providing money through the 14-19 budgets for some time to local authorities to enable collaboration between schools to deliver the 14-19 agenda, so there is nothing new in what you are suggesting. However, this should be seen as transitional money to enable schools and FE colleges to deliver the changes of the 14-19 agenda and the Learning and Skills (Wales) Measure 2009, and we would expect that, when the transitions have been passed through, and people have learned how to collaborate, this would become mainstream to their activities.

Leighton Andrews: Rydym wedi bod yn darparu arian i awdurdodau lleol drwy'r cyllidebau 14-19 am beth amser, er mwyn galluogi cydweithio rhwng ysgolion i ddarparu'r agenda 14-19. Felly, nid oes unrhyw beth newydd yn yr hyn rydych yn ei awgrymu. Fodd bynnag, dylai hyn gael ei ystyried yn arian trawsnewid i alluogi ysgolion a cholegau AB i gyflawni newidiadau'r agenda 14-19 a Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, a phan fydd y trawsnewid wedi digwydd a phobl wedi dysgu sut i gydweithio, byddem yn disgwyl i hyn fod yn brif ffrwd yn eu gweithgareddau.

The Presiding Officer: I think that that is it now, Minister, unless you have any further curtain-raisers.

Y Llywydd: Rwyf yn credu ein bod wedi cyrraedd y pen yn awr, Weinidog, oni bai fod gennych chi ryw beth i'w godi.

Leighton Andrews: I was enjoying myself.

Leighton Andrews: Roeddwn yn mwynhau fy hun.

The Presiding Officer: That is always a danger for a Minister.

Y Llywydd: Mae hynny bob amser yn berygl i Weinidog.

Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Wahaniaethu yn erbyn Pobl sy'n Byw gydag HIV gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Darparwyr Gofal Iechyd
The Equality of Opportunity Committee's report on Discrimination against People Living with HIV by Healthcare Professionals and Providers

Cynnig NDM4540 Ann Jones

Motion NDM4540 Ann Jones

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar ei Ymchwiliad i Wahaniaethu yn erbyn

Notes the report of the Equality of Opportunity Committee on its Inquiry into

Pobl sy'n Byw â HIV gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a Darparwyr Gofal Iechyd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2010.

Ann Jones: I move the motion.

I thank Bethan Jenkins, a former member of the committee, and AIDS Trust Cymru, which raised this important issue with us initially. AIDS Trust Cymru's research raised concerns about discrimination experienced by people living with HIV, and the committee felt that we should undertake to explore the extent of such instances in Wales.

We undertook a public consultation and heard evidence from a wide range of bodies, including HIV charities, professional medical associations, HIV specialists, local health boards and the Minister for Health and Social Services. The report makes a series of recommendations that we feel would help to improve the situation for people living with HIV. I thank the Minister for her response to the report, and am delighted that she was able to accept the majority of our recommendations.

The Disability Discrimination Act was amended in 2005 to ensure that people living with HIV are afforded the same rights as every other person. It is, therefore, illegal to discriminate against someone on the basis of their HIV status. We heard that the situation has improved since 2005. We feel that it is vital that people with HIV are aware of their rights and that HIV charities are well positioned to help them to understand them. We have therefore recommended that the Equality and Human Rights Commission should use its powers and expertise to support the charities in this field.

The committee noted that the lack of formal evidence was a barrier to understanding the true extent of discrimination against people living with HIV. Welsh NHS representatives told us that there were few complaints of this nature, but the committee realises that the lack of formal statistics is probably due to patients' reluctance to make a complaint for fear of compromising their future care. We

Discrimination against People Living with HIV by Healthcare Professionals and Providers which was laid in the Table Office on 14 May 2010.

Ann Jones: Cynigiau y cynnig.

Diolch i Bethan Jenkins, cyn-aelod o'r pwyllgor, ac AIDS Trust Cymru, a gododd y mater pwysig hwn gyda ni i ddechrau. Bu i waith ymchwil AIDS Trust Cymru godi pryderon ynglŷn â gwahaniaethu y mae pobl sy'n byw â HIV yn ei brofi, ac roedd y pwyllgor yn teimlo y dylem ymchwilio i ba raddau y mae achosion o'r fath yn digwydd yng Nghymru.

Gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a chlywsom dystiolaeth gan ystod eang o gyrff, gan gynnwys elusennau HIV, cymdeithasau meddygol proffesiynol, arbenigwyr HIV, byrddau iechyd lleol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o argymhellion rydym yn teimlo y byddant yn helpu i wella'r sefyllfa ar gyfer pobl sy'n byw â HIV. Diolch i'r Gweinidog am ei hymateb i'r adroddiad, ac rwyf yn falch iawn ei bod wedi gallu derbyn y rhan fwyaf o'n hargymhellion.

Diwygiwyd y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn 2005 i sicrhau bod pobl sy'n byw â HIV yn cael yr un hawliau â phawb arall. Felly, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail eu statws HIV. Clywsom fod y sefyllfa wedi gwella er 2005. Rydym yn teimlo ei bod yn hanfodol bod pobl â HIV yn ymwybodol o'u hawliau, a bod elusennau HIV mewn sefyllfa dda i'w helpu i'w deall. Rydym felly wedi argymhell y dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddefnyddio ei bwerau a'i arbenigedd i gefnogi'r elusennau yn y maes hwn.

Nododd y pwyllgor bod y diffyg tystiolaeth ffurfiol yn rhwystr rhag deall yn union i ba raddau y gwahaniaethir yn erbyn pobl sy'n byw â HIV. Dywedodd cynrychiolwyr y GIG o Gymru wrthym na cheir llawer o gwynion o'r fath, ond mae'r pwyllgor yn sylweddoli bod y diffyg ystadegau ffurfiol yn deillio, yn ôl pob tebyg, o ganlyniad i amharodrwydd cleifion i wneud cwyn rhag ofn iddynt roi eu

have recommended that local health boards should work through patient and public involvement groups to ensure that any issues such as these are recorded and rectified. I am pleased that the Minister has undertaken to write to local health boards to ask them to consider their arrangements and how they could work with HIV-positive people to improve their services

Nobody should feel that they are being discriminated against, even if it is unintentional. People with HIV are living everyday lives and will often visit a doctor with a common ailment, but we heard that they are sometimes referred to a HIV specialist for treatment. The committee recognises that there are issues here. While people do not want to feel singled out or that they are being fobbed off by their GP, representatives of both the medical and dental professions told us that non-specialist practitioners will often err on the side of caution, even in treating minor illnesses, to ensure that symptoms are not the result of a more serious condition. It is, therefore, vital that patients receive the most appropriate treatment. GPs could be seen as remiss in not referring patients to a specialist, but communication is key. When referring a patient on, the GP should ensure that the person is made fully aware of the reasons for their referral, so that they do not feel that they are being treated differently. The committee does, however, realise that referrals can be time-consuming for the patient, and may not be necessary in every case.

We have recommended that local health boards put arrangements in place to enable GPs to receive timely advice from specialists by phone or e-mail so that they can prescribe appropriate treatment themselves. I am pleased that the Minister has accepted this recommendation, and I welcome her commitment to asking local health boards to consider how they could implement arrangements to support GPs in providing care for people living with HIV.

We may all be aware that medical

gofal yn y dyfodol yn y fantol. Rydym wedi argymhell y dylai byrddau iechyd lleol weithio drwy grwpiau cynnwys cleifion a'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion fel y rhain yn cael eu cofnodi a'u datrys. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi ymrwymo i ysgrifennu at fyrddau iechyd lleol i ofyn iddynt ystyried eu trefniadau a sut y gallent weithio gyda phobl HIV-positif i wella eu gwasanaethau.

Ni ddylai unrhyw un deimlo bod rhywrai'n gwahaniaethu yn ei erbyn, hyd yn oed os yw'n anfwriadol. Mae pobl sydd â HIV yn byw bywydau cyffredin a byddant yn aml yn ymweld â meddyg oherwydd afiechyd cyffredin, ond clywsom eu bod weithiau'n cael eu cyfeirio at arbenigwr HIV er mwyn cael triniaeth. Mae'r pwyllgor yn cydnabod bod problemau yma. Er nad yw pobl am deimlo eu bod yn cael eu neilltuo neu nad yw eu meddyg teulu yn rhoi digon o sylw iddynt, mae cynrychiolwyr o'r proffesiynau meddygol a deintyddol wedi dweud wrthym y bydd ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwr yn aml yn orofalus, hyd yn oed wrth drin afiechydon mân, er mwyn sicrhau nad yw'r symptomau'n deillio o gyflwr mwy difrifol. Mae'n hanfodol bwysig, felly, bod cleifion yn cael y driniaeth fwyaf priodol. Gellir ystyried meddygon teulu yn esgeulus wrth beidio â chyfeirio cleifion at arbenigwr, ond mae cyfathrebu yn allweddol. Wrth gyfeirio claf ymlaen, dylai'r meddyg teulu sicrhau bod yr unigolyn yn gwbl ymwybodol o'r rhesymau dros ei gyfeirio, fel nad yw'n teimlo ei fod yn cael ei drin yn wahanol. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn sylweddoli y gall atgyfeiriadau fynd â llawer o amser y claf, ac efallai nad ydynt yn angenrheidiol ym mhob achos.

Rydym wedi argymhell bod byrddau iechyd lleol yn rhoi trefniadau ar waith i alluogi meddygon teulu i gael cyngor amserol gan arbenigwyr ar y ffôn neu dros e-bost fel y gallant ragnodi triniaeth briodol eu hunain. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn, a chroesawaf ei hymrwymiad i ofyn i fyrddau iechyd lleol ystyried sut y gallent roi trefniadau ar waith i gefnogi meddygon teulu wrth iddynt ddarparu gofal i bobl sy'n byw â HIV.

Efallai fod pob un ohonom yn ymwybodol

professionals use universal cross-contamination procedures, including wearing protective gloves as standard. However, members of the public may not realise that that is the case. People with HIV may see many practitioners putting on gloves before treating them and feel that it is due to their HIV status. Again, a simple explanation of procedures could overcome that. That is why we have recommended that posters explaining procedures could be displayed in waiting areas and consulting rooms to raise awareness. The Minister has agreed to this recommendation in principle and will consider adapting the range of existing materials. I hope that she will do this as a quick yet effective solution to this issue, as it could be of benefit to all patients, not just those living with HIV.

Awareness of HIV is still a major issue today. We heard that there is a general lack of understanding among the people of how HIV can be contracted and how it is treated, and that people can continue with their everyday lives. The public perception of HIV is often outdated and based on awareness campaigns dating back to the 1980s and early 1990s. This can often lead to misconceptions and can result in reactionary behaviour.

3.00 p.m.

We have recommended that the Welsh Government work with the Department for Health to run a nationwide campaign to educate all sectors of society on the facts of HIV to erase the memories of outdated campaigns. We are slightly disappointed that the Minister could not accept this recommendation. We welcome the work that the Minister has referred to in updating sexual health guidance for schools. However, witnesses told us that a campaign was needed to make people aware of the advancements made in HIV treatment. The work being done in schools is valuable, but awareness needs to be raised across the board. After all, it is the older generations who can still remember previous campaigns and their negative impacts. We still believe that a national

bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn defnyddio gweithdrefnau traws-heintio cyffredinol, gan gynnwys gwisgo menig amddiffynnol bob amser. Fodd bynnag, efallai na fydd aelodau o'r cyhoedd yn sylweddoli mai dyna'r achos. Efallai y bydd pobl sydd â HIV yn gweld llawer o ymarferwyr yn gwisgo menig cyn eu trin, a themlo bod hyn oherwydd eu statws HIV. Unwaith eto, gallai eglurhad syml o weithdrefnau oresgyn hynny. Dyna pam rydym wedi argymhell y gellid arddangos posteri yn esbonio gweithdrefnau mewn mannau aros ac ystafelloedd ymgynghori er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae'r Gweinidog, mewn egwyddor, wedi cytuno i'r argymhelliad hwn, a bydd yn ystyried addasu'r ystod o ddeunyddiau sydd eisoes yn bodoli. Rwyf yn gobeithio y bydd yn gwneud hyn fel ateb cyflym, ond effeithiol, i'r mater hwn, oherwydd gallai pob claf elwa o hyn, nid dim ond y rheini sy'n byw â HIV.

Mae ymwybyddiaeth o HIV yn dal i fod yn fater o bwys heddiw. Clywsom fod diffyg dealltwriaeth cyffredinol ymhlith y bobl o sut y gall HIV gael ei contractio a sut y mae'n cael ei drin, ac y gall pobl barhau â'u bywydau bob dydd. Mae canfyddiad y cyhoedd o HIV yn aml wedi dyddio ac yn seiliedig ar ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n dyddio'n ôl i'r 1980au a'r 1990au cynnar. Yn aml, gall hyn arwain at gamsyniadau ac ymddygiad adweithiol.

3.00 p.m.

Rydym wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Iechyd i gynnal ymgyrch genedlaethol er mwyn addysgu pob sector o'r gymdeithas am ffeithiau HIV, er mwyn cael gwared ar yr atgofion am ymgyrchoedd y gorffennol. Rydym braidd yn siomedig nad oedd y Gweinidog yn gallu derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn croesawu'r gwaith y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato o ran diweddarau cyfarwyddyd iechyd rhywiol ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, dywedodd tystion wrthym bod angen ymgyrch i wneud pobl yn ymwybodol o'r datblygiadau sydd wedi cael eu gwneud o ran y driniaeth ar gyfer HIV. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion yn werthfawr, ond mae angen codi ymwybyddiaeth ymysg pawb. Wedi'r cyfan,

campaign would be the only way to address this, and we would ask that the Minister take this on board and reconsider the issue.

The committee welcomes the work already being done by charities such as Body Positive to develop people's understanding of HIV. That work is vital in increasing awareness, and we feel that it should be expanded further. While the Minister has not accepted our recommendation that the Welsh Assembly Government consider introducing specific funding grants for this purpose, we welcome her commitment to asking the All Wales HIV Network to consider how patient participation groups can work more closely with community and voluntary groups.

There is still a stigma attached to HIV. It is still perceived by many as a minority illness affecting specific groups in society, and assumptions are made that people with HIV are drug-users or gay. We were told that people do not come forward for HIV testing for fear of being stigmatised. However, we were encouraged to hear that HIV testing is routinely offered to all pregnant women as part of their antenatal screening. We welcome that and see it as a beneficial step in both detecting the virus and raising awareness among those perceived as non-high-risk groups. We believe that routine screening such as this should be extended further, and we have recommended that the Welsh Government encourage local health boards to identify options for offering routine HIV screening. We are encouraged that the Minister has asked the chief medical and nursing officers to write to all health boards, asking what action is being taken to implement the UK national testing guidelines.

We also explored the career implications for medical professionals who have been diagnosed with HIV. We were concerned to learn that people may end up taking a

y cenedlaethau hŷn yw'r rhai sy'n dal i gofio ymgyrchoedd blaenorol a'u heffeithiau negyddol. Rydym yn dal i gredu mai ymgyrch genedlaethol fyddai'r unig ffordd o fynd i'r afael â hyn, a byddem yn gofyn i'r Gweinidog ystyried hyn ac ailedrych ar y mater.

Mae'r pwyllgor yn croesawu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan elusennau fel Body Positive i ddatblygu dealltwriaeth pobl o HIV. Mae'r gwaith hwnnw yn hanfodol wrth gynyddu ymwybyddiaeth, ac rydym yn teimlo y dylid ei ehangu ymhellach. Er nad yw'r Gweinidog wedi derbyn ein hargymhelliad bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried cyflwyno grantiau arian penodol at y diben hwn, rydym yn croesawu ei hymrwymiad i ofyn i Rwydwaith HIV Cymru Gyfan ystyried sut y gall grwpiau cyfranogiad cleifion weithio'n agosach gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol.

Mae stigma ynghlwm wrth HIV o hyd. Mae llawer yn dal i gredu ei fod yn salwch lleiafrifol sy'n effeithio ar grwpiau penodol yn y gymdeithas, a gwneir rhagdybiaethau bod pobl sydd â HIV yn defnyddio cyffuriau neu'n hoyw. Dywedwyd wrthym nad yw pobl yn dod i gael prawf HIV rhag ofn iddynt gael eu stigmatiddio. Fodd bynnag, roedd yn galonogol clywed bod prawf HIV yn cael ei gynig fel mater o drefn i bob menyw feichiog fel rhan o'r broses sgrinio cyn geni. Rydym yn croesawu hynny ac yn ei ystyried yn gam buddiol wrth ganfod y firws ac wrth godi ymwybyddiaeth ymysg y rheini sy'n cael eu hystyried yn grwpiau nad ydynt yn risg uchel. Rydym yn credu y dylai'r math hwn o sgrinio rheolaidd gael ei ehangu ymhellach, ac rydym wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn annog byrddau iechyd lleol i ganfod opsiynau ar gyfer cynnig sgrinio HIV rheolaidd. Mae'n galonogol bod y Gweinidog wedi gofyn i'r prif swyddogion meddygol a nyrsio ysgrifennu at yr holl fyrddau iechyd, gan ofyn pa gamau sy'n cael eu cymryd i weithredu canllawiau profi cenedlaethol y DU.

Rydym hefyd wedi ystyried y goblygiadau o ran gyrfa i weithwyr meddygol proffesiynol sydd wedi cael gwybod eu bod yn HIV-positif. Roed clywed y gallai pobl, yn y pen

different career path if diagnosed, and we would like to remind employers of their duty to ensure that anyone in this position is given all the support that they need to make the best decision for themselves and their careers. We were extremely concerned to learn that, if diagnosed with HIV, dentists will find that their careers are over immediately. We have therefore recommended that the Welsh Government consider whether the guidance issued by the Department of Health in 2005 could be updated, specifically addressing the withdrawal of HIV-positive dentists. We are pleased to learn that a review of the current policy on healthcare workers infected by blood-borne viruses is underway, and we hope that the outcome will be favourable.

People with HIV should not be discriminated against in any setting, but particularly not in a healthcare environment, as you would expect medical practitioners to show understanding at what can be a difficult time. We believe that the recommendations that we have made in this report can improve the situation and ensure that people with HIV do not feel that they are in isolation. I hope that the Assembly endorses the committee's work in this very important area.

The Presiding Officer: Thank you very much, Chair. I will call on the Minister later in the debate. I now call on Mohammad Asghar.

Mohammad Asghar: First, I would like to pass on my thanks to all committee members, and particularly to Ann Jones, who chaired this inquiry. I would also like to put on record my thanks to the committee staff and the staff from the Members' research service, who played such an essential role in the smooth running of this inquiry.

To put it simply, no person should suffer discrimination because they live with HIV. To hear evidence suggesting that people living with HIV have experienced discrimination from healthcare professionals and healthcare providers is very troubling,

draw, gamu ar hyd llwybr gyrfa gwahanol ar ôl cael diagnosis yn peri pryder inni, a hoffem atgoffa cyflogwyr o'u dyletswydd i sicrhau bod unrhyw un yn y sefyllfa hon yn cael yr holl gymorth y mae arno ei angen i wneud y penderfyniad gorau ar ei gyfer ef ei hun a'i yrfa. Roedd clywed y byddai gyrfa deintydd ar ben ar unwaith ar ôl cael gwybod ei fod yn HIV-positif yn destun pryder mawr inni. Rydym felly wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellir diweddarau'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd yn 2005, gan roi sylw'n benodol i'r ffaith bod deintyddion HIV-positif yn cael eu tynnu o'r system. Rydym yn falch o glywed bod adolygiad o'r polisi cyfredol ynghylch gweithwyr gofal iechyd sy'n cael eu heintio gan firysau a gludir yn y gwaed ar y gweill, ac rydym yn gobeithio y bydd y canlyniad yn ffafriol.

Ni ddylai pobl wahaniaethu yn erbyn pobl sydd â HIV mewn unrhyw leoliad, ond yn enwedig nid mewn amgylchedd gofal iechyd, oherwydd byddech yn disgwyl i ymarferwyr meddygol ddangos dealltwriaeth yn ystod cyfnod a allai fod yn anodd iawn. Credwn y gall yr argymhellion a wnaed gennym yn yr adroddiad hwn wella'r sefyllfa a gwneud yn siŵr nad yw pobl sydd â HIV yn teimlo eu bod ar eu pennau eu hunain. Rwyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cymeradwyo gwaith y pwyllgor yn y maes hynod bwysig hwn.

Y Llywydd: Diolch yn fawr iawn, Gadeirydd. Byddaf yn galw ar y Gweinidog yn ddiweddarach yn y ddafl. Galwaf yn awr ar Mohammad Asghar.

Mohammad Asghar: Yn gyntaf, hoffwn gyfleu fy niolch i bob un o aelodau'r pwyllgor, ac yn arbennig i Ann Jones, cadeirydd yr ymchwiliad hwn. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i staff y pwyllgor a staff gwasanaeth ymchwil yr Aelodau, y bu iddynt chwarae rhan mor hanfodol wrth i'r ymchwiliad hwn fynd rhagddo'n rhwydd.

Yn syml, ni ddylai unrhyw un ddiodeff gwahaniaethu oherwydd ei fod yn byw â HIV. Mae clywed tystiolaeth sy'n awgrymu bod pobl sy'n byw â HIV wedi profi gwahaniaethu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a darparwyr gofal iechyd yn peri

and that is why undertaking this inquiry was so important. While witnesses indicated that the problem has improved in recent years, the report suggests that there is much work to do in raising awareness and removing the stigma attached to HIV.

What made this inquiry particularly tricky is the lack of a concrete evidence base and reliable statistical data. Many examples of discrimination given in committee were not explicit or obvious, but were subtle or unintentional. Often it seemed that a lack of awareness or understanding was to blame, but this can still leave people living with HIV feeling very isolated or unfairly branded. I am pleased that the Minister accepted a majority of the recommendations in this report, although I would like to touch on two recommendations that the Minister rejected in her response. Recommendation 3 states that the committee believes

‘that the evidence base for cases of discrimination could be boosted by charities alerting local health boards informally of any instances so that they are aware and can keep a record’.

While I note the Minister’s concern about the implementation of this recommendation, it is important to consider the role that the third sector could play in boosting the evidence base. The committee heard how people living with HIV may not wish to complain formally to health boards for fear of compromising their future care needs. Evidence gathered suggests that people may feel more comfortable raising issues of discriminatory practices with a specialist charitable organisation. Allowing health boards to gain such knowledge on an informal basis would indicate to a health board whether it needed to increase internal training or further use the experience of HIV specialists. It would also allow monitoring of the prevalence of discriminatory practices and would keep close tabs on any successes in bringing levels down.

gwir bryder, a dyna pam roedd ymgymryd â'r ymchwiliad hwn mor bwysig. Er bod tystion wedi awgrymu bod y broblem wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r adroddiad yn awgrymu bod llawer o waith i'w wneud o hyd o ran codi ymwybyddiaeth a chael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â HIV.

Beth a oedd yn gwneud yr ymchwiliad hwn yn arbennig o anodd oedd y diffyg o ran sylfaen dystiolaeth gadarn a data ystadegol dibynadwy. Roedd llawer o'r enghreifftiau o wahaniaethu a roddwyd gerbron y pwyllgor yn gynnwl neu'n anfwriadol, ddim yn eglur nac yn amlwg. Yn aml, roedd yn ymddangos mai diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth oedd ar fai, ond gall pobl sy'n byw â HIV deimlo'n ynysig iawn o hyd neu deimlo eu bod yn cael eu brandio'n annheg. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, er yr hoffwn drafod yn gryno ddau argymhelliad y gwnaeth y Gweinidog eu gwrthod yn ei hymateb. Mae argymhelliad 3 yn nodi bod y pwyllgor yn credu

'y gellid casglu mwy o dystiolaeth am achosion o wahaniaethu pe bai elusennau'n rhoi gwybod i fyrddau lleol yn anffurfiol am unrhyw achosion, fel y gall y byrddau fod yn ymwybodol o'r mater a chadw cofnod'.

Er fy mod yn nodi pryder y Gweinidog ynglŷn â gweithredu'r argymhelliad hwn, mae'n bwysig ystyried y rôl y gallai'r trydydd sector ei chwarae wrth hybu'r sylfaen dystiolaeth. Clywodd y pwyllgor ei bod yn bosibl nad yw pobl sy'n byw â HIV yn dymuno cwyno'n ffurfiol i fyrddau iechyd rhag ofn iddynt roi eu hanghenion gofal yn y dyfodol yn y fantol. Mae tystiolaeth sydd wedi'i chasglu yn awgrymu ei bod yn bosibl bod pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth godi materion yn ymwneud ag arferion sy'n gwahaniaethu gyda sefydliad elusennol arbenigol. Byddai galluogi byrddau iechyd i gael gwybodaeth o'r fath—a hynny yn anffurfiol—yn dangos i fwrdd iechyd a oes angen iddo gynyddu hyfforddiant mewnol neu ddefnyddio rhagor ar brofiad arbenigwyr HIV. Byddai hefyd yn gyfle i fonitro nifer yr achosion o arferion sy'n gwahaniaethu, a byddai'n cadw golwg ofalus ar unrhyw

Iwyddiannau wrth leihau'r lefelau.

Another rejected recommendation was recommendation 7, which notes that the committee

'recommends that the Welsh Government works with the Department of Health to run a nationwide campaign to educate all sectors of society of the facts of HIV in order to erase the memories of outdated campaigns'.

In her response, the Minister explained her rejection by noting how attitudes towards HIV and AIDS will vary between individuals and groups of people. While there is truth in that, a nationwide campaign could still play a huge role in raising awareness about the problems faced by people living with HIV. Much has changed since the early days of HIV, but many people from diverse social backgrounds still have an outdated approach. The Welsh Assembly Government has held many other promotional or awareness-raising campaigns that deliver one message to a diverse and multicultural Welsh society. I feel that doing the same on this issue could reap huge rewards in developing a modern understanding of HIV.

It is important that we pay tribute to some of the excellent work that AIDS and HIV charities do. I am pleased that the Minister has accepted recommendation 2 as charities and third sector groups are in an excellent position to advise people living with HIV of their rights under legislation such as the Disability Discrimination Act 1995. They can also offer invaluable advice on the service people are entitled to receive from healthcare providers.

I also think that recommendation 4 is particularly important in that it aims to put arrangements in place to give GPs and dental practices quick access to HIV specialists to discuss treatment for HIV sufferers.

As I highlighted earlier, much of the

Argymhelliad arall a wrthodwyd oedd argymhelliad 7, sy'n nodi bod y pwyllgor

'yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Iechyd i gynnal ymgyrch genedlaethol er mwyn addysgu pob sector o'r gymdeithas am ffeithiau HIV er mwyn cael gwared ar yr atgofion am ymgyrchoedd y gorffennol'.

Yn ei hymateb, eglurodd y Gweinidog pam ei bod wedi gwrthod yr argymhelliad gan nodi sut y bydd agweddau tuag at HIV ac AIDS yn amrywio rhwng unigolion a grwpiau o bobl. Er bod rhywfaint o wirionedd yn hynny, mae'n dal yn bosibl y gallai ymgyrch genedlaethol chwarae rhan enfawr wrth godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r problemau a wynebir gan bobl sy'n byw â HIV. Mae llawer wedi newid ers dyddiau cynnar HIV, ond mae agwedd hen ffasiwn yn dal i fod gan lawer o bobl o amrywiol gefndiroedd cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal sawl ymgyrch hyrwyddo neu godi ymwybyddiaeth arall sy'n cyfleu un neges i gymdeithas amrywiol ac amlddiwylliannol Cymru. Rwyf yn teimlo y gallai gwneud yr un fath yng nghyswllt hyn fod yn fuddiol iawn wrth ddatblygu dealltwriaeth fodern o HIV.

Mae'n bwysig ein bod yn talu teyrnged i'r gwaith ardderchog y mae elusennau AIDS a HIV yn ei wneud. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn argymhelliad 2, gan fod elusennau a grwpiau trydydd sector mewn sefyllfa ardderchog i roi cyngor i bobl sy'n byw â HIV ynglŷn â'u hawliau o dan ddeddfwriaeth fel Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Gallant hefyd gynnig cyngor gwerthfawr am y gwasanaeth y mae gan bobl yr hawl i'w gael gan ddarparwyr gofal iechyd.

Rwyf hefyd yn credu bod argymhelliad 4 yn arbennig o bwysig gan ei fod yn ceisio rhoi trefniadau ar waith er mwyn rhoi mynediad cyflym at arbenigwyr HIV i feddygon teulu a deintyddion, er mwyn trafod y driniaeth briodol ar gyfer dioddefwyr HIV.

Fel y pwysleisiwyd gennyf yn gynharach,

discrimination that we heard about in committee was subtle or covert, which could be due to healthcare professionals being unaware or uninformed of the latest developments in HIV care. Figures for 2007 suggest that more new cases of HIV infection were detected in Wales than ever before, so it is becoming more important than ever that those working in healthcare are fully informed of all developments.

To conclude, I again thank all those who made this inquiry possible and I hope that, in the light of this report, Welsh Assembly Government action will help build on some of the improvements that have taken place over the years and ensure that those living with HIV do not feel any discrimination from healthcare professionals or providers as a result of their condition. A lot of work is needed to raise awareness and generate balanced understanding.

3.10 p.m.

David Lloyd: Nid wyf yn aelod o'r pwyllgor, ond yr wyf wedi darllen yr adroddiad bendigedig hwn. Rhaid imi longyfarch Ann Jones, y Cadeirydd, a gweddill aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar yr adroddiad hwn ar wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gydag HIV.

Yr wyf am geisio gosod y cyd-destun. Yr ydym i gyd yn cofio'r hysbysebion hynny o'r 1980au pan oedd HIV ac AIDS yr un peth ac AIDS yn ergyd farwol bob tro. Erbyn hyn, wrth gwrs, cafwyd gwelliannau aruthrol yn y diagnosis a'r driniaeth o HIV/AIDS. Dros y blynyddoedd, cymerwyd camau sylweddol ymlaen, ac yn awr nid yw HIV ond yn glefyd cronig tymor hir arall, megis diabetes. Dyna sut yr ydym yn edrych ar HIV y dyddiau hyn—yn union fel unrhyw glefyd tymor hir arall.

Fodd bynnag, mae mecanwaith yr ysbytai er mwyn ymdrin ag HIV/AIDS wedi bod braidd yn araf efallai i ddal lan â'r gwelliannau hynny. Yn draddodiadol, ers y 1980au, mae triniaeth HIV/AIDS wedi digwydd mewn

roedd llawer o'r gwahaniaethu y clywsom amdano yn y pwyllgor yn gynnil neu'n gudd. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn anymwybodol neu'n anwybodus ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf o ran gofal HIV. Mae ffigurau ar gyfer 2007 yn awgrymu bod mwy o achosion newydd o HIV wedi'u canfod yng Nghymru nag erioed o'r blaen, felly mae'n dod yn bwysicach nag erioed bod y rheini sy'n gweithio ym maes gofal iechyd yn cael gwybod am yr holl ddatblygiadau.

I gloi, hoffwn ddiolch unwaith eto i bawb a wnaeth yr ymchwiliad hwn bosibl ac rwyf yn gobeithio, yng ngoleuni'r adroddiad hwn, y bydd camau gweithredu a gymerir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu i adeiladu ar rai o'r gwelliannau sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd, ac yn sicrhau nad yw'r rheini sy'n byw â HIV yn teimlo bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol na darparwyr gofal iechyd yn gwahaniaethu yn eu herbryn o ganlyniad i'w cyflwr. Mae angen gwneud llawer o waith i godi ymwybyddiaeth a chreu dealltwriaeth gytbwys.

3.10 p.m.

David Lloyd: I am not a member of the committee, but I have read this fantastic report. I must congratulate Ann Jones, the Chair, and the rest of the members of the Committee on Equality of Opportunity on this report on discrimination against people living with HIV.

I will try to set this in context. We all remember those adverts from the 1980s when HIV and AIDS were the same thing and AIDS was a killer every time. Now, of course, there have been vast improvements in the diagnosis and treatment of HIV/AIDS. Over the years, significant steps have been taken, and now HIV is only another long-term chronic condition, like diabetes. That is how we look at HIV these days—just like any other long-term condition.

However, the hospital mechanisms to deal with HIV/AIDS may have been somewhat slow to catch up with those improvements. Traditionally, since the 1980s, treatment of HIV/AIDS has occurred only in hospitals.

ysbytai yn unig. Mae'r driniaeth wedi bod yn arbenigol iawn, ac nid yw meddygon teulu wedi bod yn rhan o'r broses o gwbl. Y ffaith yw nad yw meddygon teulu yn gwybod a yw eu cleifion yn derbyn triniaeth am HIV/AIDS. Mae lefel y cyfrinachedd yn absoliwt. Nid wyf yn gwybod a oes yr un o'r cleifion yn fy meddygfa'n dioddef o HIV/AIDS gan fod lefel y cyfrinachedd yn absoliwt, a dyna fel y dylai fod.

Yn deillio o hynny a'r gweithgaredd arbenigol, a geir yn gyfan gwbl o fewn yr ysbyty, pan fydd pobl yn dod i weld eu meddyg teulu, mae gagendor yn lefel y driniaeth, gan nad yw'r meddyg teulu wedi bod yn rhan o'r broses o gwbl. Mae sawl agwedd gynnil a manwl ar y clefyd HIV sydd, ar y wyneb, yn gallu dynwared nifer fawr o'r clefydau eraill welwn yn y feddygfa deuluol bob dydd ond a all fod yn arwyddbost i HIV. Nid ydym yn gwybod. Felly, mae arbenigedd y meddyg teulu wedi bod yn araf wrth ddal lan ag arbenigedd yr ysbyty yn ei hanfod, gan fod yr arbenigedd wedi cael ei gadw yn yr ysbytai. Yn y blynyddoedd diwethaf yn unig mae'r arbenigwyr o'r ysbytai wedi rhannu'r wybodaeth â meddygon teulu a rhannu'r gofal, wrth i'r clefyd newid. Hynny yw, mae HIV, fel y dywedais, yn union fel diabetes y dyddiau hyn. Fel hynny y dylai gael ei drin, felly.

Mae'r meddyg teulu'n dod yn rhan o'r pictiwr yn awr, ond mae'r mecanwaith yn y gwasanaeth iechyd wedi bod yn araf i ddal i fyny â'r newidiadau hyn. Dylai'r gofal gael ei rannu. Yn naturiol, afraid dweud na ddylai fod rhagfarn o gwbl yn erbyn neb yn y gwasanaeth iechyd, pa glefyd bynnag sydd arno. Beth bynnag fo'r clefyd neu gyflwr, yr ydym yno i drin pobl a'u hiacháu, a hynny heb ragfarn, ffafr neu ddrwgdeimlad. Dyna yw'n rôl ni fel meddygon a nyrsys, ac ni ddylai fod yn fater o ragfarn o gwbl.

O ddarllen yr adroddiad arbennig hwn, credaf fod pethau wedi digwydd a allai ymddangos fel rhagfarn oherwydd nad oedd y feddygfa deuluol yn gwybod beth oedd yn mynd yn ei flaen. Yn y bôn, ni fyddai'n cael gwybod oherwydd nid yw'n fusnes iddi. Busnes hollol gyfrinachol yw statws HIV rhywun—

The treatment has been highly specialised, and GPs have not been involved at all. The fact is that general practitioners do not know if their patients are receiving treatment for HIV/AIDS. The level of confidentiality is absolute. I do not know if any of the patients in my practice is suffering with HIV/AIDS as the level of confidentiality is absolute, and that is as it should be.

As a result of that and of the specialist treatment, which is provided exclusively within the hospital, when people come to see their family doctor, there is a gap in the level of treatment because the GP has not been part of the process at all. There are many subtle and particular characteristics to HIV that, on the face of it, can mimic a large number of other diseases that we see in GP surgeries every day, but which may be a signpost to HIV. We do not know. Therefore, the expertise of the GP has been slow to catch up with hospital expertise essentially, because the expertise has been retained by hospitals. It is only in recent years that hospital specialists have shared information and care with GPs, as the disease changes. That is, as I said earlier, HIV is just like diabetes nowadays. Therefore, that is how it should be treated.

The GP is becoming part of the picture now, but the mechanism in the health service has been slow to catch up with these changes. Care should be shared. Naturally, it goes without saying that there should not be any prejudice in the health service against anyone, regardless of the disease that he may have. No matter what the disease or condition, we are there to treat people and heal them, without prejudice, favour or resentment. That is our role as doctors and nurses, and it should not be a matter of prejudice whatsoever.

From reading this singular report, I think that things have happened that may have looked like prejudice because the GP surgery did not know what was happening. In essence, it would not have been told because it is none of the surgery's business. Someone's HIV status is a strictly confidential matter—a

busnes cyfrinachol rhwng y claf a'r arbenigwr yn yr ysbyty. Nid yw'n fusnes i neb arall. Wrth gwrs, yn rhan o hynny, gall rhai pethau gael eu gadael allan, ac, yn naturiol, efallai bydd pobl yn teimlo bod camwahaniaethu yn eu herbyn, ond nid dyna yw—dyna sut y mae'r system wedi'i datblygu.

Yn awr, mae'n berffaith bosibl ichi gael y profion gwaed yn eich meddygfa deuluol gogyfer HIV. Mae pethau wedi camu ymlaen oherwydd nid ydyw'n ergyd farwol bellach. Cafwyd gwelliannau aruthrol ac yr ydym yn trin HIV fel unrhyw glefyd tymor hir arall. Mae hynny'n dystiolaeth o'r camau breision, bendigedig a gymerwyd dros y blynyddoedd o ran trin a thrafod HIV ac AIDS.

Veronica German: This inquiry was undertaken by the committee before I joined it, but I am pleased that this subject was chosen. I would also like to add my congratulations to Ann and the committee on the way that this inquiry was carried out. It is an area of discrimination that has, perhaps, been overlooked. It is only in the past five years that it has been included within the Disability Discrimination Act. I am pleased that the Minister for Health and Social Services has agreed to accept many of the recommendations.

With regard to recommendation 10, which relates to discrimination against employees of the national health service, I believe that, during the committee inquiry, the Minister said that she was conducting a review of policies for tackling discrimination against employees with HIV. Perhaps the Minister could indicate whether the review is still on track to report during 2010, and, if so, do we have a likely date for its publication?

You cannot begin to imagine what it must be like to be diagnosed with HIV, particularly when—as many people have said—its image is based on the out-dated campaigns of the past. It was almost like a horror film that came across our television screens and everyone was in a terrible state about it. This certainly improved levels of awareness, but I am not sure whether it did anything for the

confidential matter between the patient and the hospital specialist. It is none of anyone else's business. Of course, as part of that, some things were left out, and, naturally, people may feel that they have been discriminated against, but that is not what has happened—that is how the system has developed.

Now, it is perfectly possible for you to get the blood tests for HIV at your GP surgery. Things have moved on because it is no longer the fatal blow it once was. There have been tremendous improvements and we treat HIV like any other long-term disease. That is evidence of the great, fantastic strides that have been taken over the years with regard to the treatment and management of HIV and AIDS.

Veronica German: Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn gan y pwyllgor cyn i mi ymuno ag ef, ond rwyf yn falch y dewiswyd y pwn hwn. Hoffwn hefyd longyfarch Ann a'r pwyllgor am y ffordd y cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn. Mae'n faes o wahaniaethu sydd, efallai, wedi cael ei anwybyddu. Dim ond yn ystod y pum mlynedd diwethaf y mae wedi ei gynnwys yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Rwyf yn falch bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i dderbyn llawer o'r argymhellion.

O ran argymhelliad 10, sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr y gwasanaeth iechyd gwladol, rwyf yn credu bod y Gweinidog, yn ystod ymchwiliad y pwyllgor, wedi dweud ei bod yn cynnal adolygiad o bolisiâu ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn cyflogion sydd â HIV. Efallai y gallai'r Gweinidog nodi a fydd yr adolygiad yn barod er mwyn adrodd arno yn ystod 2010, ac, os felly, a oes dyddiad tebygol ar gyfer ei gyhoeddi?

Ni allwch ddechrau dychmygu sut beth yw cael gwybod eich bod yn HIV-positif, yn enwedig pan mae ei ddelwedd yn seiliedig ar ymgyrchoedd hen ffasiwn y gorffennol—fel y dywed cynifer o bobl. Roedd bron fel ffilm arswyd ar ein sgriniau teledu ac roedd pawb wedi cynhyrfu'n lân. Gwnaeth hyn, yn sicr, wella lefelau ymwybyddiaeth, ond nid wyf yn siŵr a wnaeth unrhyw beth i fynd i'r afael

stigma attached to it.

As well as having this disease, you find that—or think that—people are treating you differently. Certainly, some people will treat you differently. That adds to the stress and the anxiety. Even though it has been attached to this piece of legislation, it does not change people's thoughts and minds. It is no wonder that people find it difficult to come forward for testing, because they fear the discrimination and stigma, perhaps even more than they fear the disease itself. We obviously need to take proactive steps to encourage people to come forward for testing.

I have witnessed this in Lesotho, where HIV/AIDS causes the death of a large percentage of the population. In fact, the average life expectancy is about 40 due mainly to the effects of HIV/AIDS. A programme is being developed in Lesotho to encourage people to come forward for testing, and young people recognise this as the number one priority for their country. I do not think that as many young people in Wales are talking about this now. It has gone off their radar. Therefore, I am pleased that the Minister is looking at the development of the sexual health and wellbeing action plan, which includes an element of education. Education is key to avoiding discrimination. If we talk about things and discuss things openly, perhaps people will be more likely to accept them.

Many people have referred to the 'discrimination that is not' within GP practices, so I will not reiterate those points. However, it is really important simply to explain what is happening and why people are wearing gloves.

As for the recommendations that the Minister did not accept, I can understand the problems in relation to data protection and so on in the third sector, as regards information sharing. However, I am still not convinced that there is no informal, anonymous way of providing health boards with this information, without it being an official complaint. It is not a complaint about someone; it is merely information gathering. I would like to see

â'r stigma sy'n gysylltiedig â HIV.

Yn ogystal â dioddef o'r clefyd, byddwch yn canfod—neu'n meddwl—bod pobl yn eich trin yn wahanol. Yn sicr, bydd rhai pobl yn eich trin yn wahanol. Mae hynny'n ychwanegu at y straen a'r pryder. Er ei fod ynghlwm wrth y ddeddfwriaeth hon, nid yw'n newid meddyliau pobl. Nid yw'n syndod bod pobl yn ei chael yn anodd mynd am brawf, oherwydd eu bod yn ofni'r gwahaniaethu a'r stigma, efallai hyd yn oed yn fwy nag y maent yn ofni'r clefyd ei hun. Yn amlwg, mae arnom angen cymryd camau rhagweithiol i annog pobl i fynd am brawf.

Rwyf wedi gweld hyn yn Lesotho, lle mae HIV/AIDS yn achosi marwolaeth canran fawr o'r boblogaeth. Yn wir, y disgwyliad oes yw tua 40 ar gyfartaledd, yn bennaf oherwydd effeithiau HIV/AIDS. Mae rhaglen yn cael ei datblygu yn Lesotho i annog pobl i fynd am brawf, ac mae pobl ifanc yn cydnabod mai dyma brif flaenoriaeth eu gwlad. Nid wyf yn credu bod cynifer o bobl ifanc Cymru yn siarad am hyn ar hyn o bryd. Maent wedi anghofio amdano. Rwyf yn falch, felly, bod y Gweinidog yn edrych ar ddatblygu'r cynllun gweithredu iechyd a lles rhywiol, sy'n cynnwys elfen o addysg. Mae addysg yn allweddol er mwyn osgoi gwahaniaethu. Os byddwn yn siarad am bethau ac yn trafod pethau yn agored, efallai y bydd pobl yn fwy tebygol o'u derbyn.

Mae llawer o bobl wedi cyfeirio at y 'gwahaniaethu nad yw'n wahaniaethu' ym meddygfeydd meddygon teulu, felly nid wyf am ailadrodd y pwyntiau hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn esbonio'n syml beth sy'n digwydd ac esbonio pam mae pobl yn gwisgo menig.

O ran yr argymhellion na wnaeth y Gweinidog eu derbyn, gallaf ddeall y problemau mewn perthynas â diogelu data ac yn y blaen yn y trydydd sector, o ran rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, rwyf yn dal heb fy argyhoeddi nad oes ffordd anffurfiol, ddienw o roi'r wybodaeth hon i fyrdau iechyd, heb iddo fod yn gŵyn swyddogol. Nid cwyn am rywun fyddai; dim ond casglu gwybodaeth. Hoffwn weld rhyw ffordd

some imaginative way of taking that forward.

3.20 p.m.

On the television information campaign, as we have said, we all remember the horror shows that we saw all those years ago. On its own, it is not good enough, but we need to use as many openings as we can to get this message across.

Therefore, overall, the Minister's response is pleasing. The publication of the Government's sexual health and wellbeing action plan is welcome. However, of course, a plan is no use unless it is implemented and monitored. Therefore, we look forward to watching the progress of the implementation of this plan and seeing these recommendations taking effect in future.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): I also wish to congratulate Ann Jones and her committee for undertaking an excellent report on an area on which some light needed to be shone to highlight the discrimination that people with HIV experience. Ann, like you, I have an interest in the subject. We both come from a trade union background, and some of the earliest work done on discrimination with victims of HIV was undertaken by the trade union movement when we developed policies that were well ahead, dare I say it, of political parties, because we had to deal with some of the issues and discrimination against some of our members.

Discrimination against people with HIV is unacceptable and illegal, and that is why I commend your report so much. I am pleased to accept the majority of the recommendations that were made. However, as you indicated, Ann, I have rejected three of the recommendations, and I think that it is important for the record to outline my reasons for this. I have rejected recommendation 3, which suggests that the evidence base for cases of discrimination could be boosted by charities alerting local health boards informally of any instances. This reflects the inquiry's findings of

ddychnygus o fwrw ymlaen â hynny.

3.20 p.m.

O ran yr ymgyrch wybodaeth ar y teledu, fel rydym wedi dweud, mae pob un ohonom yn cofio'r sioe arswyd y bu inni ei gweld yr holl flynyddoedd yn ôl. Ar ei phen ei hun, nid yw'n ddigon da, ond mae angen inni ddefnyddio cynifer o ffyrdd â phosibl i gyfleu'r neges hon.

Felly, ar y cyfan, rwyf yn fodlon ag ymateb y Gweinidog. Mae cyhoeddi cynllun gweithredu iechyd a lles rhywiol y Llywodraeth i'w groesawu. Fodd bynnag, wrth gwrs, nid oes diben cael cynllun oni bai ei fod yn cael ei weithredu a'i fonitro. Felly, edrychwn ymlaen at weld y cynnydd wrth i'r cynllun hwn gael ei roi ar waith ac at weld yr argymhellion hyn yn dod i rym yn y dyfodol.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Hoffwn innau hefyd longyfarch Ann Jones a'i phwyllgor am lunio adroddiad ardderchog ar faes roedd angen taflu rhywfaint o oleuni arno, er mwyn tynnu sylw at y gwahaniaethu y mae pobl â HIV yn ei brofi. Ann, yn yr un modd â chithau, mae gennyf fi ddiddordeb yn y pwnc. Daw'r ddwy ohonom o gefndir yn ymwneud ag undebau llafur, a gwnaed rhywfaint o'r gwaith cynharaf ar wahaniaethu gyda dioddefwyr HIV gan y mudiad undebau llafur, pan y gwnaethom ddatblygu polisiau a oedd, os caf ddweud, ymhell ar y blaen o'u cymharu â pholisiau pleidiau gwleidyddol, oherwydd bu'n rhaid inni ymdrin â rhai o'r materion a'r gwahaniaethu yn erbyn rhai o'n haelodau.

Mae gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â HIV yn annerbyniol ac yn anghyfreithlon, a dyna pam rwyf yn cymeradwyo cymaint ar eich adroddiad. Rwyf yn falch o dderbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed. Fodd bynnag, fel y gwnaethoch sôn, Ann, rwyf wedi gwrthod tri o'r argymhellion, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig fy mod yn amlinellu fy rhesymau dros wneud hyn, ar gyfer y cofnod. Rwyf wedi gwrthod argymhelliad 3, sy'n awgrymu y gellid casglu mwy o dystiolaeth am achosion o wahaniaethu pe bai elusennau'n rhoi gwybod i fyrdau lleol yn anffurfiol am unrhyw achosion. Mae hyn yn

anecdotal evidence of discriminatory practice by healthcare staff. It failed to uncover any formal complaints made to the NHS, and this concerns me. I do not doubt that the anecdotal evidence provided by patients with HIV in order to take appropriate action against the perpetrators of discrimination needs to be formally reported and investigated, and I recognise that there is often a stigma associated with HIV that prevents people from speaking out, and we must challenge this. I believe that a patient who has experienced discrimination should be encouraged and supported to take forward their complaint through the NHS complaints procedure.

As I have outlined in my written response to the committee, I will soon be laying draft regulations before the Assembly, dealing with the handling of concerns about NHS services. These regulations will require NHS bodies to make provision for the specific needs of people raising concerns and to ensure that people have proper information about the process. For patients living with HIV and AIDS, this will include their being supported through a community health council complaints advocacy service, but also, wherever appropriate, with specialist advocacy, such as that provided by HIV charities.

I understand Veronica German's point about some sort of informal arrangement. I am obviously prepared to look at this again, but I think that it is important that everybody feels that they can use the formal complaints procedure and be helped through it. Without formalising complaints, we will never get change, and that is important. The all-Wales HIV network's local positive participation fora will provide a platform for HIV-positive people to raise issues with local health boards and work with them to improve services in their locality. I will ask the all-Wales HIV network and community health councils to ensure that good links are in place between them to foster a supportive environment in which to take forward any complaints.

Recommendation 7 of the report expresses

adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwiliad o dystiolaeth anecdotaidd o arferion gwahaniaethol gan staff gofal iechyd. Roedd wedi methu â datgelu unrhyw gwynion ffurfiol a wnaed i'r GIG, ac rwyf yn pryderu am hyn. Nid wyf yn amau bod angen i'r dystiolaeth anecdotaidd a ddarperir gan gleifion sydd â HIV gael ei riportio'n ffurfiol a'i hymchwilio, er mwyn cymryd camau priodol yn erbyn y sawl sy'n gwahaniaethu, ac rwyf yn cydnabod bod stigma yn aml yn gysylltiedig â HIV, sy'n atal pobl rhag codi llais. Rhaid inni herio hyn. Credaf y dylai claf y mae rhywrai wedi gwahaniaethu yn ei erbyn gael ei annog a'i gefnogi i fynd â'i gŵyn ymlaen drwy weithdrefn gwyno'r GIG.

Fel rwyf wedi amlinellu yn fy ymateb ysgrifenedig i'r pwyllgor, byddaf yn cyflwyno rheoliadau drafft gerbron y Cynulliad yn fuan, a fydd yn ymwneud â'r modd yr ymdrinnir â phryderon am wasanaethau'r GIG. Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ddarparu ar gyfer anghenion penodol pobl sy'n codi pryderon, a sicrhau bod pobl yn cael yr wybodaeth briodol am y broses. Ar gyfer cleifion sy'n byw â HIV ac AIDS, bydd hyn yn cynnwys cael eu cefnogi drwy wasanaeth eiriolaeth cwynion cyngor iechyd cymunedol, ond hefyd, lle bo'n briodol, gydag eiriolaeth arbenigol, fel yr un a ddarperir gan elusennau HIV.

Rwyf yn deall pwynt Veronica German ynglŷn â rhyw fath o drefniant anffurfiol. Rwyf yn amlwg yn barod i edrych eto ar hyn, ond credaf ei bod yn bwysig bod pawb yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r weithdrefn gwynion ffurfiol a chael cymorth i'w defnyddio. Heb ffurfioli cwynion, ni fyddwn byth yn sicrhau newid, ac mae hynny'n bwysig. Bydd fforymau cyfranogaeth gadarnhaol lleol rhwydwaith HIV Cymru gyfan yn darparu llwyfan i bobl HIV-positif godi materion gyda byrddau iechyd lleol, a gweithio gyda hwy i wella gwasanaethau yn eu hardal leol. Byddaf yn gofyn i rwydwaith HIV Cymru gyfan a chynghorau iechyd cymunedol sicrhau bod cysylltiadau da ar waith rhyngddynt er mwyn meithrin amgylchedd cefnogol lle gellir gwneud cwynion.

Mae argymhelliad 7 yr adroddiad yn

the need for greater social awareness of HIV, and suggests that there should be a public education campaign to achieve this. Like many in the Chamber, I remember the adverts on these issues from years ago. I wholeheartedly agree with the aim of the recommendation, but I disagree with the suggested method of bringing it about. I explained in my written response that I believe that the issues around equality and HIV need to be integrated into mainstream programmes, such as through personal and social education in schools, our existing HIV prevention programme working with vulnerable communities, and wider workplace training addressing inequality. I strongly believe that long-term sustained action is required, rather than a one-off campaign, but in light of the comments made by the Chair of the committee I will once again consider—particularly as I meet regularly with the Ministers for health of all other administrations in the UK—whether it is something that we might wish to look at collectively.

Recommendation 8 of the report suggests that I consider introducing grant funding for the voluntary sector to work with community and voluntary groups to develop their own understanding about HIV. I commend the work that Body Positive in Cheshire and north Wales has already taken forward in this area. However, I feel that the opportunity to work more widely with the local community already exists for the all-Wales HIV network's positive participation fora. These groups will be led by local HIV charities. In north Wales, this role is already undertaken by Body Positive. Positive participation groups have previously worked effectively with local service providers, including health and social care, and, in some areas, the police. I will ask the all-Wales HIV network to consider how it can support local participation groups to work more closely with community and voluntary groups.

Other than the three recommendations that I have discussed, I have accepted, or accepted in principle, the remaining recommendations that have been put forward. From this

mynegi'r angen am well ymwybyddiaeth gymdeithasol o HIV, ac yn awgrymu y dylid cael ymgyrch addysg gyhoeddus i gyflawni hyn. Fel llawer yn y Siambr, rwyf yn cofio'r hysbysebion ar y materion hyn a ddangoswyd flynyddoedd yn ôl. Cytunaf yn llwyr â nod yr argymhelliad, ond rwyf yn anghytuno â'r dull gweithredu a awgrymir. Yn fy ymateb ysgrifenedig, esboniais fy mod yn credu bod angen integreiddio'r materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a HIV i raglenni prif ffrwd, er enghraifft, drwy addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion, ein rhaglen atal HIV presennol sy'n gweithio gyda chymunedau agored i niwed, a hyfforddiant ehangach yn y gweithle i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Credaf yn gryf bod angen gweithredu parhaus hirdymor, yn hytrach nag ymgyrch untro, ond yn sgîl y sylwadau a wnaed gan Gadeirydd y pwyllgor byddaf yn ystyried eto—yn enwedig gan fy mod yn cyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion iechyd holl weinyddiaethau eraill y DU—a yw'n rhywbeth y dymunwn edrych arno ar y cyd, o bosibl.

Mae argymhelliad 8 yr adroddiad yn awgrymu fy mod yn ystyried cyflwyno arian grant i'r sector gwirfoddol weithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o HIV. Rwyf yn cymeradwyo'r gwaith y mae Body Positive yn Sir Gaer a gogledd Cymru eisoes wedi ei wneud yn y maes hwn. Fodd bynnag, rwyf yn teimlo bod y cyfle i weithio yn fwy eang gyda'r gymuned leol eisoes yn bodoli ar gyfer fforymau cyfranogiad cadarnhaol rhwydwaith HIV Cymru gyfan. Bydd y grwpiau hyn yn cael eu harwain gan elusennau HIV lleol. Yn y gogledd, mae Body Positive eisoes wedi ymgymryd â'r rôl hon. Mae grwpiau cyfranogiad cadarnhaol wedi gweithio'n effeithiol gyda darparwyr gwasanaethau lleol yn y gorffennol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, a'r heddlu, mewn rhai ardaloedd. Byddaf yn gofyn i rwydwaith HIV Cymru gyfan ystyried sut y gall gefnogi grwpiau cyfranogiad lleol i weithio'n agosach gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol.

Ar wahân i'r tri argymhelliad rwyf wedi'u trafod, rwyf wedi derbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, gweddill yr argymhellion a gyflwynwyd. Mae gennyf ddau faes

inquiry, I have taken away two key areas for action. First, we need to be able to investigate and challenge discrimination where it exists. As I have previously mentioned, this means supporting people to speak out about discriminatory behaviour when they experience it. Secondly, we need to stop discriminatory practice from happening in the first place by ensuring that healthcare professionals and workers are trained in more relevant issues.

I was particularly interested in the points made by Dr Dai Lloyd about how HIV has been dealt with in the health service. Perhaps the health service is far behind, in some ways, in dealing with some of the issues around people with HIV. We are now talking about HIV as a chronic, long-term condition, as opposed to the dramatic evidence that we had at the beginning when it would have been a case of HIV, AIDS and death. We are now talking about managing conditions. Other interesting issues also develop in the health field when this occurs, which we have to take on board.

The inquiry's findings suggest that some of the practices that are perceived as discriminatory emerged from a lack of understanding about the use of universal precaution procedures, and a lack of experience in HIV-related care, which echoes to Dr Lloyd's point. This is preventable, and I am keen to endorse recommendations 4 and 5, which relate to improving the training and support available to the wider medical workforce on HIV-related issues in care, including support for GPs. I will write to local health boards to ask them to take action on this.

Finally, any man, woman or child living with HIV in Wales should not have to bear the additional burden of discrimination on top of their already considerable health concerns. I am committed to eradicating discrimination wherever it exists in the health service. I commend the report and the actions suggested by it. I will be giving a written statement as a further Government response to provide an update on action on this issue

allweddol ar gyfer gweithredu, yn deillio o'r ymchwiliad hwn. Yn gyntaf, mae angen inni allu ymchwilio a herio gwahaniaethu lle mae'n bodoli. Fel rwyf wedi crybwyll o'r blaen, mae hyn yn golygu cefnogi pobl i siarad am ymddygiad gwahaniaethol pan y byddant yn ei brofi. Yn ail, mae angen inni atal arferion gwahaniaethol rhag digwydd yn y lle cyntaf drwy sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant mewn materion mwy perthnasol.

Roedd gennyf ddiddordeb arbennig yn y pwyntiau a wnaed gan Dr Dai Lloyd ynglŷn â sut y mae'r gwasanaeth iechyd wedi ymdrin â HIV. Efallai bod y gwasanaeth iechyd ymhell ar ei hôl hi, mewn rhai ffyrdd, wrth ymdrin â rhai o'r materion sy'n rhan o fywydau pobl sydd â HIV. Rydym bellach yn sôn am HIV fel cyflwr cronig, hirdymor, yn hytrach na'r dystiolaeth ddramatig a oedd gennym ar y dechrau pan mai HIV, AIDS a marwolaeth fyddai'r achos wedi bod. Rydym bellach yn sôn am reoli cyflyrau. Bydd materion diddorol eraill hefyd yn datblygu yn y maes iechyd pan fydd hyn yn digwydd, a rhaid inni eu hystyried.

Mae canfyddiadau'r ymchwiliad yn awgrymu bod rhai o'r arferion sy'n cael eu hystyried yn wahaniaethol yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â'r defnydd o weithdrefnau rhagofal cyffredinol, a diffyg profiad o ran gofal HIV, sy'n gysylltiedig â phwynt Dr Lloyd. Mae modd atal hyn, ac rwyf yn awyddus i gymeradwyo argymhellion 4 a 5, sy'n ymwneud â gwella'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r gweithlu meddygol ehangach ar faterion yn ymwneud â HIV ym maes gofal, gan gynnwys cymorth ar gyfer meddygon teulu. Byddaf yn ysgrifennu at fyrddau iechyd lleol i ofyn iddynt weithredu ynghylch hyn.

Yn olaf, ni ddylai unrhyw ddyn, menyw na phlentyn sy'n byw â HIV yng Nghymru orfod ysgwyddo'r baich ychwanegol, sef gwahaniaethu, ar ben eu pryderon iechyd sydd eisoes yn sylweddol. Rwyf wedi ymrwmo i ddileu gwahaniaethu lle bynnag y mae'n bodoli yn y gwasanaeth iechyd. Rwyf yn cymeradwyo'r adroddiad a'r camau gweithredu y mae'n eu hawgrymu. Byddaf yn gwneud datganiad ysgrifenedig fel ymateb

before the Christmas recess.

Ann Jones: I thank the Minister for the way in which she has dealt with this report and for stating that she will provide an update. When we publish committee reports, it is important not just to do the committee report, make recommendations, have the debate and then file the report. I know that you will not allow that to happen, Minister, and that you will carry those options through.

I am very pleased that you have agreed to reconsider the issue of the public campaign. The soap operas do it really well. Soaps like *Coronation Street*, *EastEnders*, *Hollyoaks* or whatever, will often play out any big issue that we have, which is a good way of getting a public message across. I am not advocating that you and I go on the soaps; I think that it will be a long time before we do that. However, that is the key to our report.

It was difficult to take evidence because it was anecdotal evidence, as Dr Dai Lloyd said. I thank Dai for his contribution; it is great when someone other than a committee member speaks in debates, and it gives us a great surge to go on with that. You are right in saying that confidentiality is the problem; and if you suffer, it is difficult to openly talk about those things. I am pleased that you accepted the recommendations of the committee in the spirit in which the committee undertook the review and in a way that allows us to make everyone equal in Wales.

3.30 p.m.

Veronica drew on experiences that you knew of. When we come to do other reports—and possibly the legacy report on this—I am sure that you will have a big contribution to make. However, I thank you for the positive way in which you have responded to this.

pellach gan y Llywodraeth, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yng nghyswllt y mater hwn cyn toriad y Nadolig.

Ann Jones: Diolch i'r Gweinidog am y ffordd y mae wedi ymdrin â'r adroddiad hwn ac am ddweud y bydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf. Pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiadau pwyllgor, mae'n bwysig ein bod yn gwneud mwy na dim ond gwneud adroddiad pwyllgor, gwneud argymhellion, cynnal dadl, a ffeilio'r adroddiad. Gwn na fyddwch yn caniatáu i hynny ddigwydd, Weinidog, ac y byddwch yn sicrhau bod yr opsiynau hynny'n cael eu gwthio i'r terfyn.

Rwyf yn falch iawn eich bod wedi cytuno i ailystyried yr ymgyrch gyhoeddus. Mae'r operâu sebon yn gwneud hyn yn dda iawn. Bydd operâu sebon fel *Coronation Street*, *EastEnders*, *Hollyoaks* neu beth bynnag yn aml yn trafod y materion mawr sydd ger ein bron, sy'n ffordd dda o gyfleu neges gyhoeddus. Nid wyf yn argymhell eich bod chithau a minnau yn ymddangos ar yr operâu sebon; rwyf yn credu y bydd amser maith yn mynd heibio cyn inni wneud hynny. Fodd bynnag, dyna yw allwedd ein hadroddiad.

Roedd yn anodd cael tystiolaeth gan mai tystiolaeth anecdotaidd ydoedd, fel y dywedodd Dr Dai Lloyd. Diolch i Dai am ei gyfraniad; mae'n wych pan fydd rhywun heblaw am aelodau'r pwyllgor yn siarad mewn dadleuon, ac mae'n rhoi hwb mawr inni fwrw ymlaen â hynny. Rydych yn gywir wrth ddweud mai cyfrinachedd yw'r broblem; ac os ydych yn dioddef, mae'n anodd siarad yn agored am y pethau hynny. Rwyf yn falch eich bod wedi derbyn argymhellion y pwyllgor yn yr ysbryd y bu i'r pwyllgor gynnal yr adolygiad ac mewn ffordd sy'n ein galluogi i sicrhau bod pawb yn gyfartal yng Nghymru.

3.30 p.m.

Gwnaeth Veronica dynnu ar brofiadau roeddech yn gwybod amdanynt. Pan ddaw'n amser inni lunio adroddiadau eraill—a'r adroddiad etifeddiaeth ar hyn, o bosibl—rwyf yn siŵr y bydd gennych gyfraniad mawr i'w wneud. Fodd bynnag, rwyf yn diolch ichi am

Mohammad is right to mention where we went and the reports that were produced. It was remiss of me not to thank the committee staff, so, on your behalf, and on everyone's behalf, I thank them. Without the committee secretariat, no report would ever get written. Therefore, we owe a debt of gratitude to them for the way in which they allow us to present these issues. Again, I am grateful to the Minister, and to Plenary, for taking this difficult issue seriously, and for taking it forward in a way that we know will make everyone equal here in Wales.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod y Cynulliad yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.31 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.31 p.m.*

Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fynediad i Ddŵr Mewndirol The Sustainability Committee's Report into Access to Inland Water

Cynnig NDM4541 Kirsty Williams

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Fynediad i Ddŵr Mewndirol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mehefin 2010.

Kirsty Williams: I move the motion.

The motion was tabled by me on behalf of the Sustainability Committee. Before I move to the process and the content of the report, I wish to place on record my thanks to the previous Chairs of the Sustainability Committee, who were responsible for taking this report through the committee—Mick Bates and Mike German. I also wish to thank all members of the committee, past and present, who contributed to the report, as well

y ffordd gadarnhaol rydych wedi ymateb i hyn. Mae'n briodol i Mohammad sôn am ble yr aethom ac am yr adroddiadau a luniwyd. Roeddwn i ar fai wrth beidio â diolch i staff y pwyllgor, felly, ar eich rhan chi, ac ar ran pawb, diolch iddynt. Heb ysgrifenyddiaeth y pwyllgor, ni fyddai yr un adroddiad byth yn cael ei ysgrifennu. Felly, rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am y ffordd y maent yn ein galluogi i gyflwyno'r materion hyn. Unwaith eto, rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog, ac i bawb yn y Cyfarfod Llawn, am ystyried y mater anodd hwn o ddirif, ac am fwrw ymlaen â'r mater mewn ffordd a fydd yn bendant yn sicrhau bod pawb yn gyfartal yma yng Nghymru.

The Presiding Officer: The question is that the Assembly notes the report of the Committee on Equality of Opportunity. Are there any objections? I see that there is no objection. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

Motion NDM4541 Kirsty Williams

That the National Assembly for Wales:

Notes the report of the Sustainability Committee into Access to Inland Water in Wales which was laid in the Table Office on 16 June 2010.

Kirsty Williams: Cynigiau y cynnig.

Cyflwynwyd y cynnig gennyf fi ar ran y Pwyllgor Cynaliadwyedd. Cyn imi symud at y broses a chynnwys yr adroddiad, hoffwn gofnodi fy nioch i Gadeiryddion blaenorol y Pwyllgor Cynaliadwyedd, a oedd yn gyfrifol am fynd â'r adroddiad hwn drwy'r pwyllgor—Mick Bates a Mike German. Hoffwn hefyd ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor, boed yn gyn-aelodau neu'n aelodau presennol, a gyfrannodd at yr adroddiad, yn

as the staff of the Sustainability Committee for their hard work, advice and support in producing the document that we have before us today.

Before I move on to the main recommendations of the committee's report, I wish to say something about the inquiry itself, which was, as I believe my colleagues on the committee will attest, one of the most difficult that we have ever undertaken. The background to the inquiry is a petition from Canoe Wales, calling for a Bill to,

'provide and permit access to and along non-tidal water'.

At its core, this report seeks to address the rights of people to access one of our most valuable natural assets, namely inland waterways. I am told that the committee thought long and hard about whether it wanted to take on the issues raised in the petition, and decided, finally, that it would. However, I do not believe that committee members realised and anticipated at the time the strength of feeling involved with this issue, on both sides of the debate. I believe that they were truly shocked on some occasions by the tone of some of the evidence that was received, as well as by the amount that was received.

From the start of the inquiry, the committee was made aware of the sensitivities surrounding the issues that it was considering, and the entrenched views that were held on this subject. The committee has tried, throughout the inquiry, to ensure that everyone with an interest in the issues around access to inland water had a fair and equal chance to put their views to committee. The committee agreed at the start of the inquiry that it would look at all the evidence that was given to it in an objective and open minded way, and would not come to the inquiry with any preconceived ideas. This has been a difficult inquiry to complete because of the complex issues that it raises. The committee spent a long time considering its work; indeed, it took nearly 12 months for the committee to produce this report. It took that time to ensure that the recommendations that we are making and highlighting today are fair

ogystal â staff y Pwyllgor Cynaliadwyedd am eu gwaith caled, eu cyngor a'u cymorth wrth gynhyrchu'r ddogfen sydd ger ein bron heddiw.

Cyn imi symud ymlaen at brif argymhellion adroddiad y pwyllgor, rwyf am ddweud rhywbeth ynglŷn â'r ymchwiliad ei hun, a oedd yn un o'r ymchwiliadau mwyaf anodd inni ymgymryd ag ef erioed, ac rwyf yn siŵr y bydd fy nghyd-Aelodau ar y pwyllgor yn cytuno. Cefndir yr ymchwiliad yw deiseb gan Canw Cymru, yn galw am Fil i,

'ddarparu a chaniatáu mynediad i ddŵr dilanw ac ar ei hyd'.

Yn ei graidd, mae'r adroddiad hwn yn ceisio mynd i'r afael â hawliau pobl i gael mynediad i un o'n hasedau naturiol mwyaf gwerthfawr, sef dyfrffyrdd mewndirol. Dywedir wrthyf fod y pwyllgor wedi meddwl o ddifrif a oedd am fynd i'r afael â'r materion a oedd yn cael eu codi yn y ddeiseb, ac yn y pen draw, gwnaeth y pwyllgor benderfynu y byddai. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod aelodau'r pwyllgor, yr adeg honno, wedi sylweddoli na rhagweld pa mor gryf roedd pobl yn teimlo ynglŷn â'r mater hwn, ar ddwy ochr y ddadl. Rwyf yn credu eu bod wirioneddol wedi eu synnu ar rai adegau gan naws rhywfaint o'r dystiolaeth a dderbyniwyd, yn ogystal â chan swmp y dystiolaeth a dderbyniwyd.

O ddechrau cyntaf yr ymchwiliad, rhoddwyd gwybod i'r pwyllgor am y materion sensitif a oedd yn gysylltiedig â'r materion roedd yn eu hystyried, a'r safbwyntiau cadarn a oedd gan bobl ynglŷn â'r pwnc hwn. Trwy gydol yr ymchwiliad, mae'r pwyllgor wedi ceisio sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn y materion sy'n gysylltiedig â mynediad i ddŵr mewndirol wedi cael cyfle teg a chyfartal i roi eu barn gerbron y pwyllgor. Ar ddechrau'r ymchwiliad, cytunodd y pwyllgor y byddai'n edrych ar yr holl dystiolaeth a roddwyd iddo mewn ffordd wrthrychol, gan gadw meddwl agored, ac na fyddai'n dod at yr ymchwiliad gydag unrhyw syniadau rhagdybiedig. Mae wedi bod yn ymchwiliad anodd ei gwblhau oherwydd y materion cymhleth mae'n eu codi. Treuliodd y pwyllgor lawer o amser yn ystyried ei waith; yn wir, cymerodd bron i 12 mis i lunio'r adroddiad hwn. Cymerodd yr amser hwnnw er mwyn sicrhau bod yr

and workable, and provide a long-term solution to the issues raised.

I wish to take this opportunity, on behalf of the committee, to thank all those who gave evidence. It was the largest body of evidence that the committee has ever received, with over 600 people submitting written evidence, 200 giving their comments on camera at the Assembly bus, and 35 witnesses appearing before the committee in formal evidence sessions. The majority of the evidence that was received pointed to the fact that the situation as it exists, namely that access along non-tidal water is illegal without the permission of the owner or owners of the river bed, is unsatisfactory to many of those who own the riverbed, have rights over it, and to those who use the water.

Although there were many claims that the legislation regarding access to water in Wales is unclear and unproven, there were just as many claims that the legal situation is clear and well-defined. Our own lawyers were able to clarify the situation for us, but the fact remains that many people feel confused by the legal status of water access. However, it is clear that demand for water-based recreation is growing and that the potential for conflict between users and landowners is likely to increase as well. The evidence that we received pointed clearly to the fact that the current situation regarding access to inland water is not sustainable, and that clear direction needs to be given to land owners and recreational users on ways to move forward.

It is important to note that the committee believed that free and open access to all inland water in Wales, called for by Canoe Wales, is not appropriate or feasible. The committee also did not come to the conclusion that the Scottish model, brought about by the Land Reform (Scotland) Act 2003, would work well in Wales for a variety of reasons, including the different legislative background and practice that has historically existed relating to access in Scotland.

argymhellion rydym yn eu gwneud ac yn tynnu sylw atynt heddiw yn deg ac yn ymarferol, ac yn ateb hirdymor i'r materion a godwyd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn, ar ran y pwyllgor, i ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth. Dyma oedd y casgliad mwyaf o dystiolaeth y mae'r pwyllgor erioed wedi ei dderbyn, wrth i dros 600 o bobl gyflwyno dystiolaeth ysgrifenedig, 200 o bobl roi eu sylwadau ar gamera ar fws y Cynulliad, a 35 o dystion ymddangos gerbron y pwyllgor mewn sesiynau dystiolaeth ffurfiol. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa fel y mae'n bodoli, sef bod mynediad ar hyd dŵr di-lanw yn anghyfreithlon heb ganiatâd y perchennog neu berchnogion y gwely afon, yn anfodddhaol i lawer o'r rheini sy'n berchen ar wely'r afon, sydd â hawliau drosto, ac i'r rheini sy'n defnyddio'r dŵr.

Er bod llawer yn honni bod y ddeddfwriaeth o ran mynediad i ddŵr yng Nghymru yn aneglur a heb ei brofi, roedd cynifer yn honni bod y sefyllfa gyfreithiol yn glir ac wedi'i diffinio'n dda. Roedd ein cyfreithwyr ninnau'n gallu egluro'r sefyllfa inni, ond mae'n dal yn ffaith bod llawer o bobl yn teimlo bod statws cyfreithiol mynediad i ddŵr yn eu drysu. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y galw am weithgareddau hamdden dŵr yn cynyddu a bod y posibilrwydd o wrthdaro rhwng defnyddwyr a thirfeddianwyr yn debygol o gynyddu hefyd. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn pwyntio'n glir at y ffaith nad yw'r sefyllfa bresennol o ran mynediad i ddŵr mewndirol yn gynaliadwy, a bod angen rhoi cyfarwyddyd clir i berchnogion tir a defnyddwyr hamdden ynglŷn â ffyrdd o symud ymlaen.

Mae'n bwysig nodi bod y pwyllgor o'r farn nad yw mynediad agored, am ddim, i holl ddŵr mewndirol Cymru, fel y gelwir amdano gan Canw Cymru, yn briodol nac yn ymarferol. Ni ddaeth y pwyllgor ychwaith i'r casgliad y byddai model yr Alban, a ddaeth yn sgîl Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003, yn gweithio'n dda yng Nghymru am amrywiol resymau, gan gynnwys y cefndir deddfwriaethol ac arferion gwahanol sydd wedi bodoli'n hanesyddol o ran mynediad yn

However, we do believe that access agreements are the way forward in Wales, and that is why they form the basis of our recommendations in the report.

The committee decided that access agreements are not appropriate or required on all stretches of inland water, and that our recommendation on agreements should only apply to those stretches where there is currently, or where there is potential for there to be, high levels of usage by different users. Our recommendations fall broadly into two categories: what we can do under our current powers, and what can be done with further legislative powers in this area.

Currently, the committee is recommending that the Minister increases her encouragement of the establishment of voluntary access agreements, and that land and water owned by bodies such as the Forestry Commission, the National Trust and local authorities should be used to set up pilot agreements. We are also recommending that, unlike agreements that have existed in the past, the agreement should be for the landowner to grant access to everyone after consultation with all users, rather than agreements having to be reached with several different groups at once. These agreements would be underpinned by a national code of access that clearly states the rights and responsibilities of landowners and water users. The agreements would also include statements of any restrictions on the use of the water, whether that be particular times of year or the state of the water and so on. We have also recommended that access to inland water across land and the provision of facilities such as car parking should be included in the Government's new Glastir arrangements.

While we are sure that these voluntary agreements will prove successful on land owned by public bodies, we feel that this is only an interim measure and that legislation is needed to ensure that agreements are brokered in the most equitable way possible, and that all parties are able to have an equal voice in the negotiations around access. We are therefore recommending legislation to set up a designated body that will identify where

yr Alban. Fodd bynnag, rydym yn credu mai cytundebau mynediad yw'r ffordd ymlaen yng Nghymru, a dyna pam eu bod yn sail i'n hargymhellion yn yr adroddiad.

Penderfynodd y pwyllgor nad yw cytundebau mynediad yn briodol ac nad oes eu hangen ar bob darn o ddŵr mewndirol, ac mai dim ond i'r darnau hynny y defnyddir llawer arnynt gan wahanol ddefnyddwyr ar hyn o bryd, neu y mae'n bosibl y defnyddir llawer arnynt, y dylai ein hargymhellion ar gytundebau fod yn berthnasol. Mae ein hargymhellion yn rhannu'n fras i ddau gategori: yr hyn y gallwn ei wneud o dan ein pwerau presennol, a'r hyn y gellir ei wneud gyda rhagor o bwerau deddfwriaethol yn y maes hwn.

Ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn cynyddu ei hymdrechion i hybu sefydlu cytundebau mynediad gwirfoddol, ac y dylai tir a dŵr sy'n eiddo i gyrff fel y Comisiwn Coedwigaeth, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol gael eu defnyddio i sefydlu cytundebau peilot. Yn wahanol i gytundebau sydd wedi bodoli yn y gorffennol, rydym hefyd yn argymhell y dylai'r cytundeb sicrhau mai'r tirlfeddiannwr sy'n caniatáu mynediad i bawb ar ôl ymgynghori â'r holl ddefnyddwyr, yn hytrach na gorfod dod i gytundeb gyda nifer o wahanol grwpiau ar yr un pryd. Byddai cod mynediad cenedlaethol sy'n nodi hawliau a chyfrifoldebau tirlfeddiannwyr a defnyddwyr dŵr yn glir yn sail i'r cytundebau hyn. Byddai'r cytundebau hefyd yn cynnwys datganiadau o unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r dŵr, boed hynny yn adegau penodol o'r flwyddyn neu gyflwr y dŵr ac ati. Rydym wedi argymhell hefyd y dylai mynediad i ddŵr mewndirol ar draws tir a darparu cyfleusterau fel meysydd parcio gael eu cynnwys yn nhrefniadau Glastir newydd y Llywodraeth.

Er ein bod yn sicr y bydd y cytundebau gwirfoddol hyn yn llwyddiannus ar dir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus, rydym yn teimlo mai dim ond mesur dros dro yw hyn, a bod angen deddfwriaeth i sicrhau bod cytundebau yn cael eu creu yn y ffordd fwyaf teg posibl, ac i sicrhau bod gan bob parti lais cyfartal yn y trafodaethau ynghylch mynediad. Felly, rydym yn argymhell sicrhau deddfwriaeth i sefydlu corff dynodedig a fydd yn canfod lle

agreements are needed and broker those agreements. While we believe that the majority of appropriate inland water will be covered by agreement, we are recommending that if, after a period of time, no access agreement can be negotiated, the said designated body should have the powers to impose a right of access.

We believe that these recommendations, coupled with requirements for their environmental impact to be monitored and for the establishment of a licensing system for unpowered craft, similar to that which already exists for water owned by British Waterways, will resolve many of the issues that were highlighted during this lengthy inquiry.

While we are pleased that the Minister has accepted some of our recommendations, we are extremely disappointed that others have been rejected. Although she has accepted our recommendation on encouraging the setup of access agreements on land owned by public bodies and bodies such as the National Trust, it is disappointing in the extreme that the Minister does not consider that the type of access agreements outlined in our report needs to be piloted. In the absence of support for that approach, she has not offered an alternative approach to deal with this situation.

3.40 p.m.

We are also disappointed that it was felt that the Glastir scheme was unsuitable to fund access to inland waterways and associated facilities. We urge the Minister, in conjunction with her Cabinet colleagues, to look at other sources of funding in the rural development plan to enable these facilities to be put in place.

It has not been possible to please all those who gave evidence to this inquiry. Undoubtedly, some think that we have gone too far, while others think that we have not gone far enough. However, we were seeking solutions that would stand the test of time and we believe that the 13 recommendations that we have made offer a solution to the issues raised during the inquiry. There are no quick fixes. It will take time, patience, a lot

mae angen cytundebau ac yn creu'r cytundebau hynny. Er ein bod yn credu y bydd y rhan fwyaf o'r dŵr mewndirol priodol yn cael ei gynnwys mewn cytundeb, os na ellir trafod cytundeb mynediad ar ôl cyfnod o amser, rydym yn argymhell y dylai'r corff dynodedig dan sylw fod â'r pwerau i orchymyn hawl mynediad.

Credwn y bydd yr argymhellion hyn, ynghyd â'r gofyniad bod eu heffaith amgylcheddol yn cael ei monitro a'r gofyniad i sefydlu system drwyddedu ar gyfer cychod heb fodur, sy'n debyg i'r hyn sydd eisoes yn bodoli ar gyfer dŵr sy'n eiddo i Ddyfrffyrdd Prydain, yn datrys llawer o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr ymchwiliad hir hwn.

Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn rhai o'n hargymhellion, ond rydym yn siomedig iawn bod argymhellion eraill wedi cael eu gwrthod. Er ei bod wedi derbyn ein hargymhelliad i hybu sefydlu cytundebau mynediad i dir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus a chyrrff fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae'n hynod siomedig nad yw'r Gweinidog yn ystyried bod angen treialu'r math o gytundebau mynediad a amlinellir yn ein hadroddiad. Er nad yw'n cefnogi'r dull hwnnw, nid yw wedi cynnig dull arall o ddelio â'r sefyllfa hon.

3.40 p.m.

Rydym hefyd yn siomedig y teimlir nad oedd cynllun Glastir yn addas ar gyfer ariannu mynediad i ddyfrffyrdd mewndirol a chyfleusterau cysylltiedig. Rydym yn annog y Gweinidog, ar y cyd â'i chyd-Weinidogion yn y Cabinet, i edrych ar ffynonellau ariannu eraill yn y cynllun datblygu gwledig er mwyn i'r cyfleusterau hyn allu cael eu rhoi ar waith.

Nid yw wedi bod yn bosibl bodloni pawb a roddodd dystiolaeth yn yr ymchwiliad hwn. Heb os, mae rhai'n credu ein bod wedi mynd yn rhy bell, ac eraill yn credu nad ydym wedi mynd yn ddigon pell. Fodd bynnag, roeddem yn chwilio am atebion hirdymor ac rydym yn credu bod y 13 o argymhellion rydym wedi eu gwneud yn cynnig ateb i'r materion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad. Nid oes unrhyw atebion cyflym. Bydd yn cymryd

of hard work, goodwill and co-operation to get it right. If the full suite of recommendations were taken forward, Wales could offer outdoor, healthy recreation based on and around our many fantastic rivers and lakes, not only to the citizens of Wales, but to an increasing number of visitors from across the world.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I thank the Sustainability Committee for its work on the inquiry into access to inland water. The inquiry has helped to draw attention to the many benefits of increasing access opportunities and has helped focus discussion on the way forward. I am certainly not aware of another committee that has had three Ministers address it, as this committee did when it looked at this issue.

The findings and recommendations of the committee were not entirely unexpected, because, as a Government, we had recently consulted many of those interested in this subject during the development of our water-related recreation strategy, and we continue to engage with key representatives at round-table meetings. Therefore, we know that our approach has been welcomed by stakeholders. It is important that it is based on sound research and dialogue, and is focused on the areas that can deliver the greatest benefit. Creating new opportunities by encouraging local access agreements remains our priority.

We have explained in our response to the committee our views on the appropriateness and feasibility of introducing new legislation in this area and are in agreement with the committee that this is a matter for the medium to long term, depending on the success of the current approach. There may be an opportunity, following the referendum, to determine how that might be taken forward. To drive forward the current approach and to encourage consensus on access to water, we have established round-table meetings, which I chair. More recently, a sub-group of the round table has been established to facilitate local agreements. We

amser, amynedd, llawer o waith caled, ewyllys da a chydweithio i gael pethau'n iawn. Pe bai'r gyfres lawn o argymhellion yn cael eu datblygu, gallai Cymru gynnig gweithgareddau hamdden awyr agored, iach, ar ein hafonydd a'n llynnoedd penigamp niferus ac o'u hamgylch, nid yn unig i ddinasyddion Cymru, ond i nifer cynyddol o ymwelwyr o bedwar ban y byd.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Diolch i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd am ei waith ar yr ymchwiliad i fynediad i ddŵr mewndirol. Mae'r ymchwiliad wedi helpu i dynnu sylw at fanteision niferus cynyddu'r cyfleoedd mynediad, ac mae wedi helpu i ganolbwyntio'r drafodaeth ar y ffordd ymlaen. Yn sicr, nid wyf yn gwybod am bwyllgor arall y mae tri Gweinidog wedi rhoi sylw iddo, fel y nachos y pwyllgor hwn wrth iddo edrych ar y mater hwn.

Nid oedd canfyddiadau ac argymhellion y pwyllgor yn gwbl annisgwyl, oherwydd, fel Llywodraeth, roeddem wedi ymgynghori yn ddiweddar gyda llawer o'r rheini sydd â diddordeb yn y pwnc hwn yn ystod proses ddatblygu ein strategaeth hamdden dŵr, ac rydym yn parhau i ymgysylltu â chynrychiolwyr allweddol mewn cyfarfodydd o amgylch y bwrdd. Felly, rydym yn gwybod bod ein dull o weithredu wedi cael ei groesawu gan randdeiliaid. Mae'n bwysig ei fod yn seiliedig ar ddeialog ac ymchwil gadarn, ac yn canolbwyntio ar y meysydd a all sicrhau'r budd mwyaf. Creu cyfleoedd newydd drwy hybu cytundebau mynediad lleol yw ein blaenoriaeth o hyd.

Yn ein hymateb i'r pwyllgor, rydym wedi egluro ein barn ar pa mor briodol ac ymarferol yw cyflwyno deddfwriaeth newydd yn y maes hwn ac yn cytuno â'r pwyllgor bod hwn yn fater ar gyfer y tymor canolig neu'r tymor hir, gan ddibynnu ar lwyddiant y dull presennol o weithredu. Efallai y bydd cyfle, yn dilyn y refferendwm, i benderfynu sut y gellid bwrw ymlaen â hynny. Er mwyn bwrw ymlaen â'r dull presennol o weithredu ac annog consensws ar fynediad i ddŵr, rydym wedi sefydlu cyfarfodydd o amgylch y bwrdd, cyfarfodydd rwyf fi yn eu cadeirio. Yn fwy diweddar, sefydlwyd is-grŵp y cyfarfodydd o amgylch y bwrdd er mwyn

have also provided in excess of £1.2 million over three years to support practical action to increase access, which has supported 57 projects throughout Wales so far.

We are in complete agreement with the committee on the provision of adequate information to the public. We are currently working on an internet-based map of existing water-related recreation opportunities, and the Countryside Council for Wales is also establishing a small working group to create a code of conduct on access to water that will be published and promoted by the end of this financial year.

As the Chair of the committee has said, there are certain areas on which we do not feel that we can agree wholly with the committee. We do not believe that licensing all unpowered craft is a feasible measure to implement. Not only would the initial outlay be significant, but enforcement would be disproportionately costly and might also deter participation by the less frequent user.

There is the matter of Glastir and the inclusion of provisions in the higher level scheme. As an Assembly Government, we were keen to include this originally, but we had to concede that, based on legal advice, it did not fall within the conditions set down by Europe. We are continuing to look at other avenues of European funding, for example, under axis 3. It is also important that we all understand that there are a number of interests, from angling, land-owning and canoeing, that have put on hold or otherwise slowed down potential projects since the Petitions Committee first agreed to undertake an inquiry. Since then, the potential introduction of new legislation has, depending on their point of view, either encouraged or alarmed those with an interest in the inquiry and this debate.

We do not want uncertainty over this to lead to inaction, and so we have sought to be clear as a Government that there are no plans to introduce legislation at this time. I have made it clear today, and in my response to the committee, that current policy will be evaluated according to the extent, quality, security and clarity of access opportunities.

hwyluso cytundebau lleol. Rydym hefyd wedi darparu dros £1.2 miliwn dros dair blynedd i gefnogi camau ymarferol i gynyddu mynediad, sydd wedi cefnogi 57 o brosiectau ledled Cymru hyd yma.

O ran darparu digon o wybodaeth i'r cyhoedd, rydym yn cytuno'n llwyr â'r pwyllgor. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ddarparu map ar y rhyngwrdd o gyfleoedd hamdden dŵr sydd ar gael ar hyn o bryd, ac mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn sefydlu gweithgor bychan i greu cod ymddygiad ar fynediad i ddŵr a fydd yn cael ei gyhoeddi a'i hyrwyddo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Fel y mae Cadeirydd y pwyllgor wedi dweud, mae rhai meysydd lle nad ydym yn teimlo y gallwn gytuno â'r pwyllgor yn llwyr. Nid ydym yn credu bod trwyddedu pob cwch heb fodur yn fesur ymarferol ei weithredu. Byddai'r gost gychwynnol yn sylweddol, a byddai mesurau gorfodi hefyd yn rhy gostus. Gallai hefyd atal defnyddwyr llai rheolaidd rhag cymryd rhan.

Mae Glastir a chynnwys darpariaethau yn y cynllun lefel uwch yn faterion pwysig hefyd. Fel Llywodraeth y Cynulliad, roeddem yn awyddus i gynnwys hyn yn wreiddiol, ond ar sail cyngor cyfreithiol, roedd yn rhaid inni dderbyn nad oedd hyn yn rhan o'r amodau a osodwyd gan Ewrop. Rydym yn parhau i edrych ar lwybrau eraill o ran arian Ewropeaidd, er enghraifft, o dan echel 3. Mae hefyd yn bwysig bod pob un ohonom yn deall y ceir nifer o ddiddordebau, fel pysgota, tir-berchen a chanŵio, sydd wedi peri i brosiectau posibl gael eu hatal neu eu gohirio ers i'r Pwyllgor Deisebau gytuno gyntaf i gynnal ymchwiliad. Ers hynny, mae'r posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth newydd wedi naill ai annog neu ddychryn y rheini sydd â diddordeb yn yr ymchwiliad ac yn y ddadl hon, yn dibynnu ar eu safbwynt.

Nid ydym am i ansicrwydd ynglŷn â hyn arwain at ddiffyg gweithredu, felly rydym wedi ceisio bod yn glir fel Llywodraeth nad oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth ar hyn o bryd. Rwyf wedi egluro heddiw, ac yn fy ymateb i'r pwyllgor, y bydd polisi cyfredol yn cael ei werthuso yn ôl graddau, ansawdd, diogelwch ac eglurder

Such a review will mean that a future Assembly Government will be in an excellent position to determine the need for legislation. We believe that a line should now be drawn under this so that we can all focus on moving forward with local access agreements.

I now want to hear contributions from other Members before I say a little more, later in the debate.

Angela Burns: I welcome the opportunity to speak on this report from the Sustainability Committee, having been one of the Members involved from the beginning. It is important to make clear that the Sustainability Committee looked at this issue afresh; we did not simply carry on from the Petitions Committee's report. I also believe that all members of the Sustainability Committee went into the inquiry with an open mind.

During the gathering of evidence, the inquiry received more responses than for any other that we have conducted, and it is fair to say that, at times, witnesses' feelings ran high on both sides of the debate. Therefore, I thank the clerking team and the previous Chairs, Mike German and Mick Bates, for their enormous amount of work and for the steer that they gave to this inquiry.

When we looked at all the responses, it was clear that only a limited number of issues was involved. We may have had 8,000 or 16,000 signatures, and more than 400 responses, but the issues outstanding were fairly simple. I believe that the committee addressed them all in its recommendations. We quickly came to the conclusion that the status quo cannot continue, and we took that into account in our thinking. The popularity of water sports is increasing, and therefore the competition for access to Wales's rivers is becoming harder. The anglers and the clubs who have paid for rod licences and river conservation for decades have legitimate concerns, and the current state of affairs, with antagonism and conflict between the groups, cannot be allowed to continue. The Welsh Conservatives welcome the Welsh Assembly Government's acceptance, in full or in part, of many of the 13 recommendations. For my

cyfleoedd mynediad. Bydd adolygiad o'r fath yn golygu y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol mewn sefyllfa ardderchog i benderfynu ar yr angen am ddeddfwriaeth. Credwn y dylid tynnu llinell o dan y mater hwn yn awr fel y gall pawb ganolbwyntio ar fwrw ymlaen â chytundebau mynediad lleol.

Rwyf nawr am glywed cyfraniadau gan Aelodau eraill cyn imi ddweud rhagor, yn ddiweddarach yn y ddadl.

Angela Burns: Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad am yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd, gan fy mod yn un o'r Aelodau a fu'n cymryd rhan o'r cychwyn cyntaf. Mae'n bwysig egluro bod y Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi edrych ar y mater hwn o'r newydd; ni wnaethom barhau'n syml ag adroddiad y Pwyllgor Deisebau. Rwyf hefyd yn credu bod pob un o aelodau'r Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi ymgymryd â'r ymchwiliad gyda meddwl agored.

Yn ystod y broses casglu tystiolaeth, cafodd yr ymchwiliad fwy o ymatebion nag unrhyw ymchwiliad arall rydym wedi ei gynnal, ac mae'n deg dweud, ar adegau, bod teimladau tystion yn berwi ar y ddwy ochr. Felly, hoffwn ddiolch i'r tîm clericio a'r cyn-Gadeiryddion, Mike German a Mick Bates, am eu gwaith caled iawn ac am y ffordd maent wedi llywio'r ymchwiliad hwn.

Wrth inni edrych ar yr holl ymatebion, roedd yn amlwg mai dim ond nifer gyfyngedig o faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Efallai ein bod wedi cael 8,000 neu 16,000 o lofnodion, a mwy na 400 o ymatebion, ond roedd y materion i'w trafod yn eithaf syml. Credaf fod y pwyllgor wedi rhoi sylw i bob un ohonynt yn ei argymhellion. Daethom yn fuan i'r casgliad na all y sefyllfa bresennol barhau, a gwnaethom ystyried hynny wrth droi ein meddyliau at hyn. Mae chwaraeon dŵr yn prysur fynd yn fwyfwy poblogaidd, ac felly mae'r gystadleuaeth am fynediad i afonydd Cymru yn mynd yn galetach. Mae pryderon dilys gan y pysgotwyr a'r clybiau sydd wedi talu am drwyddedau gwialen a chadwraeth afonydd ers degawdau, ac ni ellir caniatáu i'r sefyllfa sydd ohoni barhau, gan fod cymaint o elyniaeth a gwrthdaro rhwng y grwpiau. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad

part, I am delighted by the commitment to support and promote voluntary access agreements, following recommendation 1, and legislation to pursue that, following recommendations 5 to 8.

Other good recommendations include producing a national code of conduct giving clear rights and responsibilities to all users and landowners, and providing a website with clear and up-to-date information about which stretches of water are accessible. I am pleased to see that they have been accepted. However, I regret that a national licensing system for unpowered craft, which featured in recommendations 9 and 10, was rejected. That would also have dealt with the licensing and registration of not-for-profit companies that operate on the water. My concern, and that of my colleagues, is that without licensing and identification, the enforcement action for unlawful behaviour will become difficult. Voluntary regulation is always something to strive for but, in this emotionally charged situation, I believe that it could become hit and miss.

I see that my time is almost up, so I will close on a personal note. I urge all those who love Wales and our waters and who wish to enjoy them to use this report, which was reached with cross-party and unbiased opinion, as a method of drawing a line under all the previous hurt and conflict. That way, we can all move forward in a constructive, collaborative and cogent manner to use our waters for the benefit of all, without one group's wishes, desires and enjoyment overriding those of another.

3.50 p.m.

Brian Gibbons: The Chair of the committee summed it up in her contribution. This may be an area where fools rush in and where wise men fear to tread. The move by the Petitions Committee may have been one of the wisest of all: asking someone else to take a detailed look at the subject. I am glad, as Angela said in her contribution, as did the

Cymru wedi derbyn, yn llawn neu'n rhannol, nifer o'r 13 argymhelliad. Yn bersonol, braf iawn yw gweld yr ymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo cytundebau mynediad gwirfoddol, yn dilyn argymhelliad 1, a deddfwriaeth i fwrw ymlaen â hynny, yn dilyn argymhellion 5 i 8.

Mae argymhellion da eraill yn cynnwys creu cod ymddygiad cenedlaethol sy'n rhoi hawliau a chyfrifoldebau clir i'r holl ddefnyddwyr a pherchnogion tir, a darparu gwefan gyda gwybodaeth glir a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â pha ddarnau o ddŵr y mae modd cael mynediad iddynt. Rwyf yn falch o weld eu bod wedi cael eu derbyn. Fodd bynnag, rwyf yn gresynu wrth y ffaith bod system drwyddedu genedlaethol ar gyfer cychod heb fodur, a oedd yn rhan o argymhellion 9 a 10, wedi cael ei gwrthod. Byddai hynny hefyd wedi ymdrin â thrwyddedu a chofrestru cwmnïau dielw sy'n gweithredu ar y dŵr. Rwyf fi, a fy nghyd-Aelodau, yn pryderu y bydd y camau gorfodi ar gyfer ymddygiad anghyfreithlon yn dod yn anodd heb drwyddedau na dogfennau adnabod. Mae proses o reoleiddio gwirfoddol bob amser yn rhywbeth i ymdrechu ar ei gyfer, ond, yn y sefyllfa emosiynol hon, credaf y gallai fod yn broses hap a damwain.

Gwelaf fod fy amser bron ar ben, felly rwyf am gloi ar nodyn personol. Rwyf yn erfyn ar bawb sy'n caru Cymru a'n dyfroedd, ac sy'n dymuno eu mwynhau, i ddefnyddio'r adroddiad hwn, a gafodd ei lunio yn ôl barn drawsbleidiol a diduedd, fel dull o dynnu llinell o dan yr holl boen a gwrthdaro blaenorol. Drwy wneud hynny, gallwn ni i gyd symud ymlaen mewn modd adeiladol, cydweithredol a chryf a defnyddio ein dyfroedd er budd i bawb, heb i ddymuniadau, dyheadau a mwynhad un grŵp fod yn bwysicach na rhai grwpiau eraill.

3.50 p.m.

Brian Gibbons: Gwnaeth Cadeirydd y pwyllgor grynhoi popeth yn ei chyfraniad. Efallai fod hyn yn faes lle mae ffyliaid yn rhuthro i mewn a lle mae dynion doeth yn ofni troedio. Mae'n bosibl mai'r dewis doethaf un oedd dewis y Pwyllgor Deisebau: gofyn i rywun arall edrych yn fanwl ar y pwnc. Fel y dywedodd Angela yn ei

Chair, that the committee's approach was to take a fresh look with no preconditions or preconceptions. When reading the report, you certainly get a feel for the difficulties that the committee faced in trying to come up with a fair and just solution. There is goodwill on both sides of this argument, even though it generates strong and passionate views—quite intemperate at times. However, there is enough goodwill on all sides to provide a way forward.

I approach this debate from the perspective of my engagement with the Afan Valley Angling Club in my constituency. It is a long-standing engagement that has been very constructive. Indeed, I was proud to accept honorary life membership at the club's last annual general meeting. Therefore, I do not think that it would be fair or correct for me to come to this debate from the perspective of both parties having equally legitimate interests. That is not the basis on which this issue should be resolved. Angela is right in saying that the engagement with the rivers of Wales, particularly by the angling fraternity, is about more than the mere use of those rivers. Anglers have been investing and developing the river resource here in Wales for well over 100 years in some instances, and we must recognise that. The Afan Valley Angling Club has been in existence for over 50 years, and its initial work involved going to the coal board and to the steel companies in my constituency to express concern about the quality of the environment and the water. Indeed, in some respects, its members were the original eco-warriors. I can imagine them going to those big industries and being treated as somewhat odd, worrying about the quality of the water when, economically, so much depended on those industries. Many of the people who made up those angling committees were steelworkers and coal miners themselves, and they still remain at the heart of the angling club. However, the anglers persisted and, indeed, prevailed because, in September 1998, thanks to their work, in partnership with others, the first salmon in 150 years was caught in the Afan river, by Colin Walton. For people who doubt the veracity of what I am saying, that same salmon is on display in the lobby of Neath

chyfraniad, ac fel y dywedodd y Cadeirydd, rwyf finnau hefyd yn falch mai dull y pwyllgor o weithredu oedd edrych o'r newydd, heb unrhyw rag-amodau na rhagdybiaethau. Wrth ddarllen yr adroddiad, rydych yn bendant yn cael blas ar yr anawsterau a wynebier gan y pwyllgor wrth geisio meddwl am ateb teg a chyfiawn. Ceir ewyllys da ar ddwy ochr y ddadl hon, er ei bod yn ysgogi safbwyntiau cryf ac angerddol—eithafol ar brydiau. Fodd bynnag, mae digon o ewyllys da ar bob ochr i sicrhau ffordd ymlaen.

Rwyf yn dod at y ddadl hon o safbwynt fy ymgysylltiad â Chlwb Pysgota Cwm Afan yn fy etholaeth. Mae'n ymgysylltiad hirsefydlog sydd wedi bod yn adeiladol iawn. Yn wir, roeddwn yn falch iawn o dderbyn aelodaeth oes er anrhydedd yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf y clwb. Felly, nid wyf yn meddwl y byddai'n deg nac yn iawn imi ddod at y ddadl hon o'r safbwynt bod buddiannau'r ddwy ochr yr un mor ddilys â'i gilydd. Ni ddylai'r mater hwn gael ei ddatrys ar y sail honno. Mae Angela yn llygad ei lle wrth ddweud bod ymgysylltiad ag afonydd Cymru, yn enwedig gan y frawdoliaeth pysgota, yn golygu mwy na dim ond defnyddio'r afonydd hynny. Mae pysgotwyr wedi bod yn buddsoddi ac yn datblygu adnodd yr afonydd yma yng Nghymru ers dros 100 o flynyddoedd mewn rhai achosion, a rhaid inni gydnabod hynny. Mae Clwb Pysgota Cwm Afan wedi bodoli ers dros 50 o flynyddoedd, ac roedd ei waith cychwynnol yn cynnwys mynd at y bwrdd glo ac at y cwmnïau dur yn fy etholaeth i fynegi pryder am ansawdd yr amgylchedd a'r dŵr. Yn wir, mewn rhai ffyrdd, ei aelodau oedd yr ecoryfelwyr gwreiddiol. Gallaf eu dychmygu yn mynd at y diwydiannau mawr hynny ac yn cael eu trin fel rhywrai a oedd braidd yn od, yn poeni am ansawdd y dŵr pan, yn economaidd, roedd cymaint yn dibynnu ar y diwydiannau hynny. Roedd llawer o'r bobl a oedd ar y pwyllgorau pysgota hynny yn weithwyr dur ac yn lowyr eu hunain, ac maent yn dal i fod wrth galon y clwb pysgota. Fodd bynnag, bu i'r pysgotwyr ddal ati, ac yn wir, gwnaethant ennill oherwydd ym mis Medi 1998, diolch i'w gwaith hwy, mewn partneriaeth ag eraill, daliodd Colin Walton yr eog cyntaf ers 150 o flynyddoedd yn afon Afan. I'r bobl sy'n amau dilysrwydd yr hyn

Port Talbot's civic buildings in Port Talbot. That salmon is the embodiment of the anglers' work, and it is evidence that they cannot be treated as mere users of the water. Their investment has been significant, which must be acknowledged in any discussions or resolution.

I accept that there are other reasonable demands for the use of the waterways of Wales, but I do not think that the dispute can be resolved on the basis of giving all users unconditional or unqualified access to the waters. That would simply not be acceptable. Many of the recommendations of the committee and the Minister suggest that there is a constructive way forward, and the Minister's announcement of a code of conduct in the not too distant future is a part of conditional and regulated access to the waters of Wales. If we build on the goodwill, we may be able to address this issue.

Finally, I am not convinced that the requirement for licensing or for membership of some organisation should not be the basis on which people access the waterways. Many people can avail themselves of certain facilities only on condition of membership or licensing, and I think that that should apply in this case. Intermittent use should not be a reason to oblige individuals or organisations not to be members of a club or to partake in activities in a regulated way.

Darren Millar: I am also pleased to participate in this debate and to congratulate the committee on its work. It was a difficult process. I know very well about the work that the committee did in coming up with the recommendations. I also know all too well from my own experience in my own constituency of the challenges and conflicts that sometimes arise between people who want to use our inland waters for different recreational purposes.

We have some fantastic inland waterways, and that is one reason why people come to enjoy recreational activities on them. We should be proud of them and we should recognise that in this debate. Our inland

rwyf yn ei ddweud, mae'r eog hwnnw yn cael ei arddangos yng nghyntedd adeiladau dinesig Castell-nedd Port Talbot ym Mhort Talbot. Mae'r eog hwnnw yn ymgorfforiad o waith y pysgotwyr, ac mae'n dystiolaeth na ellir eu trin fel defnyddwyr y dŵr yn unig. Mae eu buddsoddiad wedi bod yn sylweddol, ac mae'n rhaid cydnabod hyn mewn unrhyw drafodaethau neu benderfyniad.

Rwyf yn derbyn bod galw rhesymol arall dros ddefnyddio dyfrffyrdd Cymru, ond nid wyf yn credu y gellir datrys yr anghydfod ar sail rhoi mynediad diamod i'r dyfroedd, nad oes rhaid bod yn gymwys i'w gael, i bob defnyddiwr. Yn syml, ni fyddai hynny'n dderbyniol. Mae llawer o argymhellion y pwyllgor a'r Gweinidog yn awgrymu bod ffordd adeiladol ymlaen, ac mae cyhoeddiad y Gweinidog y bydd cod ymddygiad yn bodoli yn y dyfodol agos yn rhan o fynediad amodol a rheoledig i ddyfroedd Cymru. Os byddwn yn adeiladu ar ewyllys da, efallai y gallwn fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn olaf, nid wyf yn argyhoeddedig na ddylai pobl gael mynediad i'r dyfrffyrdd ar sail y gofyniad am drwyddedu neu bod yn aelod o ryw sefydliad. Gall llawer o bobl fanteisio ar gyfleusterau penodol ar yr amod eu bod yn meddu ar aelodaeth neu drwydded, a chredaf y dylai hynny fod yn berthnasol yn yr achos hwn. Ni ddylai defnydd ysbeidiol fod yn rheswm dros orfodi unigolion neu sefydliadau i beidio â bod yn aelodau o glwb na chymryd rhan mewn gweithgareddau mewn modd rheoledig.

Darren Millar: Rwyf hefyd yn falch o gael cymryd rhan yn y ddadl hon a llongyfarch y pwyllgor ar ei waith. Roedd yn broses anodd. Rwyf yn gwybod yn iawn am y gwaith a wnaeth y pwyllgor wrth lunio'r argymhellion. Rwyf hefyd yn gwybod yn iawn, o fy mhrofiad fy hun yn fy etholaeth fy hun, am yr heriau a'r gwrthdaro sydd weithiau'n codi rhwng pobl sydd am ddefnyddio ein dyfroedd mewndirol at wahanol ddibenion hamdden.

Mae gennym ddyfrffyrdd mewndirol gwych, a dyna un rheswm pam mae pobl yn dod i fwynhau gweithgareddau hamdden arnynt. Dylem fod yn falch ohonynt a dylem gydnabod hynny yn y ddadl hon. Mae ein

waterways draw literally hundreds of thousands of tourists into Wales on an annual basis. As we all know only too well, the great thing about Wales is that we have a lot of water and a lot of inland waterways. I, for one, feel very strongly that there should be sufficient space on our inland waterways to accommodate all those who want the opportunity to enjoy recreational activities.

We have heard from all sorts of people this afternoon, on all sides of the Chamber—saying ‘all sorts of people’ is probably a little unkind. [*Laughter.*] We have heard from Members on all sides of the Chamber that we must not allow our waterways to be monopolised by one group, and that there are all sorts of activities that people want to enjoy. However, we know that the current situation in some parts of Wales is unacceptable and unsustainable. There are conflicts, for example, in the Dee valley in north Wales, as well as in the Conwy valley, and they have been ongoing for some time now. Unfortunately, they are escalating. Discussions between the people who want to use those waterways at the same time are heated, and the police and others have had to be called to deal with some individuals—on both sides of the argument, the angling side and the canoeing side—who have behaved inappropriately.

Given that many of the angling associations around the country pay significant sums of money to gain access to Welsh inland waterways and permission to fish, I feel strongly that it is appropriate for the committee to suggest that licences be paid by those people who want to canoe or use other unpowered craft on our waterways. We know that licences generate a significant sum of money in Wales, which is reinvested in the protection of our landscape and waterways. That is critical to the future success of tourism in Wales. We know that £100 million-worth of tourism in Wales is generated on the back of angling alone. It is therefore important to protect our landscape from some of the damage that can be done by unpowered craft, and I have seen some of that damage at first hand.

dyfrffyrdd mewndirol yn denu cannoedd o filoedd, yn llythrennol, o ymwelwyr i Gymru bob blwyddyn. Rydym i gyd yn gwybod yn iawn mai'r peth gwych am Gymru yw bod gennym lawer o ddŵr a llawer o ddyfrffyrdd mewndirol. Rwyf fi yn teimlo'n gryf iawn y dylai fod digon o le ar ein dyfrffyrdd mewndirol i bawb sydd am gael y cyfle i fwynhau gweithgareddau hamdden.

Rydym wedi clywed gan bob math o bobl y prynhawn yma, ar bob ochr i'r Siambr—mae'n siŵr bod dweud 'pob math o bobl' ychydig yn gas. [*Chwerthin.*] Rydym wedi clywed gan Aelodau ar bob ochr i'r Siambr na ddylem ganiatáu i'n dyfrffyrdd gael eu monopoleiddio gan un grŵp, ac y ceir pob mathau o weithgareddau y mae ar bobl eisiau eu mwynhau. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod y sefyllfa bresennol yn rhai manau o Gymru yn annerbyniol ac yn anghynaliadwy. Ceir gwrthdaro, er enghraifft, yn nyffryn Dyfrdwy yn y gogledd, yn ogystal ag yn nyffryn Conwy, ers peth amser bellach. Yn anffodus, mae'r sefyllfa'n gwaethygu. Mae trafodaethau tanllyd wedi bod rhwng y bobl sydd am ddefnyddio'r dyfrffyrdd hynny ar yr un pryd, a bu'n rhaid galw'r heddlu ac eraill i ymdrin â rhai unigolion—ar ddwy ochr y ddadl, pysgota a chanŵio—sydd wedi ymddwyn yn amhriodol.

O gofio bod llawer o'r cymdeithasau pysgota ledled y wlad yn talu symiau sylweddol o arian i gael mynediad i ddyfrffyrdd mewndirol Cymru a chaniatâd i bysgota, rwyf yn teimlo'n gryf ei bod yn briodol i'r pwyllgor awgrymu bod y bobl hynny sydd am ganŵio neu ddefnyddio cychod eraill heb fodur ar ein dyfrffyrdd yn talu trwyddedau. Rydym yn gwybod bod trwyddedau'n cynhyrchu swm sylweddol o arian yng Nghymru, sy'n cael ei ail-fuddsoddi er mwyn diogelu ein tirwedd a'n dyfrffyrdd. Mae hynny'n hanfodol ar gyfer llwyddiant twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym yn gwybod bod gwerth £100 miliwn o dwristiaeth yng Nghymru yn cael ei greu gan bysgota yn unig. Felly, mae'n bwysig diogelu ein tirwedd rhag rhywfaint o'r difrod y gellir ei wneud gan gychod heb fodur, ac rwyf wedi gweld rhywfaint o'r difrod hwnnw'n uniongyrchol.

I would be grateful, Minister, if you could respond in more detail on why you think that licences are inappropriate. I read your response with interest. You can obtain occasional use licences to fish, so why should you not be able to buy an occasional use permit to grant you access to a Welsh inland waterway so that you can spend a day in your canoe? I feel that you have not responded appropriately to that very important recommendation by the committee, Minister, which was arrived at following careful consideration of the evidence.

I welcome the introduction of a national code of conduct, although I question how it will be enforced. At the moment, existing powers are not being used to prevent inappropriate access to waterways. For example, during spawning periods, gravelled areas and shallow parts of rivers are being trampled by people who are uncaring about the environment and about the impact that that has on fish stocks.

Therefore, we need to tread carefully, Minister. I am very pleased that you have accepted most of the recommendations, even if only in principle in some cases. I ask you to look again at the issue of licensing, because it is important for the success of our recreational activities on Welsh waterways in the future.

4.00 p.m.

Leanne Wood: This has been one of the most interesting inquiries that I have been involved in with the Sustainability Committee and it is certainly the one that has attracted most public involvement. As others have said in the debate this afternoon, committee members have heard very strong views on the subject and it was not easy for us, as committee members, to reach unanimity when drawing up our conclusions.

There is no doubt in my mind that the committee was hampered by the devolution settlement. Some of the recommendations that we may have wanted to make were outside the scope of the Assembly's powers. We took a great deal of evidence on the state

Byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe gallech ymateb yn fwy manwl ynglŷn â pham rydych yn credu bod trwyddedau'n amhriodol. Darllenais eich ymateb gyda diddordeb. Mae'n bosibl cael trwydded defnydd achlysurol i bysgota, felly pam na ddylech allu prynu trwydded defnydd achlysurol i roi mynediad ichi i un o ddyfrffyrdd mewndirol Cymru er mwyn ichi allu treulio diwrnod yn eich canw? Rwyf yn teimlo nad ydych wedi ymateb yn briodol i'r argymhelliad pwysig hwnnw gan y pwyllgor, Weinidog; argymhelliad a luniwyd ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus.

Rwyf yn croesawu cyflwyno cod ymddygiad cenedlaethol, er fy mod yn cwestiynu sut y caiff ei orfodi. Ar hyn o bryd, nid yw pwerau presennol yn cael eu defnyddio i atal mynediad amhriodol i ddyfrffyrdd. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau silio, mae pobl nad ydynt yn poeni am yr amgylchedd nac am yr effaith a gaiff hynny ar stociau pysgod yn sathru ar fannau graean a mannau bas afonydd.

Felly, mae angen inni droedio'n ofalus, Weinidog. Rwyf yn falch iawn eich bod wedi derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion, hyd yn oed os mai dim ond mewn egwyddor mewn rhai achosion. Gofynnaf ichi edrych eto ar drwyddedu, oherwydd mae'n bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant ein gweithgareddau hamdden ar ddyfrffyrdd Cymru yn y dyfodol.

4.00 p.m.

Leanne Wood: Dyma un o'r ymholiadau mwyaf diddorol rwyf wedi bod yn rhan ohono gyda'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, ac yn sicr, dyma'r un sydd wedi denu'r cyfranogiad mwyaf gan y cyhoedd. Fel y mae pobl eraill wedi'i ddweud yn y dadl y prynhawn yma, mae aelodau'r pwyllgor wedi clywed safbwyntiau cryf iawn ar y pwnc hwn ac nid oedd yn hawdd i ni, fel aelodau'r pwyllgor, gyrraedd unfrydedd wrth lunio ein casgliadau.

Nid oes amheuaeth bod y pwyllgor wedi'i lesteirio gan y setliad datganoli. Roedd rhai o'r argymhellion y byddem efallai wedi dymuno eu gwneud y tu allan i gwmpas pwerau'r Cynulliad. Cawsom lawer iawn o dystiolaeth am y sefyllfa yn yr Alban a

of play in Scotland and were advised that we would not be able to go down a similar route, because we did not have the same powers. We do not have legislative competence to implement some of our agreed recommendations and the Minister's response states that, should next year's referendum result in a 'yes' vote, the Assembly would have competence in the future. That question of competence helps to show the difficulty that the committee faced in trying to recommend solutions to the problems that had been brought to our attention.

I do not think that I have been involved in a committee inquiry that has attracted so many different representations from different interested parties. We were overwhelmed with submissions, mainly from people involved in two specific related recreational activities. We tried hard to ensure that we did not take sides and that we approached the issues in question in an impartial way. That was not easy. In some ways, it was always inevitable that we would not be able to please everyone with the recommendations in our report.

I have received a fair bit of correspondence on this issue since the committee's report was published, highlighting that many of the issues have not gone away. I can only hope that all of those involved will try to make voluntary access agreements work. They can only work if there is a will to make them work on both sides. However, if what we have proposed does not work or if our recommendations cannot be implemented in full, it could be that, at some point in the future, access to inland waterways will have to be looked at again. Do not get me wrong—I hope that we do not have to go there, but if we do I hope that, by then, we will have had success in the referendum on extending the Assembly's powers. That will mean that there will be more legal options available to those looking at this again and we can then go forward in a way that will suit more people and all sides of the argument.

rhoddwyd gwybod inni na fyddem yn gallu dilyn llwybr tebyg, gan nad oedd gennym yr un pwerau. Nid oes gennym gymhwysedd deddfwriaethol i weithredu rhai o'r argymhellion y cytunwyd arnynt ac mae ymateb y Gweinidog yn nodi y byddai gan y Cynulliad gymhwysedd yn y dyfodol, pe ceir pleidlais 'ie' yn y refferendwm y flwyddyn nesaf. Mae'r cwestiwn hwnnw o gymhwysedd yn helpu i ddangos yr anhawster a wynebwr gan y pwyllgor wrth geisio argymhell atebion i'r problemau y tynnwyd ein sylw atynt.

Nid wyf yn meddwl fy mod wedi bod yn rhan o ymchwiliad pwyllgor sydd wedi denu cymaint o wahanol sylwadau gan wahanol bartïon sydd â diddordeb. Cawsom ein llethu gan sylwadau, yn bennaf gan bobl sy'n cymryd rhan mewn dau weithgaredd hamdden cysylltiedig. Gwnaethom ymdrechu'n galed i sicrhau nad oeddem yn ochri â neb a'n bod yn mynd i'r afael â'r materion o dan sylw mewn ffordd ddiuedd. Nid oedd hynny'n hawdd. Mewn rhai ffyrdd, roedd bob amser yn anochel na fyddem yn gallu plesio pawb gyda'r argymhellion yn ein hadroddiad.

Rwyf wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth ar y mater hwn ers i adroddiad y pwyllgor gael ei gyhoeddi, sy'n dangos bod llawer o'r materion heb ddiflannu. Ni allaf ond gobeithio y bydd pawb sy'n gysylltiedig yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod cytundebau mynediad gwirfoddol yn gweithio. Dim ond os ceir ewyllys ar y ddwy ochr i wneud iddynt weithio y mae hyn yn bosibl. Fodd bynnag, os nad yw'r hyn rydym wedi ei gynnig yn gweithio neu os na all ein hargymhellion gael eu rhoi ar waith yn llawn, yna rhyw bryd yn y dyfodol, efallai y bydd yn rhaid edrych eto ar fynediad i ddyfrffyrdd mewndirol. Peidiwch â'm camddeall—rwyf yn gobeithio na fydd yn rhaid inni wneud hynny, ond os bydd yn rhaid inni, erbyn hynny, rwyf yn gobeithio y byddwn wedi cael llwyddiant yn y refferendwm ar bwerau ychwanegol i'r Cynulliad. Bydd hynny'n golygu y bydd mwy o ddewisiadau cyfreithiol ar gael i'r rheini a fydd yn edrych eto ar hyn, ac yna, gallwn symud ymlaen mewn ffordd a fydd yn plesio mwy o bobl ac yn plesio bob ochr o'r ddadl.

William Graham: It will come as no surprise certainly to the Chair and committee members that this report was acknowledged as being honest, with balanced recommendations, but, sadly, so many of the fundamental principles outlined in the recommendations have not been accepted by the Minister. It is vital that the Assembly Government reconsiders its stance on many of the points. You will be aware that over the past years, Canoe Wales has promoted 'paddle where you wish' on its website. The Minister refers to agreements, but we are also aware that the only arrangements that canoeists will consider are often those that are similar to those on the rivers Wye and Usk. There are few provisions and I understand that they are not signed documents and are therefore probably difficult to enforce.

Darren Millar: Do you regret that significant sums of money—in fact, over £100,000—have been given to Canoe Wales in recent years by this Assembly Government and that it has been campaigning for policy change on the basis of that investment?

William Graham: I certainly share your reservations on that award and the aims of that association. However, we should reconsider licensing. The case for anglers to be licensed remains—it is well documented and should be extended to others. The Minister is fully aware that course fishermen generally return their catch to the water and it is certainly a growing practice among all anglers in these days of depleted stocks. Anglers care for and respect the environment and their pastime depends on clean, unpolluted and, at certain times of the year, undisturbed waterways. I am sure that the Minister would acknowledge that the serious decline in salmon and sewin in Welsh rivers means that a number of fisheries are no longer rated. The Minister will be well aware that disturbance to salmon and sewin during spawning season can often lead to them abandoning their breeding habits. Anglers naturally become part of an army of volunteers caring for and conserving our waterways, working to reverse the decline in our fish stocks and restocking stretches of

William Graham: Yn sicr, ni fydd yn syndod i'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor bod yr adroddiad wedi cael ei gydnabod yn adroddiad gonest, gydag argymhellion cytbwys, ond, yn anffodus, mae llawer o'r egwyddorion sylfaenol a amlinellir yn yr argymhellion wedi cael eu gwrthod gan y Gweinidog. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn ailystyried ei safbwynt ar lawer o'r pwyntiau. Byddwch yn gwybod bod Canw Cymru, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi hyrwyddo 'padlo lle rydych yn dymuno' (*'paddle where you wish'*) ar ei wefan. Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at gytundebau, ond rydym hefyd yn ymwybodol mai'r unig drefniadau y bydd y rheini sy'n canwio yn eu hystyried yn aml yw'r rheini sy'n debyg i'r rhai ar afon Gwy ac afon Wysg. Dim ond ychydig o ddarpariaethau sydd, a deallaf nad ydynt yn ddogfennau wedi'u llofnodi ac felly mae'n debyg eu bod yn anodd eu gorfodi.

Darren Millar: A ydych yn gresynu wrth y ffaith bod symiau sylweddol o arian—dros £100,000, mewn gwirionedd—wedi cael eu rhoi i Canw Cymru dros y blynyddoedd diwethaf gan Lywodraeth y Cynulliad, a'i fod wedi bod yn ymgyrchu am newid polisi ar sail y buddsoddiad hwnnw?

William Graham: Rwyf yn sicr yn rhannu eich amheon ynglŷn â dyfarnu'r arian hwnnw ac amcanion y cysylltiad hwnnw. Fodd bynnag, dylem ailystyried trwyddedu. Mae'r achos dros drwyddedu pysgotwyr yn dal i fodoli—mae'n cael llawer o sylw a dylai gael ei ehangu i gynnwys eraill. Mae'r Gweinidog yn gwbl ymwybodol bod pysgotwyr bras fel arfer yn rhoi'r pysgod maent wedi'u dal yn ôl yn y dŵr, ac mae hyn yn sicr yn arfer sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd ymysg pysgotwyr yn gyffredinol wrth i stociau leihau. Mae pysgotwyr yn gofalu am yr amgylchedd ac yn ei barchu, ac mae eu gweithgaredd hamdden yn dibynnu ar ddyfrffyrdd glân, sydd heb eu llygru ac nad oes dim yn tarfu arnynt ar adegau penodol o'r flwyddyn. Rwyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cydnabod bod y dirywiad difrifol o ran niferoedd yr eog a'r sewin yn afonydd Cymru yn golygu nad yw nifer o bysgodfeydd yn cael eu graddio mwyach. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol y gall tarfu ar eog a sewin yn ystod y tymor silio arwain yn aml at y pysgod yn anwybyddu eu

water that have been reclaimed from pollution.

People who have riparian rights have major responsibilities for our water. They are required to pass on water flow without obstruction, pollution or diversion. They accept flood flow across their land, even if it is caused by inadequate capacity downstream. They maintain the beds, the banks and the trees and shrubs that grow along the land. They clear debris, even if it does not originate on their grounds. All users of our waterways must be treated equally; they should be tasked with contributing to maintaining the natural resources that they seek to use, whether that means protecting the environment or financing its maintenance.

You propose a code of conduct without fully explaining by whom or how the promotion, enforcement and policing of this code will be financed. There does not seem to be much mention of the control of parasitic organisms and the potential for cross-contamination in United Kingdom and European waterways. Members will know that angling makes a significant contribution to the Welsh economy. The report suggests that it is as much as £150 million a year. Comparisons with Scotland are misleading. Scottish rivers are much longer and have much smaller populations in relation to the area of land mass. However, a direct comparison may be made with off-road mountain bikers, who, once they have been provided with access to defined areas, regard the use of areas where access has not been granted as acceptable, leading to much anti-social behaviour.

Along our road network, we have established bat and squirrel bridges, and toad and dormouse tunnels. One wonders whether such features will become a necessity along the waterways, purely to protect the habitat of much of our water-based wildlife.

The Minister has placed great emphasis on the success of the round-table approach, but

harferion bridio. Mae pysgotwyr yn naturiol yn dod yn rhan o fyddin o wirfoddolwyr sy'n gofalu am ein dyfrffyrdd ac yn eu gwarchod, gan weithio i wrthdroi'r lleihad yn ein stociau pysgod ac yn ail-stocio darnau o ddŵr sydd wedi cael eu hadfer ar ôl llygredd.

Mae gan bobl sydd â hawliau glannau afon gyfrifoldebau pwysig tuag at ein dŵr. Mae'n ofynnol eu bod yn gadael i'r dŵr lifo heb rwystr, heb lygredd a heb ei ddargyfeirio. Maent yn derbyn llif llifogydd ar draws eu tir, hyd yn oed os yw'n cael ei achosi gan gapasiti annigonol i lawr yr afon. Maent yn cynnal y gwelyau, y glannau a'r coed a'r perthi sy'n tyfu ar hyd y tir. Maent yn clirio malurion, hyd yn oed os nad yw'n dod o'u tiroedd hwy. Rhaid trin pawb sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd yn gyfartal; dylid rhoi'r dasg iddynt o gyfrannu at gynnal yr adnoddau naturiol maent am eu defnyddio, boed hynny'n golygu gwarchod yr amgylchedd neu ariannu'r gwaith o'i gynnal a'i gadw.

Rydych yn cynnig cod ymddygiad heb esbonio'n llawn pwy fydd yn hyrwyddo, yn gorfodi ac yn plismona'r cod hwn a sut yr ariennir hyn. Mae'n ymddangos nad oes llawer o sôn am reoli organebau parasitig a'r posibilrwydd o draws-heintio yn nyfrffyrdd y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Bydd Aelodau'n gwybod bod pysgota yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Mae'r adroddiad yn awgrymu ei fod yn cyfrannu cymaint â £150 miliwn y flwyddyn. Mae cymariaethau â'r Alban yn gamarweiniol. Mae afonydd yr Alban yn llawer hwy ac mae ganddynt boblogaethau llai o lawer mewn perthynas â'r ardal o dir. Fodd bynnag, gellir gwneud cymhariaeth uniongyrchol gyda beicwyr mynydd oddi ar y ffordd. Ar ôl iddynt gael mynediad i ardaloedd a ddiffinnir, maent yn ystyried ei bod yn dderbyniol defnyddio ardaloedd lle nad oes ganddynt ganiatâd mynediad, gan arwain at lawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ar hyd ein rhwydwaith ffyrdd, rydym wedi sefydlu pontydd i ystlumod a gwiwerod, a thwneli i lyffantod a phathewod. Tybed a fydd nodweddion o'r fath yn dod yn rheidrwydd ar hyd y dyfrffyrdd, i warchod cynefin llawer o fywyd gwylt y dŵr.

Mae'r Gweinidog wedi rhoi pwyslais mawr ar lwyddiant y dull o amgylch y bwrdd, ond

she seems not to have acknowledged that it is not a truly representative or accountable body. The Minister has a reputation for being evidential, and throughout her career here she has shown her regard for accountability and transparency. I hope that, when she reconsiders some of the recommendations, these attributes will be paramount.

Rhodri Glyn Thomas: Yr wyf innau yn dechrau drwy gyfeirio at waith y Cadeiryddion sydd wedi bod ar y pwyllgor—Mick Bates yn gyntaf, sef y Cadeirydd pan benderfynwyd ymgymryd â'r ymchwiliad hwn. Fel y cyfeiriodd Brian Gibbons, gellid bod wedi osgoi hynny'n rhwydd iawn, ond gwn fod Mick yn teimlo'n gryf fod angen edrych ar y pwnc hwn yn fanwl, gan ystyried y dystiolaeth i geisio ffordd ymlaen. Daeth Mike German i gadeirio'r ymchwiliad, ac yr oedd yntau'n benderfynol o gael ffordd ymlaen yn y mater hwn.

Daeth y pwyllgor i benderfyniad yn weddol fuan o wrando ar y dystiolaeth nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Mae hynny'n mynd at wraidd yr adroddiad hwn. Dangosodd yr holl dystiolaeth a dderbynasom nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy a bod yn rhaid gwneud rhywbeth amdani i ddatblygu cytundebau ynglŷn â chael mynediad i ddyfroedd yng Nghymru.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud, Weinidog, nad wyf yn gweld yn eich ymateb i'r adroddiad unrhyw gydnabyddiaeth o'r ffaith nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Yr ydych fel pe baech yn meddwl bod modd parhau gyda'r sefyllfa bresennol. Yr ydych yn sôn am god ymddygiad sydd wedi'i seilio ar yr hyn sy'n digwydd ar afonydd Gwy ac Wysg, ond nid yw'r afonydd hynny'n cynrychioli'r rhan fwyaf o ddyfroedd Cymru. Mae'r sefyllfa'n amrywio'n helaeth. Rhaid wrth degwch, ac mae hyn yn mynd at yr argymhellion ar drwyddedu. Wrth drwyddedu, yr ydych yn gosod cyfrifoldeb ar y bobl sy'n defnyddio'r dyfroedd hynny nid yn unig i gael mynediad iddynt a mwynhau'r profiad o fod yno, ond i dderbyn cyfrifoldeb hefyd am gynnal a chadw'r dyfroedd hynny a sicrhau y gwneir gwaith ar yr isadeiledd.

4.10 p.m.

mae'n ymddangos nad yw wedi cydnabod nad yw'n gorff gwirioneddol gynrychioliadol nac atebol. Mae gan y Gweinidog enw da am fod yn dystiolaethol, a thrwy gydol ei gyrfa yma mae hi wedi dangos ei pharch at atebolrwydd a thryloywder. Pan fydd yn ailystyried rhai o'r argymhellion, rwyf yn gobeithio y bydd y nodweddion hyn yn ei harwain.

Rhodri Glyn Thomas: I, too, begin by referring to the work of the Chairs of the committee—Mick Bates, initially, as he was Chair when it was decided to undertake this inquiry. As Brian Gibbons has mentioned, it would have been quite easy to avoid it altogether, but I know that Mick felt strongly that we needed to look at this subject in detail, considering the evidence to seek a way forward. Mike German came to chair the inquiry, and he, too, was determined to find a way forward in this matter.

In hearing the evidence, the committee came to the decision quite soon that the current situation is unsustainable. That goes to the heart of this report. All the evidence that we received demonstrated that the current situation is unsustainable and that something must be done about it to develop agreements regarding access to waters in Wales.

I regret having to say, Minister, that I do not see in your response to the report any recognition of the fact that the current situation is unsustainable. You seem to think that we can carry on with the current situation. You refer to a code of conduct based on what is happening on the rivers Wye and Usk, but those rivers are not representative of the majority of Welsh waters. The situation varies widely. There must be fairness, and this goes to the recommendations on licensing. With licensing, you place a responsibility on the people who use those waters not only to access them and enjoy the experience of being there, but also to accept responsibility for the maintenance of those waters and ensure that work is done on the infrastructure.

4.10 p.m.

Nid wyf yn derbyn am funud eich dadl nad yw hyn yn ymarferol i'w weithredu. Mae'r holl dystiolaeth a glywsom yn dangos yn glir nad oes modd parhau â'r sefyllfa bresennol. Fel y dywedodd William Graham, yr ydych yn ymhyfrydu mewn bod yn Weinidog sy'n gwneud penderfyniadau ar sail dystiolaeth. Gallaf ddweud wrthy, yr oedd yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd gennym yn dangos yn glir fod angen gweithredu ar y mater hwn.

Cyfeiriodd Brian Gibbons at bwynt eithriadol o bwysig wrth sôn am gymdeithasau pysgotwyr yng Nghymru. Maent yn gymdeithasau sy'n bodoli nid yn unig er mwyn sicrhau mynediad i ddyfroedd, ond hefyd er mwyn cynnal y dyfroedd hynny. Os bydd pobl eraill am gael mynediad at ddyfroedd—ac yr ydym yn hapus iawn â hynny; mae'r adroddiad yn dweud yn glir ein bod am weld y mynediad at ddyfroedd yn cael ei ymestyn i bawb—rhaid iddynt dderbyn rhywfaint o gyfrifoldeb am y dyfroedd hynny. Byddwn yn eich annog, Weinidog, i fynd yn ôl unwaith eto at yr ymateb yr ydych wedi ei roi i'r adroddiad hwn, ac efallai i ddarllen yr adroddiad unwaith eto er mwyn gweld y dystiolaeth a gyflwynwyd. Nid oedd yn ymchwiliad rhwydd. Yr ydym wedi cael ein beirniadu, oherwydd, fel y dywedwyd yn gynharach, yr oedd rhai pobl yn teimlo nad oeddem wedi mynd yn ddigon pell, ac yr oedd pobl eraill yn teimlo ein bod wedi mynd yn rhy bell. Fodd bynnag, y gwir amdani yw ein bod wedi dod i benderfyniadau a oedd yn rhesymol ar sail y dystiolaeth, ac a oedd yn cynnig ffordd ymlaen i sicrhau mynediad at ddyfroedd Cymru i gynifer o bobl ag a oedd yn dymuno hynny, ac a oedd hefyd yn estyn cyfrifoldebau i'r bobl hynny er mwyn sicrhau bod y dyfroedd hynny yn parhau i fod ar gael i bobl yn y dyfodol.

Nick Ramsay: I agree with a great deal of Rhodri Glyn Thomas's contribution. I also welcome the opportunity to respond to the Sustainability Committee's consultation on access to inland water. It is clear that a great deal of work has been done over the last few years in this area. As we all know from the correspondence that we have received from people on different sides of the debate, it is

I do not accept for a minute your argument that this is not practical to implement. All the evidence we heard clearly shows that the current situation cannot continue. As William Graham said, you delight in being a Minister who makes decisions based on evidence. I can tell you that all the evidence that we received shows clearly that action is needed on this issue.

Brian Gibbons referred to an extremely important point when he talked about anglers' associations in Wales. These associations exist not only to ensure access to certain waters, but to maintain them, too. If others want access to these waters—and we are very happy for that to happen; the report states clearly that we want to see access to water extended to all—they must accept some responsibility for those waters. We urge you, Minister, to reconsider the response that you have given to this report, and perhaps to read the report again to see the evidence that was presented. It was not an easy investigation. We have been criticized, as was stated earlier, because some people felt that we had not gone far enough, while other people felt that we had gone too far. However, the reality is that we have come to decisions that were reasonable according to the evidence, offering as they did a way forward to ensure access to Welsh waters to as many people as want it. They also offered to extend the responsibilities to those people to ensure that those waters will continue to be available to people in the future.

Nick Ramsay: Rwyf yn cytuno â llawer iawn o'r hyn y mae Rhodri Glyn Thomas yn ei ddweud. Rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar fynediad i ddŵr mewndirol. Mae'n amlwg bod llawer iawn o waith wedi cael ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf yn y maes hwn. Fel y gwyddom o'r ohebiaeth rydym wedi ei chael gan bobl ar

an emotive issue. I welcome the work that the committee has done in trying to deal with this and move forward.

I welcome the Minister's response to recommendations 1, 2, 11 and 12. I am pleased that she acknowledges that there are conflicting interests in relation to water access, that much is certain, and that codes of conduct can be an effective and cost-effective way of influencing the behaviour of water users. It is, however, misleading to suggest that the majority of water users are 'rarely part of an organised group'. Anglers are almost always, or often, members of clubs or fishing organisations, and various canoe organisations, such as Canoe Wales, have associated members. Therefore, to view these as disparate groups of people who are not involved in an organised system does not do the situation justice. These issues have been of concern to my constituents.

I also think that it is incorrect to state that the Sustainability Committee was dealing with the needs of only a minority of participants. Anglers make up the vast majority of those who take part in water-related recreational pastimes, and I think that the last major economic survey put the value of angling in Wales at around £75 million. Since then, the Welsh Assembly Government has measured an additional £36 million of income generated.

Minister, you have claimed that canoeing is informal and occasional. As William Graham said earlier, it is not simply a case of comparing Wales directly with Scotland. We have a different type of river system to that of Scotland, and a different type of usage. Depending upon the river, or the lake, participation in canoeing can be frequent. I cannot quite understand why you have objected to the recommendations on a licensing system. As some other Members have said, this is a wasted opportunity. There is an argument, surely, to say that those who use our waterways and who are sometimes involved in their degradation should in some way contribute to the maintenance and wellbeing of the inland waterways. Therefore, some system—either payment for

wahanol ochrau o'r ddadl, mae'n fater emosïynol. Rwyf yn croesawu'r gwaith y mae'r pwyllgor wedi ei wneud wrth geisio ymdrin â hyn a symud ymlaen.

Rwyf yn croesawu ymateb y Gweinidog i argymhellion 1, 2, 11 a 12. Rwyf yn falch ei bod yn cydnabod y ceir buddiannau sy'n gwrthdaro mewn perthynas â mynediad i ddŵr, mae hynny'n sicr, ac y gall codau ymddygiad fod yn ffyrdd effeithiol a chost-effeithiol o ddylanwadu ar ymddygiad y sawl sy'n defnyddio'r dŵr. Fodd bynnag, mae'n gamarweiniol awgrymu bod y mwyafrif o'r rheini sy'n defnyddio'r dŵr yn 'anaml yn rhan o grŵp wedi'i drefnu'. Mae pysgotwyr bron bob amser, neu'n aml, yn aelodau o glybiau neu gyrff pysgota, ac mae gan amrywiol sefydliadau canw, fel Canw Cymru, aelodau cysylltiedig. Felly, nid yw ystyried y rhain yn grwpiau gwahanol o bobl nad ydynt yn rhan o system wedi'i threfnu yn gwneud cyfiawnder â'r sefyllfa. Mae fy etholwyr wedi bod yn pryderu am y materion hyn.

Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn anghywir dweud mai anghenion lleiafrif o gyfranogwyr yn unig roedd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn ymdrin â hwy. Pysgotwyr yw mwyafrif helaeth y rheini sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden dŵr, a chredaf fod yr arolwg economaidd mawr diwethaf yn rhoi gwerth o tua £75 miliwn ar bysgota yng Nghymru. Ers hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mesur £36 miliwn yn ychwanegol o incwm sy'n cael ei greu.

Weinidog, rydych wedi honni bod canwïo yn anffurfiol ac yn achlysurol. Fel y dywedodd William Graham yn gynharach, nid yw'n achos syml o gymharu Cymru yn uniongyrchol â'r Alban. Mae gennym wahanol fath o system afonydd i'r hyn sydd yn yr Alban, a gwahanol fath o ddefnydd. Gan ddibynnu ar yr afon, neu'r llyn, gall pobl fynd i ganwïo yn aml. Ni allaf ddeall pam rydych wedi gwrthwynebu'r argymhellion ynghylch system drwyddedu. Fel y mae Aelodau eraill wedi dweud, dyma gyfle sy'n cael ei wastraffu. Ceir dadl, yn sicr, sy'n dweud y dylai'r rheini sy'n defnyddio ein dyfrffyrdd, ac sydd weithiau'n eu diraddio, gyfrannu mewn rhyw ffordd at gynnal a chadw ac at les y dyfrffyrdd mewndirol. Felly, byddai rhyw fath o system—naill ai

access or a licensing system—that acknowledges this would be a good thing.

At the moment, there is an imbalance in the economy in this regard. Anglers will have to realise that if they want to enjoy being on the river using someone else's asset—although we recognise anglers' right to do that—they must realise that they also have an obligation and a responsibility. As riparian owners have invested significant amounts of time and money in purchasing and maintaining fishing rights, they have an interest in seeing that this is achieved. I have received a great deal of correspondence on this issue since I was elected. I am pleased that so much work has gone on in the committee. I looked at the report in some detail, and the amount of evidence taken by the people involved in that committee over that time is a tribute to the committee. I urge you, Minister, to take note of the recommendations and to do your best to implement them as well as you can.

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I have listened to Members' contributions with interest. It is worth restating that the majority of the recommendations in the report have been accepted by the Assembly Government. It seems that the main point of difference is the fact that we, as a Government, believe that licensing fees and registration should be considered as part of local arrangements—something we specifically said in our written response, but which not one of you has referred to in your contributions today. Therefore, we have not agreed to the idea that there should be a national system of licensing. However, in response to recommendation 9, we have said that licensing fees and registration should be considered as part of local arrangements. We know that there are a number of arrangements being looked at at the moment. The sub-group on access arrangements has met several times since January and identified 14 stretches of river and other bodies of inland water where an access agreement would be desirable. Members of the group have been tasked with identifying relevant local interests in order to facilitate

talun am fynediad neu system drwyddedu—sy'n cydnabod hyn yn beth da.

Ar hyn o bryd, ceir anghydbwysedd yn yr economi yn hyn o beth. Os oes ar bysgotwyr eisiau mwynhau bod ar yr afon gan ddefnyddio asedau rhywun arall—er ein bod yn cydnabod hawl pysgotwyr i wneud hynny—bydd yn rhaid iddynt sylweddoli bod ganddynt hefyd rwymedigaeth a chyfrifoldeb. Gan fod perchnogion glannau afon wedi buddsoddi symiau sylweddol o amser ac arian yn prynu ac yn cynnal hawliau pysgota, mae ganddynt ddiddordeb mewn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Rwyf wedi cael llawer iawn o ohebiaeth ar y mater hwn ers imi gael fy ethol. Rwyf yn falch bod y pwyllgor wedi gwneud cymaint o waith. Edrychais ar yr adroddiad yn fanwl, ac mae'r swmp o dystiolaeth a gasglwyd gan y bobl sy'n gysylltiedig â'r pwyllgor hwnnw dros y cyfnod hwnnw yn deyrnged i'r pwyllgor. Rwyf yn erfyn arnoch, Weinidog, i nodi'r argymhellion a gwneud eich gorau glas i'w rhoi ar waith gystal ag y gallwch.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Rwyf wedi gwrando ar gyfraniadau'r Aelodau gyda diddordeb. Mae'n werth ailadrodd bod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n ymddangos mai'r prif wahaniaeth yw'r ffaith ein bod ni, fel Llywodraeth, yn credu y dylid ystyried ffioedd trwyddedu a chofrestru yn rhan o drefniadau lleol—rhywbeth y gwnaethom ei ddweud yn benodol yn ein hymateb ysgrifenedig, ond nad yw'r un ohonoch wedi cyfeirio ato yn eich cyfraniadau heddiw. Felly, nid ydym wedi cytuno ar y syniad y dylid cael system drwyddedu genedlaethol. Fodd bynnag, mewn ymateb i argymhelliad 9, rydym wedi dweud y dylai ffioedd trwyddedu a chofrestru gael eu hystyried yn rhan o drefniadau lleol. Rydym yn gwybod bod nifer o drefniadau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Mae'r is-grŵp ar drefniadau mynediad wedi cyfarfod sawl gwaith ers mis Ionawr ac wedi canfod 14 darn o afon a dyfroedd mewndirol eraill lle byddai cytundeb mynediad yn ddymunol. Mae aelodau'r grŵp wedi cael y dasg o nodi buddiannau lleol perthnasol er mwyn hwyluso trafodaeth. Bydd y grŵp yn adrodd

discussion. The group will report back at the next round table meeting in November.

The second point is that, although this debate and Members' contributions today have focused primarily on two sets of interests—anglers' and canoeists'—there are, of course, a far wider set of interests that would want to have access to water recreation. The Assembly Government is absolutely mindful of issues to do with the management of angling activity, the revenue raised and the fact that it contributes to the management, protection and improvement of inland waterways and fisheries. I was with Merthyr Tydfil Angling Association earlier in the week. Fishing is heavily regulated and legislated for with regard to the extraction of wild fish from rivers and associated enforcement. That is paid for from the fishing licence fee. However, the licence itself does not relate directly to or allow for access to rivers and lakes. There is substantial investment from the Assembly Government. For example, some £4 million goes into the fisheries strategy.

I hope that Members will find it helpful that we are reviewing the membership of the round table group. It is clear that there needs to be better representation of riparian and landowning interests, and I want to be assured that we have the correct balance of user groups. I also want to ensure that, if possible, we are able to continue the Splash fund into next year. As I have said, to date, we have funded 57 projects, which have been as varied as all-terrain wheelchairs for Barry beach, an educational DVD on responsible access for gorge walking and new Get Hooked on Fishing schemes across Wales. However, having had many good and exciting projects so far, a future fund should have a more strategic focus.

Another area that I feel has not been investigated fully to date is the potential for access to Wales's extensive reservoirs. We have had very positive correspondence with the managing director of Dŵr Cymru Welsh

yn ôl yn y cyfarfod o amgylch y bwrdd nesaf ym mis Tachwedd.

Yr ail bwynt yw, er bod y ddadl hon a chyfraniadau Aelodau heddiw wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddwy set o fuddiannau—buddiannau pysgotwyr a buddiannau'r rheini sy'n defnyddio canw—wrth gwrs, ceir set ehangach o lawer o fuddiannau a fyddai'n awyddus i gael mynediad i hamdden dŵr. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â rheoli gweithgaredd pysgota, y refeniw a godir a'r ffaith ei fod yn cyfrannu at reoli, diogelu a gwella dyfrffyrdd mewndirol a physgodfeydd. Roeddwn yng nghwmni Cymdeithas Bysgota Merthyr Tudful yn gynharach yn yr wythnos. Caiff pysgota ei reoleiddio'n drwm a cheir nifer o ddeddfwriaethau o ran tynnu pysgod gwyllt o afonydd a'r camau gorfodi cysylltiedig. Ffi'r drwydded pysgota sy'n talu am hynny. Fodd bynnag, nid yw'r drwydded ei hun yn ymwneud yn uniongyrchol â mynediad i afonydd a llynnoedd, na chaniatáu hynny. Rhoddir buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad. Er enghraifft, mae oddeutu £4 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn y strategaeth pysgodfeydd.

Rwyf yn gobeithio y bydd y ffaith ein bod yn adolygu aelodaeth y grŵp o amgylch y bwrdd yn ddefnyddiol i Aelodau. Mae'n amlwg bod angen gwell cynrychiolaeth o fuddiannau glannau afon a pherchnogion tir, ac rwyf am fod yn sicr bod y cydbwysedd cywir o grwpiau defnyddwyr gennym. Rwyf hefyd am sicrhau, os yn bosibl, ein bod yn gallu parhau â'r gronfa Sblash y flwyddyn nesaf. Fel rwyf wedi dweud, hyd yma, rydym wedi ariannu 57 o brosiectau, sydd wedi bod mor amrywiol â chadeiriau olwyn sy'n addas ar gyfer pob math o dir i draeth y Barri, DVD addysgol ar fynediad cyfrifol ar gyfer cerdded ceunentydd a chynlluniau newydd *Get Hooked on Fishing* ledled Cymru. Fodd bynnag, ar ôl sicrhau llawer o brosiectau da a chyffrous hyd yma, dylai cronfa'r dyfodol fod â ffocws mwy strategol.

Maes arall rwyf yn teimlo nad yw wedi cael ei ymchwilio'n llawn hyd yma yw'r potensial ar gyfer mynediad i gronfeydd dŵr niferus Cymru. Rydym wedi cael gohebiaeth gadarnhaol iawn gyda rheolwr gyfarwyddwr

Water on our position on opening access to some of the organisation's inland water assets. The round table group will be updated on progress in November. There is much work to be done. Research, including the Countryside Council for Wales's survey in 2008, shows that there is a demand to take part in swimming and other non-motorised water sports and that there is huge potential to increase levels of participation. So, following the committee's inquiry and this debate, we hope that we can move on from building consensus between the user groups to establishing trust between them, leading to strong local agreements that every Assembly Member supports for the benefit of all types of users.

4.20 p.m.

Kirsty Williams: I begin by thanking all colleagues across the Chamber for their contributions to this debate. Again, I stress that we have a very precious resource in our inland waterways, one that, if handled correctly, can provide not only immense personal satisfaction, health and recreation benefits, but a useful contribution to environmental management—that was very much the focus of Brian's contribution this afternoon—and an economic return to the Welsh economy, as clearly stated by William Graham and Darren. It is clear to me, who came to this debate—thankfully, in some ways—after it had all been concluded, that the status quo is not an option and is not sustainable. The current situation is helpful to no-one who wants to enjoy our waterways. The Minister is right to say that, this afternoon and during the inquiry itself, the debate was very much focused on anglers and canoeists. They are not the only people who wish to use our waterways. People who enjoy outdoor swimming, as well as other individuals, want access and we would do well to remember that this is not a them-versus-us argument; there is a plethora of people who want to enjoy our waterways. The current situation helps no-one. If we do not tackle this problem the situation will deteriorate and the conflict will become deeper. Having said that, a blanket granting of access would not be helpful either, as

Dŵr Cymru Welsh Water ynglŷn â'n safbwynt ynghylch sicrhau mynediad agored i rai o asedau dŵr mewndirol y sefydliad. Bydd y grŵp o amgylch y bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd ym mis Tachwedd. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae ymchwil, gan gynnwys arolwg Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn 2008, yn dangos y ceir galw am gymryd rhan mewn gweithgareddau nofio a chwaraeon dŵr eraill heb fodur, a bod potensial enfawr i gynyddu lefelau cyfranogiad. Felly, yn dilyn ymchwiliad y pwyllgor a'r ddadl hon, rydym yn gobeithio y gallwn symud ymlaen o adeiladu consensws rhwng y grwpiau defnyddwyr, a sefydlu ymddiriedaeth rhyngddynt, gan arwain at gytundebau lleol cryf y mae pob Aelod o'r Cynulliad yn eu cefnogi er budd pob math o ddefnyddwyr.

4.20 p.m.

Kirsty Williams: Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'm holl gyd-Aelodau ar draws y Siambr am eu cyfraniadau i'r ddadl hon. Unwaith eto, rwyf yn pwysleisio bod gennym adnodd gwerthfawr iawn yn ein dyfrffyrdd mewndirol; un sydd, os caiff ei drin yn gywir, yn gallu rhoi buddion hamdden, iechyd a bodddhad personol sylweddol, yn ogystal â chyfraniad defnyddiol i reoli amgylcheddol—dyna oedd pwyslais mawr cyfraniad Brian y prynhawn yma—ac adenillion economaidd i economi Cymru, fel y nodir yn glir gan William Graham a Darren. Mae'n amlwg i mi, a ddaeth at y ddadl hon—diolch byth, mewn rhai ffyrdd—ar ôl iddi ddod i ben, nad yw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn nac yn gynaliadwy. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn ddefnyddiol i neb sydd am fwynhau ein dyfrffyrdd. Mae'r Gweinidog yn iawn i ddweud bod y ddadl yn canolbwyntio'n fawr iawn ar bysgotwyr a'r rheini sy'n defnyddio canw—y prynhawn yma ac yn ystod yr ymchwiliad ei hun. Nid dyma'r unig bobl sy'n dymuno defnyddio ein dyfrffyrdd. Mae pobl sy'n mwynhau nofio yn yr awyr agored, yn ogystal ag unigolion eraill, am gael mynediad a byddai werth inni gofio nad dadl nhw yn ein herbyn ni yw'r ddadl hon; mae llu o bobl sydd am fwynhau ein dyfrffyrdd. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn helpu neb. Os na fyddwn yn mynd i'r afael â'r broblem hon bydd y sefyllfa'n gwaethygu a bydd y gwrthdaro yn treiddio'n ddyfnach. Wedi

identified by the committee, nor a way of negotiating access agreements that does not treat people as equals when they come to the table. At the core of what we are recommending is an approach that respects the principles of rights and of the responsibility that goes alongside those rights. Once again, I am disappointed that the Minister has failed to come up with any evidence on why the approach that the committee has suggested is not achievable.

Leanne rightly highlighted that we are stymied once again by a lack of legislative competence, and that there is so much more that we could do if that competence lay with us, which is yet another good reason why people should vote 'yes' in the referendum next year.

I accept that there are legal restrictions on what is and what is not possible via Glastir. As the Minister has not truly addressed this in her response, will she look again at axis 3 to see whether we could find some funding for access via the rural development plan? I also stress the importance, in progressing with the round table arrangement on which she has placed so much emphasis this afternoon as the way forward, of ensuring that that round table arrangement is fully inclusive and takes on board the views of all of those who have an interest in this particular area?

I close by thanking, once again, the people who took the trouble to give evidence to the committee during this inquiry, the members of the committee, and, foremost, the National Assembly staff for their professionalism in providing support to the committee via the clerk, deputy clerk, the researchers and advisers. Once again, their services have been second to none and a credit to us as an institution. Thank you very much.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections; therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

dweud hynny, ni fyddai caniatáu mynediad i bawb yn briodol ychwaith, fel y nodwyd gan y pwyllgor, nac yn ffordd o drafod cytundebau mynediad nad yw'n trin pobl yn gyfartal pan fyddant yn dod i drafod. Wrth wraidd yr hyn rydym yn ei argymhell y mae dull gweithredu sy'n parchu egwyddorion hawliau a'r cyfrifoldeb sy'n mynd ochr yn ochr â'r hawliau hynny. Unwaith eto, rwyf yn siomedig bod y Gweinidog wedi methu â dod o hyd i unrhyw dystiolaeth ynglŷn â pham nad oes modd cyflawni'r dull y mae'r pwyllgor wedi ei awgrymu.

Rhoddodd Leanne sylw priodol at y ffaith ein bod wedi ein rhwystro unwaith eto oherwydd diffyg cymhwysedd deddfwriaethol, a bod cymaint mwy y gallem ei wneud pe bai gennym y cymhwysedd hwnnw, sy'n rheswm da arall pam y dylai pobl bleidleisio 'ie' yn y refferendwm y flwyddyn nesaf.

Rwyf yn derbyn bod cyfyngiadau cyfreithiol ar yr hyn sy'n bosibl a'r hyn nad yw'n bosibl drwy Glastir. Gan nad yw'r Gweinidog wedi rhoi sylw digonol i hyn yn ei hymateb, a wnaiff edrych eto ar echel 3 i weld a allem ddod o hyd i arian ar gyfer mynediad drwy'r cynllun datblygu gwledig? Wrth symud ymlaen gyda'r trefniant o amgylch y bwrdd y mae hi wedi rhoi cymaint o bwyslais arno'r prynhawn yma fel y ffordd ymlaen, rwyf hefyd am bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y trefniant o amgylch y bwrdd hwnnw yn gwbl gynhwysol ac yn ystyried barn pawb sydd â diddordeb yn y maes penodol hwn.

Hoffwn gloi drwy ddiolch unwaith eto i'r bobl a aeth i'r drafferth i roi tystiolaeth i'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn, i aelodau'r pwyllgor, ac yn bennaf, i staff y Cynulliad Cenedlaethol am eu proffesiynoldeb wrth gefnogi'r pwyllgor drwy gyfrwng y cler, y dirprwy glerc, yr ymchwilywyr a'r cynghorwyr. Unwaith eto, mae eu gwasanaethau wedi bod heb eu hail ac yn glod i ni fel sefydliad. Diolch yn fawr iawn.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Ardrethi Busnes Business Rates

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

Cynnig NDM4542 Nick Ramsay

Motion NDM4542 Nick Ramsay

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes mwy eang er mwyn annog menter yn y sector busnesau bach.

Regrets that the Welsh Assembly Government has not introduced a more extensive Business Rates Relief Scheme to encourage enterprise in the small business sector.

David Melding: I move the motion.

David Melding: Cynigiau y cynnig.

We make no apology whatsoever for returning to the question of business rates relief because I think that it will be one of the saddest judgments on devolution and may well play a part in the referendum campaign in the spring that, after 11 and a half years, we still do not have an effective business rate relief scheme. Indeed, we have gone backwards. Our scheme in Wales is now measurably worse than the schemes that apply in every other part of Great Britain and Northern Ireland. That is how we have performed. In fact, in the third Assembly, despite our constant urging that this question be taken up, we have seen Plaid Cymru, now in Government, row back on commitments that it freely gave to the people of Wales in the second Assembly. That does not augur well for future confidence when it comes to supporting the business community, which has quite rightly felt let down. It put business rates at its top priority, but has not put business support in this respect at the top of devolution's priorities. That is a very sad fact.

Nid ydym am ymddiheuro o gwbl am ddychwelyd at ryddhad ardrethi busnes oherwydd credaf y bydd y ffaith ein bod, ar ôl 11 mlynedd a hanner, yn dal heb gynllun rhyddhad ardrethi busnes effeithiol yn un o'r dyfarniadau tristaf ar ddatganoli ac efallai y bydd yn chwarae rhan yn yr ymgyrch refferendwm yn y gwanwyn. Yn wir, rydym wedi mynd tuag yn ôl. Mae ein cynllun yng Nghymru nawr yn dipyn gwaeth na'r cynlluniau sy'n berthnasol ym mhob rhan arall o Brydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Dyna sut rydym wedi perfformio. Yn wir, yn y trydydd Cynulliad, er gwaethaf y ffaith inni erfyn yn gyson i'r cwestiwn hwn gael ei ystyried, rydym wedi gweld Plaid Cymru, sydd bellach yn y Llywodraeth, yn troi cefn ar ymrwymadau y gwnaeth yn rhydd i bobl Cymru yn yr ail Gynulliad. Nid yw hynny'n argoeli'n dda ar gyfer hyder yn y dyfodol pan ddaw at gefnogi'r gymuned fusnes, sydd wedi teimlo eu bod wedi'u siomi. Nododd drethi busnes yn brif flaenoriaeth iddi, ond nid yw wedi rhoi cymorth busnes yn hyn o beth ar frig blaenoriaethau datganoli. Mae hynny'n ffaith drist iawn.

The policy of the Welsh Assembly Government is to encourage more indigenous

Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw annog rhagor o fentrau cynhenid. Byddem i

enterprise. We would all surely agree with that, but increasing indigenous enterprise usually means more business creation, and businesses that are created are at first usually very small businesses that rely greatly on a policy of low business rates. However, businesses have not been able to have confidence that that would apply in their case; sadly, they would have often been better off had they been starting up in England, Scotland or Northern Ireland.

Given our current range of powers, the best way in which we can help small businesses is by lowering business rates. That is by far the strongest and most direct lever that we have in the Welsh economy, but it is one that we have not used very much. Indeed, we have deliberately used it to a lesser extent than has been the case in other parts of the United Kingdom.

The Deputy First Minister used to believe all of this; pretty much everything that I have said could have been taken from one of the speeches that he so eloquently used to give during the second Assembly. He is not here because it is not, strictly speaking, his policy, but I am leading this debate because we think that business rates should be in the transport and economy portfolio as they are so important for those setting up new businesses. However, the Minister for Social Justice and Local Government is here, and he is a reasonable chap. While we would like to take this area away from his portfolio, had he come up with a really effective, enterprising and generous scheme, we would have acknowledged that. Part of the problem is that his priorities and those of his officials do not sit well with those of the business community, and the situation is quite dysfunctional at the moment. It is possible that Ieuan Wyn Jones has lost his enthusiasm for lowering business rates, but it is unlikely. Therefore, there has been a big failure between the two departments to ensure an innovative policy for the Welsh Assembly Government.

Turning to the bleak facts of WAG's record on business rates, we have been left behind. The Scottish model is excellent, although we

gyd yn sicr yn cytuno â hynny, ond mae cynyddu mentrau cynhenid fel arfer yn golygu creu mwy o fusnesau, ac mae busnesau sy'n cael eu creu fel arfer yn fusnesau bach iawn ar y dechrau, sy'n dibynnu'n helaeth ar bolisi ardrethi busnes isel. Fodd bynnag, nid yw busnesau wedi gallu bod yn hyderus y byddai hynny'n berthnasol yn eu hachos hwy; yn anffodus, byddent yn aml wedi bod yn well eu byd pe baent wedi dechrau yn Lloegr, yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon.

O ystyried ein hystod bresennol o bwerau, y ffordd orau y gallwn helpu busnesau bach yw drwy ostwng ardrethi busnes. Dyna yn sicr yw'r lifer cryfaf a mwyaf uniongyrchol sydd gennym yn economi Cymru, ond mae'n un nad ydym wedi defnyddio llawer arno. Yn wir, rydym yn fwriadol wedi ei ddefnyddio i raddau llai na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn arfer credu hyn i gyd; gallai mwy neu lai bopeth rwyf wedi ei ddweud fod wedi dod o un o'r areithiau roedd yn arfer eu gwneud mor huawdl yn ystod yr ail Gynulliad. Nid yw yma am nad ei bolisi ef ydyw, mewn gwirionedd, ond rwyf yn arwain y ddadl hon gan ein bod yn credu y dylai ardrethi busnes fod yn y portffolio trafndiaeth ac economi gan eu bod mor bwysig ar gyfer y rheini sy'n sefydlu busnesau newydd. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yma, ac mae'n ddyn rhesymol. Er yr hoffwn gymryd y maes hwn oddi ar ei bortffolio, pe byddai wedi meddwl am gynllun gwirioneddol effeithiol, mentrus a hael, byddwn wedi cydnabod hynny. Rhan o'r broblem yw nad yw ei flaenoriaethau ef na blaenoriaethau ei swyddogion yn cydweddu'n dda â blaenoriaethau'r gymuned fusnes, ac mae'r sefyllfa yn eithaf camweithredol ar hyn o bryd. Mae'n bosibl bod Ieuan Wyn Jones wedi colli ei frwdfrydedd dros ostwng ardrethi busnes, ond mae hynny'n annhebygol. Felly, mae'r ddwy adran wedi gwirioneddol fethu â sicrhau polisi arloesol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gan droi at ffeithiau llwm cofnod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ardrethi busnes, rydym ymhell ar ei hôl hi. Mae

would perhaps go further than that if we could. Scotland has, in effect, abolished business rates for small businesses—any business with a rateable value of below £10,000. You are catching up slowly with that, but you are still only a little over half way there. That is not good enough in getting that critical group of people to have the best possible chance of making their businesses fly. You should go to Scotland to see what has been done there, and why it is valued.

The advances that have been made here—and there have been some small, incremental advances—have followed decisions by the UK Government. You have got the Tipp-Ex out, painted over ‘UK Government initiative’, typed in ‘WAG’ and sent it to the local authorities. We expect something a little more innovative than that, frankly.

The Welsh Conservatives have been the champions of small business throughout devolution, and particularly in the third Assembly. We have challenged you consistently to adopt the Scottish model, at least, and give total relief to businesses with a rateable value of £10,000 or below, and have tapered relief beyond that. We have gone further; we have called for the revaluation to be postponed, a decision that was taken in Northern Ireland early on, but you dithered and did not follow suit. In fact, it has now said that it will not have any form of revaluation until any economic recovery is fully established—it has cancelled its immediate plans to revalue. That shows you what happens when you listen to the voice of business.

4.30 p.m.

To turn to the voice of business, perhaps it is a lack of demand from the business community that has led to this dreadful torpor in the Welsh Assembly Government. However, the fact is that, in the consultations, you have been urged time and again to get to

model yr Alban yn ardderchog, er y byddem, o bosibl, yn mynd ymhellach na hynny pe gallem. I bob pwrpas, mae'r Alban wedi diddymu ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach—unrhyw fusnes sydd â gwerth ardrethol o dan £10,000. Rydych yn dal i fyny â hynny yn araf, ond dim ond ychydig dros hanner ffordd yno rydych chi o hyd. Nid yw hynny'n ddigon da i sicrhau bod gan y grŵp hanfodol hwnnw o bobl y cyfle gorau posibl i sicrhau bod eu busnesau'n llwyddo. Dylech fynd i'r Alban i weld yr hyn sydd wedi'i wneud yno, a pham ei fod yn cael ei werthfawrogi.

Mae'r datblygiadau sydd wedi cael eu gwneud yma—ac mae rhai datblygiadau bach, graddol wedi cael eu gwneud—wedi dilyn penderfyniadau Llywodraeth y DU. Rydych wedi estyn am y *Tipp-Ex*, wedi peintio dros 'Menter Llywodraeth y DU', wedi teipio 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn ei le a'i anfon at yr awdurdodau lleol. A dweud y gwir, rydym yn disgwyl rhywbeth ychydig yn fwy arloesol na hynny.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn bencampwyr busnesau bach drwy gydol y broses ddatganoli, ac yn enwedig yn y trydydd Cynulliad. Rydym wedi eich herio yn gyson i fabwysiadu model yr Alban, o leiaf, a rhoi rhyddhad cyflawn i fusnesau sydd â gwerth ardrethol o £10,000 neu lai, a sicrhau gostyngiad graddol yn y rhyddhad ar ôl hynny. Rydym wedi mynd gam ymhellach; rydym wedi galw am ohirio'r ailbrisio, penderfyniad a wnaed yn gynnar yng Ngogledd Iwerddon, ond gwnaethoch betruso a pheidio â dilyn esiampl. Yn wir, mae wedi dweud yn awr na fydd yn sicrhau unrhyw fath o ailbrisio nes y bydd rhyw fath o adferiad economaidd yn cael ei sefydlu'n llawn—mae wedi canslo ei gynlluniau i ailbrisio ar hyn o bryd. Mae hynny'n dangos ichi beth sy'n digwydd pan fyddwch yn gwrandao ar lais busnes.

4.30 p.m.

I droi at lais busnes, efallai mai diffyg galw gan y gymuned fusnes sydd wedi arwain at y syrthni ofnadwy hwn yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, y ffaith yw bod rhywrai, yn yr ymgynghoriadau, wedi erfyn arnoch dro ar ôl tro i fynd i'r afael â'r

grips with this area of policy and to come up with something much more ambitious. Time and again, it says that, after rent and wages, business rates are the biggest cost facing small businesses and that you need to take more effective action. Yet we have a continuing contradiction in your policy, because the economic renewal programme, which contains some interesting new directions, calls for an effective and helpful environment for business. We all agree with that, but what would be most effective for small businesses? It would be to lower business rates or to abolish them for small businesses. You have not taken either of those actions yet. That is where we find this big hole in your thinking and the way in which you put it into effect.

I was reading John Kay's column this morning in the *Financial Times*, in which he said that big government does not get it because it does not know how to listen to the voice of business. In the 1970s, big government was listening to IBM. Did IBM come up with innovations and new technology? No, it was a small company in the United States called Microsoft to which no-one was paying much attention and which was pretty much a garage operation. Anyone now renting a small workshop in a Welsh lane will have to pay the full whack on business rates. How does that encourage people to take a punt and test their enterprising ideas? That is how we will get a more effective economy in the long run. We need thousands of people to be more enterprising, to set up businesses and give it a go. One or two may eventually become not only big businesses in Wales but perhaps big multinational players. We must seed the whole economy. This is the best way that we can do that directly from Cardiff bay using devolved powers.

This is only the start of our vision for small businesses. We must go a lot further, but at least we are getting the cheque book out on this in a way that materially benefits many businesses. They can see the value and the colour of our money. Enterprise creation is key to the economy. We have been fairly good in the past at attracting investors, but

maes polisi hwn a meddwl am rywbeth mwy uchelgeisiol o lawer. Dro ar ôl tro, dywed mai ardrethi busnes yw'r gost fwyaf sy'n wynebu busnesau bach, ar ôl rhent a chyflogau, a bod angen ichi gymryd camau mwy effeithiol. Eto i gyd, ceir gwrthddweud parhaus yn eich polisi, gan fod y rhaglen adnewyddu economaidd, sy'n cynnwys rhywfaint o gyfarwyddyd newydd diddorol, yn galw am amgylchedd effeithiol a defnyddiol ar gyfer busnesau. Mae pob un ohonom yn cytuno â hynny, ond beth fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer busnesau bach? Gostwng ardrethi busnes neu eu dileu ar gyfer busnesau bach. Nid ydych wedi cymryd yr un o'r camau hynny eto. Dyna lle rydym yn gweld twll mawr yn eich ffordd o feddwl a'r ffordd rydych yn rhoi eich meddwl ar waith.

Roeddwn yn darllen colofn John Kay y bore yma yn y *Financial Times*, lle'r oedd yn dweud nad yw llywodraeth fawr yn deall yn iawn gan nad yw'n gwybod sut i wrando ar lais busnes. Yn y 1970au, roedd llywodraeth fawr yn gwrando ar IBM. A wnaeth IBM ddod o hyd i arloesedd a thechnoleg newydd? Na, cwmni bach yn yr Unol Daleithiau o'r enw Microsoft wnaeth hynny, cwmni nad oedd neb yn rhoi llawer o sylw iddo ac a oedd, fwy na hen, yn gyw-cwmni. Bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n rhentu gweithdy bach ar un o lonydd Cymru bellach dalu ardrethi busnes llawn. Sut y mae hynny'n annog pobl i fentro a phrofi eu syniadau mentergarwch? Dyna sut y byddwn yn cael economi mwy effeithiol yn yr hirdymor. Mae arnom angen i filoedd o bobl fod yn fwy mentrus, i sefydlu busnesau a rhoi cynnig arni. Gallai un neu ddau ddod yn fusnesau mawr yng Nghymru yn y pendraw, ac efallai hyd yn oed yn chwaraewyr rhyngwladol mawr. Rhaid inni hau hadau ar gyfer yr economi gyfan. Dyma'r ffordd orau y gallwn wneud hynny yn uniongyrchol o fae Caerdydd gan ddefnyddio pwerau datganoledig.

Nid yw hyn ond dechrau ein gweledigaeth ar gyfer busnesau bach. Rhaid inni fynd lawer ymhellach, ond rydym o leiaf yn dod â'r llyfr siec i'r golwg mewn ffordd sydd o fudd materol i nifer o fusnesau. Gallant weld gwerth a lliw ein harian. Mae creu mentergarwch yn allweddol i'r economi. Rydym wedi bod yn weddol dda yn y

we have not been as successful as we would have wanted in improving enterprise culture in Wales. We must do that. It is not enough to encourage young people to start their own businesses if their first contact with Government is a whacking great bill from the local authority for business rates. We need to think very clearly on these issues.

The poor sole traders out there who have small businesses and provide for their families year in, year out also need support with business rates. They are dismissively referred to as lifestyle businesses by the Welsh Assembly Government, as if they are of no great value. They are very important and play a crucial part in Welsh economic activity. They also deserve support.

We intend to return to the question of small businesses and how they should be supported next week, because this is a vital area in which the Welsh Assembly Government has failed abjectly. We will not lessen the pressure, but before Carl Sargeant goes even paler I will say that next week's subject will be business support; therefore, the Deputy First Minister will have to be here and he will be off the hook.

I will conclude by turning to the amendments. We are happy to support the Liberal Democrats' amendment, which explores an interesting way to be more creative with local government powers to encourage enterprise. Half of the WAG amendment, amendment 1, is self-congratulatory, which is wholly undeserved, and the second part is irrelevant. It returns to another issue and tries to pass the buck by talking about fair funding, which is on our agenda. We want to ensure that Wales gets the best deal as devolution takes root and that the issue of fiscal devolution is looked at. We will not allow the people of Wales to be fooled by that when we have had such inaction on that, as well as on business rates, from the Labour-led Welsh Assembly Government.

gorffennol am ddenu buddsoddwyr, ond nid ydym wedi bod mor llwyddiannus ag y byddem wedi dymuno wrth wella diwylliant menter yng Nghymru. Rhaid inni wneud hynny. Nid yw annog pobl ifanc i ddechrau eu busnesau eu hunain yn ddigon os mai eu cyswllt cyntaf â'r Llywodraeth yw bil anferth gan yr awdurdod lleol am ardrethi busnes. Mae angen inni feddwl yn glir iawn ynghylch y materion hyn.

Mae ar yr unig fasnachwyr druan hynny sydd â busnesau bach ac sy'n darparu ar gyfer eu teuluoedd flwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd angen cymorth gydag ardrethi busnes. Cyfeirir atynt yn ddiystyriol fel busnesau ffordd o fyw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel pe na baent o unrhyw werth mawr. Maent yn bwysig iawn ac yn chwarae rhan hanfodol yng ngweithgarwch economaidd Cymru. Maent hwy hefyd yn haeddu cefnogaeth.

Rydym yn bwriadu dychwelyd at fusnesau bach a sut y dylent gael eu cefnogi yr wythnos nesaf, gan fod hwn yn faes hanfodol lle mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu'n enbyd. Ni fyddwn yn lleihau'r pwysau, ond cyn i Carl Sargeant fynd hyd yn oed yn fwy llwyd, gallaf ddweud mai cymorth busnes fydd pwnc yr wythnos nesa; felly, bydd yn rhaid i'r Dirprwy Brif Weinidog fod yma a gall ymlacio am y tro.

Rwyf am gloi drwy droi at y gwelliannau. Rydym yn fodlon cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n edrych ar ffordd ddiddorol o fod yn fwy creadigol gyda phwerau llywodraeth leol er mwyn hybu mentergarwch. Mae hanner gwelliant Llywodraeth Cynulliad Cymru, gwelliant 1, yn hunan-longyfarch, sydd yn gwbl anhaeddiannol, ac mae'r ail ran yn amherthnasol. Mae'n dychwelyd at fater arall ac yn ceisio taflu'r baich drwy sôn am ariannu teg, sydd ar ein hagenda ni. Rydym am sicrhau bod Cymru'n cael y fargen orau wrth i ddatganoli fagu gwreiddiau ac am sicrhau bod datganoli ariannol yn cael ei ystyried. Ni fyddwn yn caniatáu i bobl Cymru gael eu twyllo gan hynny, wrth inni weld cymaint o ddiffyg gweithredu arno, yn ogystal ag ar ardrethi busnes, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan arweiniad y Blaid Lafur.

*Gwelliant 1 Jane Hutt**Dileu popeth a rhoi yn ei le:**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1. Yn croesawu'r gwelliant a wnaed i gynllun rhyddhad ardrethi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer busnesau bach yng Nghymru, a fydd yn golygu bod mwy na hanner ein busnesau yn talu ardrethi sylweddol is, os o gwbl, am y 12 mis o 1 Hydref 2010 ac;

2. Yn cydnabod y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu ystyried gwneud mwy o welliannau i'r cynllun rhyddhad ardrethi os yw Llywodraeth y DU yn barod i sicrhau cyllid tecach i Gymru, yn unol ag argymhelliad Comisiwn Holtham.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I move amendment 1.

*Gwelliant 2 Peter Black**Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn credu y bydd system o ariannu drwy gynyddrannau treth, i alluogi awdurdodau lleol i fenthg yn erbyn incwm yn y dyfodol o ardrethi busnes, yn helpu awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf i hybu mentergarwch yn y sector busnesau bach.

Jenny Randerson: I move amendment 2.

This week, I received a copy of the annual survey of the Federation of Small Businesses, which contained some interesting figures. It reports that 70 per cent of its members in Wales pay business rates; contrast that with Scotland, where only 41 per cent pay business rates. There you see the inbuilt advantage of setting up and running a small business in Scotland. This is not window dressing, Minister; the issue is a key one. In terms of hurdles for their business, small businesses put the significance of business rates way ahead of VAT, for example. The Minister said during questions that there is no money for a more generous scheme. With

*Amendment 1 Jane Hutt**Delete all and replace with:**The National Assembly for Wales:*

1. Welcomes the enhancement to the Welsh Assembly Government rate relief scheme for small businesses in Wales that will mean more than half of businesses paying significantly reduced or no rates for the 12 months from 1 October 2010 and;

2. Acknowledges that the Welsh Assembly Government would be able to consider providing further enhancements to the rate relief scheme if the U.K. Government is prepared to ensure fairer funding for Wales, as recommended by the Holtham Commission.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Cynigiau welliant 1.

*Amendment 2 Peter Black**Add as new point at end of motion:*

Believes that a system of tax increment financing to enable local authorities to borrow against future income from business rates will help local authorities to invest in capital projects to encourage enterprise in the small business sector.

Jenny Randerson: Cynigiau welliant 2.

Yr wythnos hon, cefais gopi o arolwg blynyddol y Ffederasiwn Busnesau Bach, a oedd yn cynnwys rhai ffigurau diddorol. Mae'n dweud bod 70 y cant o'i aelodau yng Nghymru yn talu ardrethi busnes; cymharwch hynny â'r Alban, lle dim ond 41 y cant sy'n talu ardrethi busnes. Dyna ichi fantais annatod sefydlu a rhedeg busnes bach yn yr Alban. Nid gwisgo ffenestr yw hyn, Weinidog; mae'n fater allweddol. O ran rhwystrau ar gyfer eu busnesau, mae busnesau bach yn rhoi mwy o arwyddocâd i ardrethi busnes nag i TAW, er enghraifft. Dywedodd y Gweinidog yn ystod y cwestiynau nad oes arian ar gyfer cynllun

that in mind, we put forward an amendment that will cost no money. It is a way of creating additional resources without additional cost to the Government.

The issue of tax-increment financing is not something that sets people talking in the pub on a Saturday evening. However, it is something that has the potential to develop towns and cities across Wales to rejuvenate and regenerate some of their most run-down areas. At its simplest, it is a mechanism that allows local authorities to borrow money to fund new developments by using the business rates that they will accrue in the future as collateral. It will allow councils to borrow money now and use the extra business rates that they would receive to pay off the loans in the future.

Currently, business rates are pooled into a Welsh pot. They are then redistributed among local authorities. Councils cannot do this; although they have the power to borrow, they cannot do this using business rates at the moment. There would be a potential element of sacrifice, I suppose, by the Assembly Government in the future, in terms of income from business rates or the impact of business rates. However, these are business rates that you would not get unless you borrowed the money to regenerate the towns. Therefore it is no loss, and no sacrifice by the Government.

The traditional route of funding capital investment over the last 10 years since devolution will clearly not work. Local authorities have less money to invest. Their capital budgets have been falling, and they will continue to do so. Revenue budgets will fall again over the next few years. Local authorities have often relied on land sales, but they accrue less income now than a few years ago. Therefore we believe that the announcement by the Deputy Prime Minister that tax-increment financing will go ahead in England leaves us in Wales with a golden opportunity to implement the necessary measures. I was glad to hear the Minister's reply, in which he said that he was considering it.

mwy hael. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi cyflwyno gwelliant na fydd yn costio dim arian. Mae'n ffordd o greu adnoddau ychwanegol heb gost ychwanegol i'r Llywodraeth.

Nid yw ariannu drwy gynyddrannau treth yn destun siarad yn y dafarn ar nos Sadwrn. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth sydd â'r potensial i ddatblygu trefi a dinasoedd ledled Cymru er mwyn adnewyddu ac adfywio rhai o'r mannau sydd wedi dirywio fwyaf. Ar ei symlaf, mae'n fecanwaith sy'n rhoi cyfle i awdurdodau lleol fenthycio arian i ariannu datblygiadau newydd drwy ddefnyddio'r ardrethi busnes y byddant yn eu cronni yn y dyfodol fel gwarant. Bydd yn rhoi cyfle i gynghorau fenthycio arian nawr a defnyddio'r ardrethi busnes ychwanegol y byddent yn eu derbyn i ad-dalu'r benthyciadau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae ardrethi busnes yn cael eu cyfuno mewn un gronfa yng Nghymru. Yna, cânt eu hailddosbarthu ymysg awdurdodau lleol. Ni all Cynghorau wneud hyn; er bod ganddynt y pŵer i fenthycio, ni allant wneud hyn gan ddefnyddio ardrethi busnes ar hyn o bryd. Byddai elfen bosibl o aberth, mae'n debyg, gan Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol, o ran incwm gan ardrethi busnes neu effaith ardrethi busnes. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ardrethi busnes na fydddech yn eu cael oni bai eich bod yn benthyca'r arian i adfywio'r trefi. Felly nid oes dim colled, ac nid oes unrhyw aberth gan y Llywodraeth.

Mae'n amlwg na fydd y llwybr traddodiadol o ariannu buddsoddiad cyfalaf dros y 10 mlynedd diwethaf ers datganoli yn gweithio. Mae gan awdurdodau lleol lai o arian i'w fuddsoddi. Mae eu cyllidebau cyfalaf wedi bod yn gostwng, a byddant yn parhau i ostwng. Bydd cyllidebau refeniw yn gostwng eto dros y blynyddoedd nesaf. Mae awdurdodau lleol yn aml wedi dibynnu ar werthu tir, ond maent yn cronni llai o incwm yn awr nag yr oeddent ychydig flynyddoedd yn ôl. Rydym yn credu, felly, bod y cyhoeddiad gan y Dirprwy Brif Weinidog y bydd Lloegr yn bwrw ymlaen ag ariannu drwy gynyddrannau treth yn rhoi cyfle euraidd i ni yma yng Nghymru weithredu'r mesurau angenrheidiol. Roeddwn yn falch o glywed ymateb y Gweinidog, lle dywedodd

Two things that are needed: negotiations with the UK Government on the quick drawing down of the relevant powers, if necessary; and secondly, policy determination.

4.40 p.m.

Once again, if we act on this swiftly, we will not get left behind. If we do not act on this swiftly, we will get left behind and we will not be giving our local authorities the opportunity to be right at the front of a new initiative to regenerate our inner towns and inner city centres.

Jonathan Morgan: I believe firmly that the Welsh Assembly Government and the National Assembly for Wales need to signal to the business community, particularly the small business community, that we value its contribution, that we want to support it, and that we see the future of the economy in Wales as being linked to its performance. During the Labour leadership campaign in Wales, I remember Carwyn Jones being asked whether he thought that the public sector was too big, to which he replied that it was not a question of the public sector being too big, but of the private sector being too small. Beyond that, we have heard very little from the Welsh Assembly Government, under his stewardship, as to what it will do to support small businesses.

We know that small businesses are economically significant in their contribution to jobs and growth, and that, at a time of economic uncertainty, growth among small businesses is essential. Small businesses are usually at the heart of the community, and if we want our villages and towns to thrive, then we need to assist in their expansion and invest in what they wish to achieve. They are also important because they demonstrate to the next generation of entrepreneurs what can be achieved by imagination and enthusiasm. If the Assembly Government is unwilling to signal that small businesses are important and are the future of the economy of this country, then we will do little to encourage potential entrepreneurs, such as young people in our schools and colleges whose ideas may

ei fod yn ystyried hynny.

Dau beth y mae eu hangen: trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar ddwyn y pwerau perthnasol ymlaen yn gyflym, os bydd angen; ac yn ail, penderfynu ar y polisi.

4.40 p.m.

Unwaith eto, pe baem yn gweithredu ar hyn yn gyflym, ni fyddwn ymhell ar ei hôl hi. Pe na baem yn gweithredu ar hyn yn gyflym, byddwn ymhell ar ei hôl hi ac ni fyddwn yn rhoi'r cyfle i'n hawdurdodau lleol fod ar flaen y gad o ran menter newydd i adfywio canol ein trefi a chanolfannau canol ein dinasoedd.

Jonathan Morgan: Credaf yn gryf bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ddangos i'r gymuned fusnes, yn enwedig y gymuned busnesau bach, ein bod yn gwerthfawrogi ei chyfraniad, ein bod am ei chefnogi, a'n bod yn gweld bod dyfodol yr economi yng Nghymru yn gysylltiedig â'i pherfformiad. Yn ystod ymgyrch arweinyddiaeth y Blaid Lafur yng Nghymru, rwyf yn cofio i rywrai ofyn i Carwyn Jones a oedd yn meddwl bod y sector cyhoeddus yn rhy fawr. Ei ateb oedd nad oedd a wnelo hyn â sector cyhoeddus sy'n rhy fawr, ond yn hytrach â sector preifat sy'n rhy fach. Ar wahân i hynny, ychydig iawn rydym wedi'i glywed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan ei stiwardiaeth ef, am yr hyn y bydd yn ei wneud i gefnogi busnesau bach.

Rydym yn gwybod bod busnesau bach yn economaidd arwyddocaol wrth gyfrannu at swyddi a thwf, a bod twf ymhlith busnesau bach yn hanfodol mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd. Mae busnesau bach fel arfer wrth galon y gymuned, ac os ydym am i'n pentrefi a'n trefi ffynnu, mae angen inni eu cynorthwyo i ehangu a buddsoddi yn yr hyn maent yn dymuno ei gyflawni. Maent hefyd yn bwysig am eu bod yn dangos i'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid beth y gellir ei gyflawni gyda dychymyg a brwdfrydedd. Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn amharod i ddangos bod busnesau bach yn bwysig, ac mai busnesau bach yw dyfodol economi'r wlad hon, yna ni fyddwn yn gwneud llawer i annog entrepreneuriaid posibl, fel pobl ifanc yn ein

flourish. They will simply not be encouraged if the Assembly Government will not demonstrate its willingness to support our small businesses.

I represent a constituency that has a handful of small villages, such as Tongwynlais, Whitchurch, Llanishen and Rhiwbina, which thrive simply because of the range of small businesses and outlets that are there to serve the local community. However, many of these small businesses have come and gone in the past 10 years, and many of the small businesses that have survived have proved to be the lifeblood of those villages and communities, by succeeding in drawing in customers, new investment and money. Without them, those villages would suffer incredible hardship and would certainly decline. Therefore, we need to find ways to support those entrepreneurs and find ways to alleviate the incredible costs that those small businesses face. Extending business rate relief to the rateable value of £10,000 would help tens of thousands of businesses throughout Wales. When you consider that many of those small businesses see business rates as one of the major financial burdens that they must encounter, then it is right that we should seek to be more ambitious here in Wales.

I am astonished that, once again, the Scots are stealing a march. Here we are, unable, and unwilling on that side of the Chamber, to countenance the idea of 100 per cent business rate relief, and yet the Scots are already doing it. They are supporting their businesses, while this lot here sit back, inanely looking on as though there is no problem that needs to be cured. That says a lot about the Welsh Assembly Government's attitude towards the business community in Wales.

David Melding was absolutely right when he pointed out that there is a referendum happening in March of next year, where people will not just decide whether they think the Assembly ought to have more powers, but will also use it to pass a judgment as to whether the Assembly has been using its current powers effectively. That concerns me, because if we lose that referendum, for

hysgolion a'n colegau y gallai eu syniadau ffynnu. Yn syml, ni fyddant yn cael eu hannog os na fydd Llywodraeth y Cynulliad yn dangos ei pharodrwydd i gefnogi ein busnesau bach.

Rwyf yn cynrychioli etholaeth sydd â llond llaw o bentrefi bach, fel Tongwynlais, yr Eglwys Newydd, Llanisien a Rhiwbeina, sy'n ffynnu yn syml o ganlyniad i'r ystod o fusnesau a siopau bach sydd yno i wasanaethu'r gymuned leol. Fodd bynnag, mae llawer o'r busnesau bach hyn wedi mynd a dod dros y 10 mlynedd diwethaf, ac mae llawer o'r busnesau bach sydd wedi goroesi wedi profi mai nhw sy'n cadw'r pentrefi a'r cymunedau hynny'n fyw, gan lwyddo i ddenu cwsmeriaid, buddsoddiad newydd ac arian. Hebddynt, byddai'r pentrefi hynny yn dioddef caledi anhygoel a byddant yn sicr yn dirywio. Mae angen inni felly ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi'r entrepreneuriaid hynny a dod o hyd i ffyrdd o liniaru'r costau anhygoel sy'n wynebu'r busnesau bach hynny. Byddai ehangu'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes i werth ardrethol o £10,000 yn helpu degau o filoedd o fusnesau ledled Cymru. Pan fyddwch yn ystyried bod llawer o'r busnesau bach hynny yn gweld ardrethi busnes fel un o'r prif feichiau ariannol y mae'n rhaid iddynt eu hwynebu, yna mae'n iawn inni geisio bod yn fwy uchelgeisiol yma yng Nghymru.

Unwaith eto, rwyf yn rhyfeddu bod yr Albanwyr yn achub y blaen. Dyma ni, ddim yn gallu, a ddim yn barod ar yr ochr honno o'r Siambr, i ystyried rhyddhad ardrethi busnes 100 y cant, ac eto mae'r Albanwyr eisoes yn gwneud hynny. Maent yn cefnogi eu busnesau, wrth i'r rhain yma eistedd yn ôl, gan edrych ar y sefyllfa heb ei weld yn glir, fel pe nad oes problem y mae angen ei datrys. Mae hynny'n dweud llawer am agwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at y gymuned fusnes yng Nghymru.

Roedd David Melding yn llygad ei le wrth iddo dynnu sylw at y ffaith bod refferendwm yn digwydd ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf, lle bydd pobl yn penderfynu a ydynt yn credu y dylai'r Cynulliad gael rhagor o bwerau, yn ogystal ag yn lleisio barn ynglŷn ag a yw'r Cynulliad wedi bod yn defnyddio ei phwerau cyfredol yn effeithiol. Rwyf yn pryderu am hynny, oherwydd pe baem yn

whatever reason, please think about the damage that will be done to this institution and to Members who serve in it. There are a variety of reasons why we must win that referendum, but the business community in Wales will rightly say that, under the current powers—where we have powers to make a difference—it does not believe that the Assembly Government is doing all that it could. That would be damaging for this institution and for the Welsh Assembly Government. It does nothing for the image of this country for the Welsh Assembly Government to be seen as anti-business. Sadly, you are seen as being anti-business, not just by large companies, but by small companies as well. An Assembly Government that is not willing to listen to the business community is an Assembly Government that will do damage to our economy in the longer term.

Alun Davies: The description that we have just heard from Jonathan Morgan, colourful though it was, bears no relation at all to the reality of what the Government is doing and has been doing. We listen to the Conservatives telling us that this policy has to be at the heart of business support, and that they will return to this week after week. I hope that, next week, their leader will bother to stay to listen to the debate. If you expect to be taken seriously and cannot even ensure—*[Interruption.]*

It is your debate. What you are saying this afternoon would be far more credible if your leader were here to lead the debate, but he is not. He cannot be bothered, so why should we listen to you?

Darren Millar: Do you regret the fact that your own leader, the First Minister, has not come to this debate, and neither has the Deputy First Minister, who is responsible for the economy and transport, the very subject of the debate?

Alun Davies: Darren, sit down.

The Deputy Presiding Officer: Order. You agreed, Alun, to Darren Millar making an

colli'r refferendwm hwnnw, am ba reswm bynnag, meddylwch am y difrod a fydd yn cael ei wneud i'r sefydliad hwn ac i'r Aelodau sy'n gwasanaethu ynddo. Ceir amrywiaeth o resymau pam y mae'n rhaid inni ennill y refferendwm hwnnw, ond bydd y gymuned fusnes yng Nghymru yn dweud, a hynny'n briodol, nad yw'n credu bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth y gallai o dan y pwerau cyfredol—lle mae gennym bwerau i wneud gwahaniaeth. Byddai hynny yn niweidiol i'r sefydliad hwn ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni fyddai'n fanteisiol i ddelwedd y wlad hon pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei hystyried yn wrth-fusnes. Yn anffodus, rydych yn cael eich hystyried yn wrth-fusnes, nid yn unig gan gwmnïau mawr, ond gan gwmnïau bach hefyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad nad yw'n barod i wrando ar y gymuned fusnes yn Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn gwneud difrod i'n heconomi yn y tymor hwy.

Alun Davies: Nid oes gan y disgrifiad rydym newydd ei glywed gan Jonathan Morgan, er ei fod yn lliwgar, ddim a wnelo â realiti'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud ac wedi bod yn ei wneud. Rydym yn gwranddo ar y Ceidwadwyr yn dweud wrthym bod yn rhaid i'r polisi hwn fod wrth wraidd cymorth busnes, ac y byddant yn dychwelyd at hyn wythnos ar ôl wythnos. Rwyf yn gobeithio y bydd eu harweinydd yn trafferthu i aros i wrando ar y ddadl yr wythnos nesaf. Os ydych chi'n disgwyl cael eich cymryd o ddifrif a methu â hyd yn oed sicrhau—*[Torri ar draws.]*

Eich dadl chi yw hi. Byddai'r hyn rydych yn ei ddweud y prynhawn yma yn fwy credadwy o lawer pe bai eich harweinydd yma i arwain y ddadl, ond nid yw yma. Ni all drafferthu, felly pam ddylem ni wrando arnoch chi?

Darren Millar: A ydych yn gresynu at y ffaith nad yw eich arweinydd eich hun, Brif Weinidog, wedi dod i'r ddadl hon, nac y Dirprwy Brif Weinidog ychwaith, sy'n gyfrifol am yr economi a thrafnidiaeth, sef union bwnc y ddadl?

Alun Davies: Darren, eisteddwch i lawr.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gwnaethoch gyntuno, Alun, y gall Darren Millar wneud

intervention. Have you finished, Darren?

Darren Millar: Yes, I have.

The Deputy Presiding Officer: Thank you. I call Alun Davies.

Alun Davies: I agreed, and I regret it.

Darren, this is your time. This is not our time or the Government's time; this is Conservative time. If your leader cannot be bothered to stay here for a debate in which you are telling us that this is the most important policy facing the Welsh Government at the moment, that speaks volumes about your leader, your policies and your party.

In the thin argument that some of the Conservatives have served up to us this afternoon, we have heard a description of a reality that simply does not exist. What we have heard is a proposal. Last year, when we had similar debates with the Conservatives—at least they are consistent—we heard that they wanted to move support from businesses that had suffered during the downturn to those that had not suffered in the same way. They wanted to move money from the businesses that needed greater support to those that needed less support. That is the same way as the way in which they approach other aspects of policy: from those who need the most, we take. That is the reality of what we have heard from the Conservatives this afternoon.

We have also heard the Conservatives say that we should be spending more money on this—they say it every week, as do the Liberals. Every week, they say that we should spend more money on different areas of policy. We have not heard one of the speakers say where that money will come from. I enjoyed David Melding's opening speech—it is a shame that his party does not appreciate how good he is, but that is another point. He did not say a word about who should pay for all of that or where the money should come from—none of them ever do. They are sitting like goldfish behind him, speaking away and talking about the failures

ymyriad. A ydych wedi gorffen, Darren?

Darren Millar: Ydw.

Y Dirprwy Lywydd: Diolch. Galwaf ar Alun Davies.

Alun Davies: Bu imi gytuno, ac rwyf yn difaru.

Darren, dyma eich amser chi. Nid ein hamser ni nac amser y Llywodraeth ydyw; amser y Ceidwadwyr ydyw. Os na all eich arweinydd drafferthu i aros yma ar gyfer dadl lle rydych yn dweud wrthym mai dyma'r polisi pwysicaf sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, mae hynny'n dweud cyfrolau am eich harweinydd, eich polisiau a'ch plaid.

Yn y ddadl denau y mai rhai o'r Ceidwadwyr wedi ei chyflwyno ger ein bron y prynhawn yma, rydym wedi clywed disgrifiad o realiti nad yw'n bodoli. Cynnig yw'r hyn rydym wedi ei glywed. Y llynedd, pan y cawsom ddadleuon tebyg gyda'r Ceidwadwyr—maent yn gyson, o leiaf—clywsom bod arnynt eisiau mynd â chymorth oddi ar fusnesau a oedd wedi dioddef yn ystod y dirwasgiad, a'i roi i'r rheini nad oeddent wedi dioddef yn yr un ffordd. Roedd arnynt eisiau mynd ag arian oddi ar y busnesau yr oedd arnynt angen mwy o gymorth, a'i roi i'r rheini yr oedd arnynt angen llai o gymorth. Dyna'r ffordd y maent yn mynd i'r afael ag agweddau eraill ar bolisi hefyd: cymryd gan y rhai sydd fwyaf mewn angen. Dyna realiti'r hyn rydym wedi ei glywed gan y Ceidwadwyr y prynhawn yma.

Rydym hefyd wedi clywed y Ceidwadwyr yn dweud y dylem fod yn gwario rhagor o arian ar hyn—maent yn dweud hyn bob wythnos, fel y mae'r Rhyddfrydwyr yn ei wneud. Bob wythnos, maent yn dweud y dylem wario rhagor o arian ar wahanol feysydd polisi. Nid ydym wedi clywed yr un o'r siaradwyr yn dweud o ble y daw'r arian. Gwnes fwynhau araith agoriadol David Melding—trueni nad yw ei blaid yn gwerthfawrogi pa mor dda ydyw, ond pwynt arall yw hynny. Ni ddywedodd air ynglŷn â phwy ddylai dalu am hynny i gyd neu o ble y dylai'r arian ddod—nid oes yr un ohonynt byth yn gwneud. Maent yn eistedd fel pysgod aur y tu ôl iddo,

of the Government, without telling us where the money will come from. It is little wonder that the Welsh people do not believe a word that they say.

The letter that the Government sent out earlier this month ensured that most small businesses in Wales will not pay business rates. That is a success story. I see that the Deputy Minister for Housing and Regeneration is in the Chamber. We spoke over recess about support for town centres, and particularly those in more deprived parts of Wales. That is a policy that supports small businesses in those places, but you do not care, do not know about it, are out of touch with it, and do not understand it. I welcome the fact that 60 per cent of businesses have gained from that policy, and that it is a policy that takes businesses out of having to pay rates. Let me tell you, as someone who has run a small business—and I do not think that any of you have run a business, like I did—*[Interruption.]*

I am not taking any more interventions because I am in the last minute of my contribution. Listen to these people who have not done it themselves, lecturing those of us who have on what our priorities should be. Let me tell you now: you are out of touch with business in the same way that you are out of touch with Wales. When it comes to 5 May next year, you will be kicked into touch yet again.

4.50 p.m.

Mohammad Asghar: I am pleased to have the chance to contribute to this important debate. Members on this side of the Chamber have tried to push this issue onto the agenda for a long time. That is because, quite simply, it has huge implications for shopkeepers, businesses and traders across Wales.

Business rates rank among the top three forms of expenditure for small businesses. A lack of business rate relief in Wales has caused considerable damage to many small

yn siarad ac yn clebran ynglŷn â methiannau'r Llywodraeth, heb ddweud wrthym o ble y daw'r arian. Nid yw'n syndod nad yw pobl Cymru'n credu gair y maent yn ei ddweud.

Roedd y llythyr y gwnaeth y Llywodraeth ei anfon yn gynharach y mis hwn yn sicrhau na fydd y rhan fwyaf o fusnesau bach yng Nghymru yn talu ardrethi busnes. Mae hynny yn llwyddiant ysgubol. Gwelaf fod y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio yn y Siambr. Buom yn siarad yn ystod y toriad am gymorth ar gyfer canol trefi, ac yn enwedig y rheini mewn mannau mwy difreintiedig o Gymru. Mae hynny'n bolisi sy'n cefnogi busnesau bach yn y lleoedd hynny, ond nid ydych yn poeni am hyn, nid ydych yn gwybod am hyn, nid oes gennych chi syniad am hyn o gwbl, ac nid ydych yn ei ddeall. Croesawaf y ffaith bod y polisi hwnnw wedi bod o fudd i 60 y cant o fusnesau, a'i fod yn bolisi sy'n sicrhau nad oes yn rhaid i fusnesau dalu ardrethi. Gadewch imi ddweud wrthy, fel rhywun sydd wedi rhedeg busnes bach—ac nid wyf yn credu bod yr un ohonoch wedi rhedeg busnes, fel y gwnes i—*[Torri ar draws.]*

Nid wyf am dderbyn rhagor o ymyriadau gan fy mod ym munud olaf fy nghyfraniad. Gwrandewch ar y bobl hyn nad ydynt wedi ei wneud eu hunain yn pregethu wrth y rheini ohonom sydd wedi ei wneud ynglŷn â beth ddylai ein blaenoriaethau fod. Gadewch imi ddweud wrthy, nawr: nid oes gennych chi syniad am fusnes, ac nid oes gennych chi syniad am Gymru. Pan ddaw 5 Mai y flwyddyn nesaf, cewch eich rhoi yn eich lle unwaith eto.

4.50 p.m.

Mohammad Asghar: Rwyf yn falch o gael y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Mae'r Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr wedi ceisio gwthio'r mater hwn ar yr agenda ers amser maith. Y rheswm am hynny, yn syml iawn, yw bod ganddo oblygiadau mawr i berchnogion siop, i fusnesau ac i fasnachwyr dros Gymru gyfan.

Mae ardrethi busnes ymysg y tri math uchaf o wariant ar gyfer busnesau bach. Mae diffyg rhyddhad ardrethi busnes yng Nghymru wedi achosi niwed sylweddol i

businesses. The business rate burden has been too much to handle for many small businesses while, for others, it has squeezed them to near breaking point. Times have been particularly hard for many businesses across my region of South Wales East.

The additional support that becomes available to businesses for 12 months from 1 October was implemented, as we have heard, due to enhancements initiated by the previous UK Government. That does not come close to matching our proposal that all businesses with a rateable value of up to £10,000 should not pay any business rates whatsoever. It is regrettable that a more extensive scheme has not been put forward by the Welsh Assembly Government. It is also regrettable that additional relief offered to businesses in Wales has come from the UK level. I urge the Welsh Assembly Government to rethink the business rate relief that it offers across Wales to ensure that every step is taken to inspire a spirit of entrepreneurship and to ensure that we are encouraging enterprise and business across this great nation.

The First Minister and other Cabinet Members regularly emphasise a commitment to stimulating growth in the private sector. It was also a commitment of the 'One Wales' agreement to create a positive climate for business growth and, additionally, to use all the tools available to enable business to flourish and expand.

We have powers in Wales to aid and push forward economic development and a more far-reaching relief scheme would aid small businesses in the current climate. It could also prove invaluable in encouraging new business start-ups. Such powers could be the strongest and most influential tools at the Welsh Assembly Government's disposal. In other parts of the United Kingdom, more extensive schemes have been in place to alleviate the impact that business rates have on small businesses.

Scotland has long had more extensive and generous rate relief, yet the Labour Party in

lauer o fusnesau bach. Mae'r baich sy'n deillio o ardrethi busnes wedi bod yn ormod i lauer o fusnesau bach, ac mae wedi gwasgu eraill nes eu bod yn agos at fynd i'r wal. Mae wedi bod yn gyfnod arbennig o galed i lauer o fusnesau ledled fy rhanbarth innau, sef Dwyrain De Cymru.

Cafodd y cymorth ychwanegol a fydd ar gael i fusnesau am 12 mis o 1 Hydref ymlaen ei roi ar waith, fel y clywsom, o ganlyniad i welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU. Nid yw hynny'n dod yn agos at gyfateb ein cynnig y dylai pob busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £10,000 gael peidio â thalu ardrethi busnes. Mae'n anffodus nad oes cynllun ehangach wedi cael ei gynnig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n anffodus hefyd bod rhyddhad ychwanegol a gynigir i fusnesau yng Nghymru wedi dod o lefel y DU. Rwyf yn erfyn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ailystyried y rhyddhad ardrethi busnes y mae'n ei gynnig ledled Cymru i sicrhau y cymerir yr holl gamau posibl i ysbrydoli ysbryd o entrepreneuriaeth ac i sicrhau ein bod yn hybu mentergarwch a busnes ar draws y genedl arbennig hon.

Mae'r Prif Weinidog ac Aelodau eraill y Cabinet yn rheolaidd yn pwysleisio ymrwymiad i ysgogi twf yn y sector preifat. Hefyd, un o ymrwymadau cytundeb 'Cymru'n Un' oedd creu hinsawdd gadarnhaol ar gyfer twf busnes ac, ar ben hynny, defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i alluogi busnesau i ffynnu ac ehangu.

Mae gennym bwerau yng Nghymru i gynorthwyo datblygu economaidd ac i'w wthio yn ei flaen, a byddai cynllun rhyddhad mwy pellgyrhaeddol yn cynorthwyo busnesau bach yn yr hinsawdd bresennol. Gallai hefyd fod yn amhrisiadwy o ran hybu sefydlu busnesau newydd. Gallai pwerau o'r fath fod yr adnoddau cryfaf a mwyaf dylanwadol sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w defnyddio. Yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae cynlluniau ehangach wedi cael eu rhoi ar waith i liniaru'r effaith y mae ardrethi busnes yn ei chael ar fusnesau bach.

Mae'r Alban wedi sicrhau rhyddhad ardrethi ehangach a mwy hael ers amser, ac eto mae'r

Scotland has still been critical of the impact that business rates can have north of the border. Yet, under a Labour-led coalition in Wales, the Welsh business rate relief system has become the least competitive in the United Kingdom and has become reliant on the UK Government to provide extensions to relief. What would the Scottish Labour Party make of the less competitive system that we have in Wales?

I urge all Members to support our motion today because, in failing to offer a more far-reaching scheme of business rate relief, the forecast remains gloomy for many businesses across Wales. I come from an accountancy background and I know that many businesses in Wales will suffer if we do not do something now. We have something in our hands that could offer a life-saving injection to these businesses. This is the last opportunity that you will miss and I assure you that you will regret it because many businesses are looking towards us. We are heading towards the elections and this is one of the most important tools to give small businesses a lifeline and to encourage them to flourish in our cities and towns. So many towns and cities have empty shops because of these damn business rates. It is about time that you come to your senses and do something to get this job done as soon as possible.

Gareth Jones: A gawn ni gytuno ar un peth? Mae ardrethi busnes yn annheg ac yn niweidiol gan nad ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i allu busnes i'w talu. Fel y gwyddoch, nid ydyw yn fy natur i fod yn feirniadol o'r Ceidwadwyr, ond yn groes i ddehongliad huawdl David Melding, nid yw record y Torïaid ar y mater hwn yn un da. Hwya a orfododd y system arnom yn ôl yn 1990 drwy Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bron i flwyddyn yn ôl, ym mis Hydref y llynedd, honnodd Nick Bourne—a gresyn nad yw yma—y byddai'r ailbrisio ar y pryd yn cael yr effaith o godi £0.5 miliwn yn ychwanegol ar fusnesau yn Stryd Mostyn yn Llandudno. Yr oedd hynny'n gwbl anwir. Diolch i'r hyn a wnaeth Llywodraeth Cymru, mae'r cyfanswm net wedi lleihau.

Blaid Lafur yn yr Alban wedi bod yn feirniadol o hyd o'r effaith y gall ardrethi busnes ei gael i'r gogledd o'r ffin. Eto i gyd, o dan glymblaid dan arweiniad y Blaid Lafur yng Nghymru, system rhyddhad ardrethi busnes Cymru yw'r lleiaf cystadleuol yn y Deyrnas Unedig, ac mae wedi dod i ddibynnu ar Lywodraeth y DU i ddarparu estyniadau i ryddhad. Beth fyddai Plaid Lafur yr Alban yn ei feddwl am y system llai cystadleuol sydd gennym yng Nghymru?

Rwyf yn erfyn ar yr holl Aelodau i gefnogi ein cynnig heddiw oherwydd, wrth fethu â chynnig cynllun rhyddhad ardrethi busnes mwy pellgyrhaeddol, mae'r rhagolwg yn parhau i fod yn dywyll ar gyfer llawer o fusnesau ledled Cymru. Rwyf yn dod o gefndir cyfrifo a gwn y bydd llawer o fusnesau yng Nghymru yn dioddef os na fyddwn yn gwneud rhywbeth yn awr. Rydym yn eiddo ar rywbeth a allai gynnig hwb hollbwysig i achub y busnesau hyn. Dyma'r cyfle olaf y byddwch yn ei golli a gallaf eich sicrhau y byddwch yn difaru, gan fod llawer o fusnesau yn dibynnu arnom. Rydym ar drothwy'r etholiadau a dyma un o'r arfau pwysicaf i roi cyfle i fusnesau bach gael eu hachub ac i'w hannog i ffynnu yn ein dinasoedd a'n trefi. Mae gan gynifer o drefi a dinasoedd siopau gwag oherwydd yr ardrethi busnes felltith hyn. Mae'n hen bryd ichi ddod at eich synhwyrâu a gwneud rhywbeth i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo modd.

Gareth Jones: Can we agree on one thing? Business rates are unfair and damaging because they do not give any consideration at all to a business's ability to pay. As you will be aware, it is not in my nature to be critical of the Conservatives, but contrary to David Melding's eloquent interpretation, the Tories do not have a good record on this issue. They forced the system on us in 1990 through the Local Government Finance Act 1988. Nearly a year ago, in October of last year, Nick Bourne—and it is a shame that he is not here—claimed that revaluation at that time would cost businesses on Mostyn Street in Llandudno an additional £0.5 million. That was completely untrue. Thanks to the Welsh Government's actions, the net total has been reduced.

Lle bo record y Torïaid yn y cwestiwn, peidiwn ag anghofio ychwaith eu honiad y byddai'r busnesau yn Stryd Mostyn, sef prif stryd siopa Llandudno, yn talu, ar gyfartaledd, 15 y cant yn ychwanegol ar ben eu hardrethi busnes eleni. Mae'r gwir unwaith eto'n gwbl groes i hynny. Diolch i gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, bydd tri chwarter yr holl fusnesau ar Stryd Mostyn yn derbyn biliau llai o ddydd Gwener—byddant yn talu llai.

Mae'r Torïaid yn beio Llywodraeth Cymru am beidio â gohirio'r gwaith o ailbriso, a hwythau'n gwybod yn iawn na all y Llywodraeth wneud hynny oherwydd Deddf a gyflwynwyd ganddynt. Dyna'u record, ac ni allaf ddeall safbwynt David o ystyried ei fod yn record gwarthus. Maent yn barod i feio pawb a phob un am eu polisïau cyfeiliornus. Maent eisoes wedi gwneud difrod mawr i hyder busnes yn etholaeth Aberconwy gyda'u datganiadau bwriadol gamarweiniol. Hyd yn oed yn awr, mae Aelod Seneddol Aberconwy wedi chwarae'r un triciau â rhyw gynnig rhyfedd i ddileu ProAct a ReAct, er gwaethaf eu llwyddiannau o ran cadw pobl mewn gwaith a hyfforddi rhai sydd wedi cael eu diswyddo, er mwyn defnyddio'r arbedion—dyna'r rhesymu—i leihau ardrethi busnes. Mi ddylai wybod y byddai hyn yn ddefnydd anghyfreithlon o arian cyhoeddus a chronfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

Mae angen i'r Ceidwadwyr edrych ar eu tactegau o ran ardrethi busnes. Po fwyaf yr ydych yn honni eich bod yn bencampwyr yn y maes hwn, mwyaf y twll yr ydych yn ei agor i chi eich hunain o ystyried eich record. Diolch i'r drefn nad y Torïaid sy'n rhedeg pethau yma yng Nghymru.

Ni allwn newid y polisi'n sylfaenol, ond yr ydym serch hynny wedi medru lliniaru ei effeithiau gwaethaf. Yr ydym wedi codi'r trothwy, lleihau'r lluosydd a chynyddu'r rhyddhad ardrethi i'r busnesau lleiaf a mwyaf bregus. Mae hynny'n ffaith. Yr ydym wedi gwneud hynny yn awtomatig ac nid yn fiwrocraidd fel yn Lloegr, a sicrhau nad yw'r busnesau lleiaf yn cael eu gorfodi i roi cymhorthdal i'r busnesau mwyaf o dan gynllun rhyddhad treth trosiannol fel y mae'r Torïaid yn ei gynnig.

As far as the Tories' record is concerned, we must not forget their claim that businesses in Mostyn Street, which is Llandudno's main shopping street, would pay, on average, an additional 15 per cent on top of their business rates this year. Once again, the opposite is true. Thanks to steps taken by the Welsh Government, three quarters of all businesses on Mostyn Street will receive reduced bills from Friday—they will pay less.

The Tories blame the Welsh Government for not deferring revaluation, when they know full well that the Government cannot do that because of the Act that they introduced. That is their record, and I cannot understand David's point of view given that it is an appalling record. They are willing to blame everyone and anyone for their misguided policies. They have already severely damaged the confidence of businesses in the Aberconwy constituency with their deliberately misleading statements. Even now, the Member of Parliament for Aberconwy is playing the same tricks with an odd proposal to abolish ProAct and ReAct, despite the success of those schemes in keeping people in work and training those who have been made redundant, and using the savings—that is the rationale—to reduce business rates. He should know that that would be an unlawful use of public money and European Union funds.

The Conservatives need to look at their tactics in relation to business rates. The more you claim that you are champions in this field, the larger the hole that you dig for yourselves, given your record. Thank goodness the Tories are not running things in Wales.

We cannot fundamentally change the policy, but, however, we have been able to mitigate its greatest effects. We have raised the threshold, reduced the multiplier and increased business rate relief for the smallest and most fragile businesses. That is a fact. We have done so automatically, and not bureaucratically, as has been the case in England, and we have ensured that the smallest businesses are not forced to subsidise the largest businesses through the transitional rate relief scheme, as proposed by

the Tories.

Prysuared y dydd pan fydd gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru y grym i newid pethau'n sylfaenol a chynllunio system decach. Yr wyf yn sicr y bydd hyn yn digwydd. Gadewch i'r pwerau hynny gael eu datganoli ac mi fyddwn yn eu defnyddio i'r eithaf er budd busnesau Cymru. Dyna'r neges y mae'n rhaid i Jonathan ei chyfleu wrth sôn am y refferendwm. Pan soniwch am y difrod sy'n digwydd, eto'n gamarweiniol, rhaid peidio siarad Cymru a'i heconomi i lawr. Dywedwch fod pethau da yn digwydd, ond, gyda mwy o rym yn y lle hwn, byddai pethau gwell byth yn digwydd.

5.00 p.m.

Mark Isherwood: Are they not lucky that most people in Wales still blame the UK Government for the consequences of the failure of their policies—something that they actively encourage? As the regional organiser for the Federation of Small Businesses for North Wales and Chester has said, surely supporting entrepreneurial smaller businesses to grow into big businesses should be a priority. More than 64 per cent of innovation in the United Kingdom comes from small and medium-sized enterprises, not larger firms. However, under this Welsh Government, the Welsh business relief system has become the least competitive in the UK. The Federation of Small Businesses says that rents, wages and business rates are the three largest outgoing for small businesses. England offers transitional business rate relief. The Minister, Carl Sargeant, rejected this model on the grounds that firms with reductions in bills should not pay for those with increases. However, businesses with reducing bills will already have accommodated their level of rates into the business, while those with increases will have to adjust to paying even higher bills.

Northern Ireland cancelled its revaluation, with its Minister for finance saying,

'Unfortunately, while there are some signs of recovery in the wider economy, I do not

Hasten the day when the Assembly and the Welsh Government will have the power to change things fundamentally and plan a fairer system. I am certain that this will happen. Let us devolve those powers and we will use them to their greatest potential to benefit Welsh businesses. That is the message that Jonathan has to convey in talking about the referendum. When you talk about the damage that is being done, again misleadingly, you must not talk Wales and its economy down. Good things are happening, but, with more powers in this place, even better things will happen.

5.00 p.m.

Mark Isherwood: Onid ydynt yn ffodus iawn bod y rhan fwyaf o bobl Cymru yn dal i feio Llywodraeth y DU am ganlyniadau methiant eu polisiau—rhywbeth y maent yn ei annog yn frwd? Fel y mae trefnydd rhanbarthol y Ffederasiwn Busnesau Bach ar gyfer Gogledd Cymru a Chaer wedi dweud, oni ddylai cefnogi busnesau entrepreneuriaid bach i dyfu yn fusnesau mawr fod yn flaenoriaeth? Daw dros 64 y cant o arloesedd yn y Deyrnas Unedig gan fusnesau bach a chanolig, nid gan gwmnïau mwy. Fodd bynnag, o dan Lywodraeth bresennol Cymru, system rhyddhad ardrethi busnes Cymru yw'r lleiaf cystadleuol yn y DU. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn dweud mai rhenti, cyflogau ac ardrethi busnes yw'r tri math mwyaf o wariant ar gyfer busnesau bach. Mae Lloegr yn cynnig rhyddhad ardrethi busnes trosiannol. Gwnaeth y Gweinidog, Carl Sargeant, wrthod y model hwn ar y sail na ddylai cwmnïau y mae eu biliau wedi gostwng dalu am gwmnïau y mae eu biliau wedi cynyddu. Fodd bynnag, bydd busnesau y mae eu biliau wedi gostwng eisoes wedi ymgorffori lefel eu hardrethi yn y busnes, a bydd y rheini sy'n wynebu cynnydd yn gorfod addasu i dalu biliau sydd hyd yn oed yn uwch.

Bu i Ogledd Iwerddon ganslo ei ailbrizio, a dywedodd Gweinidog dros Gyllid Gogledd Iwerddon,

Yn anffodus, er bod rhai arwyddion o adferiad yn yr economi ehangach, nid wyf yn

believe that the commercial property market has stabilised sufficiently to allow a revaluation to proceed with any confidence.'

That is grown-up politics. However, as a result of rate revaluation in Wales, the average property valuation for business rates increased by almost 20 per cent in April. Even after changes in Wales from 1 October, resulting, as we heard, from the UK Government's actions, only Welsh businesses with a rateable value of up to £6,000 will receive 100 per cent relief, compared with the Scottish rate relief system, which gives 100 per cent relief to firms that have a rateable value of up to £10,000. Tapered relief in Wales would give only 33 per cent to a comparable business with a rateable value of £10,000. At a time when economic recovery is dependent on investment and jobs being provided by the business sector, the inequitable position in Wales is unsustainable and insane—the economics of the madhouse. Talking of the madhouse, please have your say, Alun.

Alun Davies: At a time when your Government is imposing unheard-of cuts on the Welsh budget, how would you pay for this?

The Deputy Presiding Officer: Order. I just want to say, Mark Isherwood, that your acceptance of Alun Davies's intervention was less than gracious. I hope that you will not do that again. Carry on.

Mark Isherwood: That is noted, Deputy Presiding Officer.

At a time when economic recovery is dependent upon investment and jobs being provided by the business sector, the inequitable position of Wales is unsustainable, as I said. The Welsh Conservatives propose to extend 100 per cent relief to businesses in Wales that have a rateable value of up to £10,000, and 20 per cent relief for those with a value of up to £15,000. Yes, our proposal is fully costed; in fact, we cannot afford not to do this.

credu bod y farchnad eiddo masnachol yn ddigon sefydlog i roi cyfle inni fwrw ymlaen ag ailbrisio yn hyderus.

Gwleidyddiaeth aeddfed yw hynny. Fodd bynnag, o ganlyniad i ailbrisio ardrethi yng Nghymru, bu i brisiadau eiddo cyfartalog ar gyfer ardrethi busnes gynyddu bron i 20 y cant ym mis Ebrill. Hyd yn oed ar ôl y newidiadau yng Nghymru o 1 Hydref ymlaen, a ddaeth, fel y clywsom, o ganlyniad i gamau gweithredu Llywodraeth y DU, dim ond busnesau o Gymru sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 fydd yn cael rhyddhad o 100 y cant, o'i gymharu â system rhyddhad ardrethi yr Alban, sy'n rhoi rhyddhad o 100 y cant i gwmnïau sydd â gwerth ardrethol o hyd at £10,000. Ni fyddai gostyngiad graddol yn y rhyddhad yng Nghymru ond yn rhoi 33 y cant o ryddhad i fusnes tebyg sydd â gwerth ardrethol o £10,000. Ar adeg pan fo adferiad economaidd yn ddibynnol ar fuddsoddiad a swyddi'n cael eu darparu gan y sector busnes, mae'r sefyllfa annheg yng Nghymru yn anghynaliadwy ac yn wallgof—economeg y gwallgofdy. Ar y gair hwnnw, dewch i ddweud eich dweud, Alun.

Alun Davies: Ar adeg pan fo eich Llywodraeth chi yn gorfodi toriadau ansynhwyrol ar gyllideb Cymru, sut fydddech chi'n talu am hyn?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Hoffwn ddweud, Mark Isherwood, nad oedd y ffordd y gwnaethoch dderbyn ymyriad Alun Davies yn urddasol iawn. Rwyf yn gobeithio na fyddwch yn gwneud hynny eto. Ewch ymlaen.

Mark Isherwood: Gwnaf nodi hynny, Ddirprwy Lywydd.

Ar adeg pan fo adferiad economaidd yn ddibynnol ar fuddsoddiad a swyddi'n cael eu darparu gan y sector busnes, mae'r sefyllfa annheg yng Nghymru yn anghynaliadwy, fel y dywedais. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig ymestyn rhyddhad o 100 y cant i fusnesau yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o hyd at £10,000, a rhyddhad o 20 y cant i'r rheini sydd â gwerth o hyd at £15,000. Ydy, mae ein cynnig wedi cael ei gostio'n llawn; mewn gwirionedd, ni allwn fforddio

peidio â gwneud hyn.

A pub in Llandudno saw a 100 per cent rise in business rates this year. For a garage in Denbigh, the rateable value went up from £4,500 to £17,250. The Federation of Small Businesses in north Wales said that it had been inundated with calls from members who had suffered huge rate increases. Its regional organiser said that he had received a call from a filling station owner who had also experienced a 100 per cent increase, adding that there have been massive increases in particular sectors and areas. For example, places such as Abersoch have seen really high increases. The difference in Wales, he says, is that there is no transitional relief. Ian Nellist, chairman of the Gwynedd Federation of Small Businesses said that 12 bosses had approached him by the beginning of August, because they are extremely concerned about changes in rate bills. He said that Abersoch, Porthmadog and Harlech were the worst hit. I know that they are not in my region, but they are certainly within the north Wales that I love.

Among the local authority areas in the 2010 revaluation, the largest rise in aggregate rateable value for self-catering properties was in Merthyr Tydfil, where it was up by almost 125 per cent. With Wales at the bottom of the economic league table and the gap widening, the primary aim of economic development policy should be to encourage wealth and employment across all parts of the nation, recognising that almost six in 10 new jobs come from small and medium-sized enterprises. Yet, there seems to be a real difficulty among the current set of politicians and policy makers within the Welsh Government with investing public money in supporting the real wealth creators of the economy: the small firms sector. As the poorest region in the UK, surely we should be maximising our support for Welsh businesses, not reducing it.

Welsh Conservative action has kept business rates on the agenda. We pressured the Welsh Government to offer more help to small and medium-sized businesses. We Welsh Conservatives are on the side of businesses, not on their backs.

Bu i dafarn yn Llandudno weld cynnydd o 100 y cant yn ei hardrethi busnes eleni. I garej yn Ninbych, bu i'r gwerth ardrethol godi o £4,500 i £17,250. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach yng ngogledd Cymru ei fod wedi derbyn lluo o alwadau gan aelodau a oedd wedi dioddef cynnydd enfawr yn eu hardrethi. Dywedodd y trefnydd rhanbarthol ei fod wedi derbyn galwad gan berchennog gorsaf betrol a oedd hefyd wedi gweld cynnydd o 100 y cant, gan ychwanegu y bu cynnydd aruthrol mewn sectorau ac ardaloedd penodol. Er enghraifft, mae manau fel Abersoch wedi gweld cynnydd uchel iawn. Y gwahaniaeth yng Nghymru, meddai, yw nad oes unrhyw ryddhad trosiannol. Dywedodd Ian Nellist, cadeirydd Ffederasiwn Busnesau Bach Gwynedd, y daeth 12 o benaethiaid ato erbyn dechrau mis Awst, am eu bod yn bryderus iawn ynglŷn â'r newidiadau mewn biliau ardrethi. Dywedodd mai Abersoch, Porthmadog a Harlech oedd yn dioddef fwyaf. Gwn nad ydynt yn fy rhanbarth i, ond maent yn bendant yn y gogledd, yr ardal rwyf yn ei charu.

Ymhlith yr ardaloedd awdurdod lleol yn ailbrisiad 2010, gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y gwerth ardrethol cyfanredol ar gyfer eiddo hunanddar ym Merthyr Tudful, lle bu iddo gynyddu bron i 125 y cant. Gan fod Cymru ar waelod y tabl cynghrair economaidd a chan fod y bwlch yn ehangu, prif nod polisi datblygu economaidd ddylai fod i hybu cyfoeth a chyflogaeth ym mhob cwr o'r wlad, gan gydnabod bod bron i chwe swydd newydd o bob 10 yn cael eu creu gan fusnesau bach a chanolig. Ac eto, mae'n ymddangos bod gwir anhawster ymhlith y set bresennol o wleidyddion a llunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru wrth fuddsoddi arian cyhoeddus i gefnogi gwir grëwyr cyfoeth yr economi: y sector cwmnïau bach. Fel rhanbarth dlotaf y DU, oni ddylem gefnogi busnesau Cymru i'r eithaf, nid gwneud fel arall.

Mae camau'r Ceidwadwyr Cymreig wedi sicrhau bod ardrethi busnes yn parhau i fod ar yr agenda. Gwnaethom roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i gynnig rhagor o gymorth i fusnesau bach a chanolig. Rydym ni'r Ceidwadwyr Cymreig ar ochr busnesau,

nid ar eu cefnau.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I welcome this debate—again—and I welcome David’s earlier contribution. Most businesses in Wales have benefited from the revaluation, with more than 60 per cent having to pay less in rates since 1 April 2010 as a consequence. Raising the threshold of the small business rate relief scheme enhanced that. The Assembly Government’s record on business rate relief is a strong one. We have constantly demonstrated our commitment to helping small businesses by funding general levels of relief. In 2008, we raised the thresholds for rate relief and provided additional targeted relief for post offices, small retailers, registered child carers, small retail pubs and petrol stations.

The numbers speak for themselves. More than half of all business premises in Wales—that is more than 50,000—fall within the relief threshold that could entitle them to either a 50 per cent or 25 per cent-reduction in their rates. Some 96 per cent of self-catering premises fall within the threshold to qualify for small business rate relief. Consequently, around 85 per cent of them will pay rates of less than £10 a week.

David Melding referred to it being the worst scheme in the UK. Let us be clear on this, David. In Wales, we have put £20 million into the rate relief scheme for small businesses. In the UK, they do not put anything in—it is self-financing, with a levy on larger businesses. If your Government in the UK put some more money in, we could create a much more generous scheme with the Barnett consequential to Wales. From 1 October, for 12 months, rate relief for small businesses has been further enhanced so that around half of businesses in Wales will pay no rates, Oscar. That is zero rates for those businesses in Wales. A further 20 per cent will have their rates bills reduced. I am not sure how much lower than zero rates you can go, but there you go—another Tory wheeze.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Rwyf yn croesawu'r ddadl hon—eto—ac rwyf yn croesawu cyfraniad David yn gynharach. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru wedi elwa o ganlyniad i'r ailbriso, ac mae dros 60 y cant yn gorfod talu llai o ardrethi ers 1 Ebrill 2010 o ganlyniad. Bu i godi trothwy'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach wella hynny. Mae cefndir Llywodraeth y Cynulliad ar ryddhad ardrethi busnes yn un cryf. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i helpu busnesau bach yn gyson, drwy ariannu lefelau cyffredinol o ryddhad. Yn 2008, gwnaethom godi'r trothwyon ar gyfer rhyddhad ardrethi a darparu rhyddhad ychwanegol wedi'i dargedu ar gyfer swyddfeydd post, siopau bach, gofalwyr plant cofrestredig, tafarndai manwerthu bach a gorsafodded petrol.

Mae'r niferoedd yn dweud cyfrolau. Mae mwy na hanner yr holl safleoedd busnes yng Nghymru—sef dros 50,000—yn dod o dan y trothwy rhyddhad a allai olygu bod ganddynt hawl i gael gostyngiad o naill ai 50 y cant neu 25 y cant yn eu hardrethi. Mae oddeutu 96 y cant o safleoedd hunanddarpar yn dod o dan y trothwy a fydd yn rhoi'r hawl iddynt gael rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. O ganlyniad, bydd tua 85 y cant ohonynt yn talu ardrethi o lai na £10 yr wythnos.

Cyfeiriodd David Melding ato fel cynllun gwaethaf y DU. Gadewch inni fod yn glir ar hyn, David. Yng Nghymru, rydym wedi rhoi £20 miliwn yn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Yn y DU, nid ydynt yn rhoi unrhyw arian ynddo—mae'n ariannu ei hun, gydag ardoll ar fusnesau mwy. Pe bai eich Llywodraeth chi yn y DU yn rhoi rhagor o arian ynddo, gallem greu cynllun llawer mwy hael gydag arian canlyniadol Barnett ar gyfer Cymru. O 1 Hydref ymlaen, am 12 mis, mae rhyddhad ardrethi i fusnesau bach wedi cael ei ehangu ymhellach fel na fydd oddeutu hanner y busnesau yng Nghymru yn talu dim ardrethi, Oscar. Ni fydd dim ardrethi ar gyfer y busnesau hynny yng Nghymru. Bydd biliau ardrethi 20 y cant arall yn cael eu gostwng hefyd. Nid wyf yn siŵr a allwch wneud yn well na dim ardrethi, ond dyna ni—syniad gwych arall gan y Torïaid.

Jonathan talked about the confidence in the referendum. I think that it is really unwise to start talking Wales down and the support that we give. The Holtham report presented compelling evidence that Wales has been underfunded by £300 million a year. The UK Government, your Government, with the support of the Liberal Democrats, should increase the proportion of public funding to Wales if it really believes that that is the right way to go. I am aware that, in the tourism sector, average rateable values for the—

Jonathan Morgan: Will you take an intervention?

Carl Sargeant: In a little while, Jonathan, yes.

I am aware that, in the tourism sector, average rateable values for the self-catering sector have risen by around 55 per cent—significantly more than average. However, that must be seen in a realistic context, not using the masters-of-the-dark-arts play on numbers of the Conservative party. Even after the revaluation, the overall rateable value of properties in that sector remains comparatively low. As I said, 85 per cent of self-catering businesses will be paying £10 a week or less for business rates.

The increase in the threshold of the small business rate relief scheme means that the businesses that fell within the scheme threshold before the revaluation will continue to do so. If their valuation has increased in line with or, as is the case with some, by significantly more than the national average, they will continue to remain eligible. Therefore, unfortunately, the Conservatives have got themselves in a bit of a pickle about this. Over the past year, they have called for a transition scheme, which businesses in Wales do not want, and for extra money for rate relief when their UK Government, with the support of the Liberal Democrats, will not fund Wales fairly. They even told us that we should delay the revaluation, which would have meant that the 60 per cent of businesses in Wales that do benefit would not benefit. In

Gwnaeth Jonathan sôn am yr hyder yn y refferendwm. Credaf ei bod yn wirioneddol annoeth dechrau bychanu Cymru a'r cymorth rydym yn ei roi. Cyflwynodd adroddiad Holtham dystiolaeth gymhellol bod Cymru wedi colli allan ar arian sy'n gyfwerth â £300 miliwn y flwyddyn. Dylai Llywodraeth y DU, eich Llywodraeth chi, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, gynyddu'r gyfran o arian cyhoeddus y mae Cymru'n ei chael os yw wir yn credu mai dyna'r llwybr cywir i'w droedio. Rwyf yn ymwybodol, yn y sector twristiaeth, bod gwerthoedd ardrethol cyfartalog ar gyfer y—

Jonathan Morgan: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Carl Sargeant: Cyn hir, Jonathan, gwnaf.

Rwyf yn ymwybodol, yn y sector twristiaeth, bod gwerthoedd ardrethol cyfartalog ar gyfer y sector hunanddarpar wedi codi tua 55 y cant—cryn dipyn yn fwy na'r hyn sy'n arferol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar hynny mewn cyd-destun realistig, heb addasu'r ffigurau'n dwyllodrus fel y mae'r blaidd Geidwadol yn ei wneud. Hyd yn oed ar ôl ailbriso, mae gwerth ardrethol cyffredinol eiddo yn y sector hwnnw yn parhau i fod yn gymharol isel. Fel y dywedais, bydd 85 y cant o fusnesau hunanddarpar yn talu £10 yr wythnos neu lai o ardrethi busnes.

Mae'r cynnydd yn nhrothwy'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn golygu y bydd y busnesau a oedd yn dod o dan drothwy'r cynllun cyn ailbriso yn parhau i ddod oddi tano. Os yw eu prisiad wedi cynyddu yn unol â, neu, fel sy'n wir gyda rhai, yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, byddant yn parhau i fod yn gymwys. Felly, yn anffodus, mae'r Ceidwadwyr mewn rhywfaint o bicl yn hyn o beth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi galw am gynllun trosiannol, nad yw busnesau yng Nghymru am ei gael. Maent hefyd wedi galw am arian ychwanegol ar gyfer rhyddhad ardrethi pan fo Llywodraeth y DU, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, yn gwrthod ariannu Cymru'n deg. Gwnaethant hyd yn oed ddweud wrthym y dylem oedi ailbriso, a fyddai wedi golygu na fyddai'r 60

their desperate attempts to find something to debate that does not highlight the impact of the Tory-Lib Dem cuts in Wales, they have succeeded only in demonstrating just how out of touch they are.

5.10 p.m.

I appreciate that they are probably cooped up in small rooms fretting about how they are going to justify the cuts that their Westminster counterparts are going to deliver in Wales. However, you would think that they might speak to the Federation of Small Businesses, for example, to find out its views and about the steps that it has been taking to support small businesses in Wales. Rightly, Jenny raised the issue of the FSB report, as did Jonathan. That is absolutely right. When they read the report, they would have noted that, according to the survey of small businesses conducted by the FSB,

‘small firms also felt that decisions made by the Welsh Assembly Government were more beneficial to their business than decisions made in Westminster.’

That is not bad for Wales, is it? Of the announcement of our enhanced business rates relief, the survey also said that this was good news after substantial consultation with the FSB—we talked to them. Most business premises with a rateable value of up to £6,000 will not pay any rates, and most of those with a rateable value of between £6,000 and £12,000 will receive rate relief that will be reduced on a tapered basis. That means that business premises with a rateable value of £8,000 will get around 66 per cent rate relief, while those with a rateable value of £10,000 will get around 33 per cent. If businesses receive a higher rate of relief under the current scheme than under the enhanced relief scheme, they will continue to receive the rate of relief that is most beneficial to them.

y cant o fusnesau yng Nghymru sydd yn elwa ar hyn o bryd wedi elwa o gwbl. Yn eu hymdrechion taer i ddod o hyd i rywbeth i ddadlau yn ei gylch nad yw'n tynnu sylw at effaith toriadau'r Torïaid-Democratïaid Rhyddfrydol yng Nghymru, dim ond llwyddo i ddangos yn union cyn lleied o syniad sydd ganddynt y maent wedi ei wneud.

5.10 p.m.

Rwyf yn sylweddoli eu bod yn ôl pob tebyg yn cael eu cadw mewn ystafelloedd bach yn poeni am sut y maent yn mynd i gyfiawnhau'r toriadau y mae eu cymheiriaid yn San Steffan yn mynd i'w gwneud yng Nghymru. Fodd bynnag, byddech yn meddwl y byddent, o bosibl, yn siarad â'r Ffederasiwn Busnesau Bach, er enghraifft, i gael gwybod beth yw barn y Ffederasiwn a pha gamau y mae wedi bod yn eu cymryd i gefnogi busnesau bach yng Nghymru. Bu i Jenny, yn briodol, godi mater adroddiad y Ffederasiwn Busnesau Bach, fel y gwnaeth Jonathan. Maent yn llygad eu lle. Wrth ddarllen yr adroddiad, byddent wedi nodi, yn ôl yr arolwg o fusnesau bach a gynhaliwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, bod

cwmnïau bach hefyd yn teimlo bod y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn fwy o fudd i'w busnes na phenderfyniadau a wneir yn San Steffan.

Nid yw hynny'n beth drwg i Gymru, nac ydyw? O ran cyhoeddi ein rhyddhad ardrethi busnes estynedig, dywedodd yr arolwg hefyd bod hyn yn newyddion da ar ôl ymgynghori'n sylweddol â'r Ffederasiwn Busnesau Bach—gwnaethom ni siarad â hwy. Ni fydd y rhan fwyaf o safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn talu dim ardrethi o gwbl, a bydd y rhan fwyaf o'r rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,000 a £12,000 yn cael rhyddhad ardrethi a fydd yn cael ei ostwng yn raddol. Mae hynny'n golygu y bydd safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol o £8,000 yn cael oddeutu 66 y cant o ryddhad ardrethi, a bydd y rheini sydd â gwerth ardrethol o £10,000 yn cael tua 33 y cant o ryddhad. Os bydd busnesau yn cael cyfradd uwch o ryddhad o dan y cynllun cyfredol nag o dan y cynllun rhyddhad estynedig, byddant yn parhau i gael y gyfradd o ryddhad sydd fwyaf o fudd iddynt.

Those were not my words but those of small business representation in Wales. That is what small firms are saying. More significantly, the FSB get it, but the Tories do not. They state that they believe that they have done as much as they could have done with the powers and the budget that they had. Again, not my words; theirs. My advice to our very own Dave and Nick is to find out what other people's concerns are. That is what my Cabinet colleagues and I have done over the summer, and I highly commend it. *[Interruption.]* Go and ask them.

I now turn to the Liberal Democrat amendments. The UK Government has announced that it will be introducing the tax increment financing fund. Local authorities in England will be granted new borrowing powers aimed at driving local investment and economic growth. TIF will operate within the framework of the rules, which are in the process of being developed. The Assembly Government will consider those carefully. When the proposals are published, we will be likely to seek comparable powers in Wales, subject to the detail. I will be supporting your amendment today.

Deputy Presiding Officer, I thank you for the opportunity to put the record straight again. Why these Conservatives think that they are in the real world, I just do not know, because the figures speak for themselves.

Darren Millar: We are not ashamed of tabling this motion for debate today, because we recognise the difficult times that businesses across Wales have faced as a result of the disaster that is the UK economy because of the management of the Labour Party at Westminster. We recognise that we have a country of small businesses. They are the backbone of the Welsh economy. If we cannot help them in this economic downturn, who can we help? We accept that there is a rate relief scheme in place and that that is in the process of being extended, from 1 October. We welcome that, but it is too little

Nid fy ngeiriau i oedd y rheini, ond geiriau cynrychiolaeth busnesau bach yng Nghymru. Dyna beth y mae cwmnïau bach yn ei ddweud. Yn fwy arwyddocaol, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn deall, ond nid yw'r Torïaid yn deall. Maent yn dweud eu bod yn credu eu bod wedi gwneud cymaint ag y gallent fod wedi ei wneud â'r pwerau a'r gyllideb a oedd ganddynt. Unwaith eto, nid fy ngeiriau i; eu geiriau nhw. Fy nghyngor i Dave a Nick yma yw canfod beth sy'n peri pryder i bobl eraill. Dyna beth rwyf finnau a fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet wedi ei wneud dros yr haf, ac rwyf yn ei gymeradwyo'n fawr. *[Torri ar draws.]* Gofynnwch iddynt.

Rwyf nawr am droi at welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno'r gronfa ariannu drwy gynyddrannau treth. Bydd awdurdodau lleol yn Lloegr yn cael pwerau benthyca newydd sydd wedi'u hanelu at hybu buddsoddiad lleol a thwf economaidd. Bydd ariannu drwy gynyddrannau treth yn gweithredu o fewn fframwaith y rheolau, sydd yn y broses o gael eu datblygu. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried y rheini'n ofalus. Pan fydd y cynigion yn cael eu cyhoeddi, byddwn yn debygol o geisio pwerau tebyg yng Nghymru, yn amodol ar y manylion. Byddaf yn cefnogi eich gwelliant heddiw.

Ddirprwy Lywydd, diolch ichi am y cyfle i egluro'r sefyllfa eto. Pam fod y Ceidwadwyr hyn yn credu eu bod yn y byd go iawn, nid wyf yn gwybod, oherwydd mae'r ffigurau'n dweud cyfrolau.

Darren Millar: Nid oes gennym gywilydd o gyflwyno'r cynnig hwn i'w drafod heddiw, oherwydd rydym yn cydnabod y cyfnod caled y mae busnesau ledled Cymru wedi ei wynebu o ganlyniad i economi'r DU sy'n drychinebus oherwydd y modd y mae'r Blaid Lafur yn San Steffan wedi ei reoli. Rydym yn cydnabod bod gennym wlad o fusnesau bach. Hwyl yw asgwrn cefn economi Cymru. Os na allwn eu helpu yn y dirywiad economaidd hwn, pwy allwn ni eu helpu? Rydym yn derbyn bod cynllun rhyddhad ardrethi ar waith a bod y cynllun hwnnw yn y broses o gael ei ehangu, o 1 Hydref ymlaen. Rydym

too late for those businesses that have shut their doors as a result of the damage that has already been done while you have been dithering about extending the rate relief scheme.

Peidiwch â bod mor ddifrifol, rwyf yn eich clywed yn dweud, ac anghofiwch yr hanes. Dyna beth y mae pawb yn ei ddweud pan fyddaf yn dechrau fel hyn, ac mae hynny'n agwedd sy'n deillio o hanes y rhan fwyaf o'r ynysoedd hyn, a'r hyder hy a ddaw ar ôl teithio'r byd a sefydlu ymerodraeth, gyda'r holl ganlyniadau. Gallwn beidio â bod mor ddifrifol, ond nid yng nghyd-destun yr ystadegau hyn, a'r agenda dewis i rieni sy'n dymuno sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Pan gaiff yr agenda cydraddoldeb hwnnw ei danseilio gan syrthni yn siambrau ein cyngorau, nid oes a wnelo hyn ag ystadegau yn unig; mae a wnelo â'n hanes. Ac yn sicr, nid oes a wnelo hyn â hanes ar gyfer y rheini sy'n siarad Cymraeg yn unig—nid o bell ffordd. Rwyf yn un o lywodraethwyr Ysgol Gynradd Gymraeg y Login Fach yn Waunarlwydd; mae 92 y cant o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg yn Townhill, Cocyd a Waunarlwydd ei hun. Mae emosiynau cenedlaethau wedi eu cydblethu, wrth i neiniau a theidiau Cymraeg eu hiaith, a chymunedau hyn Cymraeg eu hiaith, gysylltu unwaith eto â'u hwyrion a'u hwyresau sy'n siarad Cymraeg—gydag un genhedlaeth goll yn y canol y gwrthodwyd dysgu Cymraeg iddi. Ni fyddwn byth eto yn clywed y dylech ddysgu Saesneg yn unig i'ch plant os ydych am iddynt lwyddo. Dyma'r hanes rydym yn ei rannu—y Cymry di-Gymraeg a'r Cymry Cymraeg eu hiaith—gan mai *Wenglish* yw'r Saesneg yn cael ei siarad â dylanwad a goslef delynegol y Gymraeg. Dyma ein hanes, ni waeth a ydych yn siarad Cymraeg ai peidio. Fy mhlant i yw'r diweddaraf mewn llinell ddi-dor o siaradwyr Cymraeg sy'n ymestyn yn ôl gannoedd o flynyddoedd, ac ni waeth faint o gythruddo sy'n eu hwynebu, nid oes dim yn mynd i wneud iddynt hwy na'u plant hwy roi'r gorau i siarad Cymraeg. Dyna bwysau hanes y mae pob un ohonom yn ei gario mor dda, ac yn teimlo dyletswydd i barhau i wneud hynny.

We still face claims that no-one speaks

Rydym yn dal i wynebu honiadau nad oes

Welsh—it is a dead language and that translating stuff is a waste of money—and outright hostility to all things Welsh. If that were the case, you would expect no clamour at all for Welsh-medium education. Welsh-medium schools would be empty if the language was dead. All the empty desks would be in Welsh-medium schools, and the ready solution would be to shut them all down. In fact, in Swansea, as elsewhere in the south Wales Valleys, practically all the empty desks are in the English-medium sector, while the Welsh-medium sector is packed to the rafters, overcrowding is endemic, and the prospect of resolution, in terms of more Welsh-language schools, is years away. Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw started off a decade ago with 18 pupils and now has 450; these are huge numbers in Swansea. Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las has 593 pupils in overcrowded situations. However, it is not just the statistics. As I have said, it is the choice agenda for parents that is undermined and eroded by inertia. It is also a question of the equality agenda, as we see packed, overcrowded Welsh-medium schools compared with the thousands of empty desks in English-medium schools—there are six thousand empty desks in Swansea alone. That is not being addressed.

5.30 p.m.

However, it is also the emotional calling down the generations. It is our very identity, and the beating heart of nationhood here. There is a crude attempt at stifling the expansion of Welsh-medium education by poor or absent planning. The National Assembly for Wales promotes the Welsh language and Welsh-medium education; how are our counties responding to that? The need for a planned expansion in Welsh-medium education is surely proven beyond all doubt in Swansea as elsewhere. As I said, if you ask parents in Swansea, 38 per cent of them will tell you that they want their children to have Welsh-medium education, but only 12 per cent have places at the moment. We need to treble the provision in Swansea. I know that

neb yn siarad Cymraeg—ei bod yn iaith farw, a bod cyfieithu pethau yn wastraff arian—yn ogystal â gelyniaeth llwyr at bopeth Cymraeg. Os mai dyna fyddai'r achos, ni fydddech yn disgwyl unrhyw alw o gwbl am addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wag pe bai'r iaith yn farw. Byddai'r holl ddesgiau gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a'r ateb parod fyddai cau pob un ohonynt. Yn wir, yn Abertawe, fel mewn mannau eraill yng Nghymoedd y de, mae bron pob desg wag yn y sector cyfrwng Saesneg, ac mae'r sector cyfrwng Cymraeg yn llawn i'r ymylon. Mae gorlenwi yn endemig, ac nid oes posibilrwydd o ddatrys y sefyllfa, o ran rhagor o ysgolion Cymraeg eu hiaith, am flynyddoedd maith. Agorodd Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw ei drysau ddeng mlynedd yn ôl gyda 18 o ddisgyblion ac erbyn hyn mae 450 o blant yn yr ysgol; mae'r rhain yn niferoedd anferth yn Abertawe. Mae 593 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las, mewn sefyllfaoedd gorlawn. Fodd bynnag, nid dim ond yr ystadegau sy'n bwysig. Fel y dywedais, yr agenda dewis ar gyfer rhieni sy'n bwysig, ac mae'n cael ei danseilio a'i erydu gan syrthni. Mae hefyd yn fater sy'n ymwneud â'r agenda cydraddoldeb, wrth inni weld ysgolion cyfrwng Cymraeg gorlawn o'i gymharu â'r miloedd o ddesgiau gwag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg—mae 6000 o ddesgiau gwag yn Abertawe yn unig. Ni roddir sylw i hynny.

5.30 p.m.

Fodd bynnag, mae'n ymwneud â'r galw emosiynol ar hyd y cenedlaethau hefyd. Mae'n ymwneud â'n hunaniaeth ni, a chalon cenedligrwydd yma. Ceir ymgais aflednais i rwystro ehangu addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynllunio gwael neu beidio â chynllunio o gwbl. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg; sut y mae ein siroedd yn ymateb i hynny? Mae'r angen am gynllunio i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn sicr wedi'i brofi'n ddiamau yn Abertawe, fel mewn mannau eraill. Fel y dywedais, os gofynnwch i rieni yn Abertawe, bydd 38 y cant ohonynt yn dweud wrthyh eu bod am i'w plant gael addysg cyfrwng Cymraeg, ond dim ond 12 y cant ohonynt

changes are afoot, but we have been waiting years. My first protest was before I got chucked out of the county hall in October 1990, which will be 20 years ago in 28 days' time, but, hey, who is counting? The call of our history and previous generations demands this planned expansion in provision now. The parents of north Gower have the statistics on their side; they have 41 children who want to attend a Welsh-medium school—their names and addresses are there—but the county says that there are only two. It prefers to believe its own statistics, rather than to ask the parents concerned. You will be pleased to hear that I am drawing to a close.

Mae cri oesol cenedlaethau'r gorffennol yn mynnu mynegiant. Y neges i'n siroedd, felly, yw: yr ydych i fod i hyrwyddo dewis pobl i gael addysg Gymraeg i'w plant, nid ei ffrwyno na'i atal. Fel y dywedais eisoes, mae angen treblu nifer y llefydd er mwyn darparu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Abertawe yn unig. Dyna ddewis y bobl.

Yes, it is about our history. Listen to the history—it is all our history. Diolch yn fawr.

Peter Black: I support the general thrust of Dai Lloyd's speech calling for a planned expansion of Welsh-medium education in Swansea. He will understand, as I do, that that is already under way, in that the local council is developing a Welsh-medium strategy. I do not think that Dai has been entirely fair to either the current or the previous administration with regard to how they have dealt with Welsh-medium education. We now have two Welsh-medium comprehensives in Swansea, which we did not have 20 years ago. We have a brand-new Welsh-medium school in Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw and plans for a new Welsh-medium school in Morrision, which will, hopefully, grow beyond the 130 places in Graig Infant School in different premises in the future. I know for a fact that the council is also looking at a strategy for Gower, and the peripheral area around Gower

sydd â lle ar hyn o bryd. Mae angen inni dreblu'r ddarpariaeth yn Abertawe. Gwn fod newidiadau ar y gweill, ond rydym wedi bod yn aros am flynyddoedd. Cymerais ran yn fy mhrotest gyntaf cyn imi gael fy nhaflu o neuadd y sir ym mis Hydref 1990, 20 mlynedd yn ôl ymhen 28 niwrnod, ond pwy sy'n cyfrif? Rhaid inni fynd ati i ehangu'r ddarpariaeth hon yn awr, yn unol â'r hyn roedd ein hanes a chenedlaethau'r gorffennol yn galw amdano. Mae'r ystadegau ar ochr rhieni yng ngogledd Gŵyr; mae ganddynt 41 o blant sydd am fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg—mae eu henwau a'u cyfeiriadau yno—ond mae'r sir yn dweud mai dim ond dau sydd ganddynt. Mae'n well gan y sir gredu ei hystadegau ei hun, yn hytrach na gofyn i'r rhieni o dan sylw. Byddwch yn falch o glywed fy mod bron â dod i ben.

The ageless cry of past generations insists on being heard. The message for our counties, therefore, is: you are supposed to promote people's choice to access Welsh-medium education for their children, not to stifle or prevent it. As I have already said, we need to treble the number of places in order to provide Welsh-medium education in Swansea alone. That is the people's choice.

Ydy, mae'n ymwneud â'n hanes. Gwrandewch ar yr hanes—dyma hanes pob un ohonom. Diolch yn fawr.

Peter Black: Rwyf yn cefnogi hergwd cyffredinol araith Dai Lloyd yn galw am gynllunio i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn Abertawe. Bydd yntau, fel finnau, yn deall bod hynny eisoes ar y gweill, gan fod y cyngor lleol yn datblygu strategaeth cyfrwng Cymraeg. Nid wyf yn credu bod Dai wedi bod yn gwbl deg â'r weinyddiaeth bresennol na'r weinyddiaeth flaenorol o ran sut y maent wedi ymdrin ag addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gennym bellach ddwy ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg yn Abertawe, nad oeddent yn bodoli 20 mlynedd yn ôl. Mae gennym ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sbon ar ffurf Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw, a chynlluniau ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhreforys, a fydd, gobeithio, yn tyfu y tu hwnt i'r 130 o leoedd yn Ysgol Fabanod y Graig mewn safle gwahanol yn y dyfodol. Rwyf yn gwybod yn bendant bod y cyngor hefyd yn edrych ar strategaeth ar

of Gorseinon, Gowerton and Loughor, and the provision of a Welsh-medium primary school there also.

Dai is right that there is a demand, and that demand needs to be met, but the council has huge financial issues to overcome, not least the 6,000 empty places in English-medium schools, which must also be addressed. We have all been very patient over the past 20 years. We are now starting to make real progress, and I hope that that progress will develop and we will start to see further Welsh-medium schools coming on stream in the next few years, which will start to meet the demand that we all know exists. Dai is right that it has been a hard struggle getting there, although we have perhaps not quite seen the bloodshed in Swansea of previous centuries that he referred to, and I hope that we can make some real progress in future.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Diolch i Dai am y ddadl ac am y wers hanes. Hoffwn gychwyn drwy ddweud mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael yn eu hardaloedd lleol. Fel pob awdurdod lleol, rhaid i Abertawe gadw llygad ar ddarpariaeth ysgolion ac os oes angen newid, yna rhaid ymateb drwy gyflwyno cynigion statudol. Nid yw'n briodol i Weinidogion Cymru wneud sylwadau ymlaen llaw ar unrhyw gynigion penodol y bydd yn rhaid inni wneud penderfyniad arnynt nes ymlaen. Deallaf fod rhieni ardal Abertawe wedi bod yn pwysu yn y gorffennol am ragor o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y system addysg. Yn dilyn hynny, mae'r awdurdod lleol wedi asesu galw'r rhieni am ddarpariaeth o'r fath ac wedi datblygu safleoedd presennol yn ogystal ag agor ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd.

Yr wyf yn falch o weld bod naw ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Abertawe bellach, a dwy ysgol uwchradd. Canran y disgyblion ysgolion cynradd mewn dosbarthiadau lle mae'r Gymraeg yn unig

gyfer Gŵyr a'r ardal gyfagos o amgylch Gŵyr, sef Gorseinon, Tre-gŵyr a Chasllwchwr, ac ar ddarparu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yno hefyd.

Mae Dai yn llygad ei le wrth ddweud y ceir galw, ac mae angen diwallu'r galw hwnnw, ond mae gan y cyngor broblemau ariannol enfawr i'w goresgyn, gan gynnwys y 6,000 o leoedd gwag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Rhaid rhoi sylw i hyn hefyd. Mae pob un ohonom wedi bod yn amyneddgar iawn dros yr 20 mlynedd diwethaf. Rydym bellach yn dechrau gwneud cynnydd go iawn, a gobeithiaf y bydd y cynnydd yn datblygu ac y byddwn yn dechrau gweld rhagor o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod yn weithredol yn y blynyddoedd nesaf, gan ddechrau diwallu'r galw rydym yn gwybod ei fod yn bodoli. Mae Dai yn llygad ei le wrth ddweud bod cyrraedd y sefyllfa honno wedi bod yn frwydr galed, er nad ydym wedi gweld yr un tywallt gwaed yn Abertawe ag a welwyd yn ystod y canrifoedd a fu y cyfeiriodd Dai atynt. Rwyf yn gobeithio y gallwn wneud rhywfaint o gynnydd go iawn yn y dyfodol.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I thank Dai for the debate and the history lesson. I would like to begin by pointing out that it is for local authorities to ensure that suitable provision is available in their areas. Like all local authorities, Swansea must keep its school provision under review and if there is a need for change, bring forward statutory proposals in response. It is not appropriate for Welsh Ministers to comment in advance on any specific proposals that we will have to make determinations upon later on. I understand that in the past there was pressure from parents in the Swansea area for more Welsh-medium provision in the school system. Subsequently, the local authority has assessed the parental demand for such provision and has developed existing sites and opened new Welsh-medium schools.

I am pleased to see that there are now nine Welsh-medium primary schools in the Swansea area, and two secondary schools. The percentage of primary school pupils currently in classes where Welsh is the sole

gyfrwng dysgu neu'n brif gyfrwng dysgu yn awdurdod lleol Abertawe yn 2008-09 oedd 11.7 y cant. Cynyddodd hyn yn 2009-10 i 12.2 y cant.

Mae Abertawe wedi ymgymryd â nifer o arolygon i asesu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac yr wyf yn nodi bod yr awdurdod wedi datgan yn gyhoeddus yn y wasg ac yn ei rhaglen addysg o safon 2020, a lansiwyd yn 2007, fod yr iaith Gymraeg a'r cynllun addysg Gymraeg yn cael eu cynnwys yn y strategaeth hon. Mae ei rhaglen yn rhagweld y bydd nifer y llefydd llawn amser yn cynyddu o 1,988 i 2,719 erbyn 2016. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi targed o 500 lle ychwanegol erbyn 2011 yn ei gynllun addysg Gymraeg.

Agorwyd adeilad newydd gyda 315 o lefydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw yng nghanol mis Medi 2008 yn lle'r adeilad ysgol dros dro a oedd â lle i oddeutu 100 disgybl. Mae pedair ysgol arall yn cael eu hehangu neu'n cynyddu eu capasiti yn y dyfodol agos, a bydd hynny'n darparu cyfanswm o oddeutu 200 o lefydd ychwanegol. Mae rhai o'r prosiectau hyn yn ddibynnol ar gynigion statudol llwyddiannus.

Yr wyf yn nodi bod ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi parhau i ymddangos yn rhaglen cynnal a chadw cyfalaf yr awdurdod. Rhwng 2002 a 2011 derbyniodd awdurdod lleol Abertawe £28,109,024 o'r grant gwella adeiladau ysgolion, ac mae bron i £13 miliwn wedi ei ddyrannu i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn nodi bod disgwyl i awdurdodau lleol ddangos sut y byddant yn darparu llefydd digonol a phriodol ar gyfer plant y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg lle ceir dewis rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae'n glir o'r strategaeth ein bod hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio dulliau cadarn o fesur y galw gan rieni am ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysg lle bo hynny'n briodol. Ym mis Tachwedd 2009 cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ddogfen arfer da a nododd yr ystyriaethau allweddol o ran mesur y galw, yn ogystal â holiadur enghrefftiol. Yr wyf yn

or main medium of instruction in Swansea local authority in 2008-09 was 11.7 per cent. This increased in 2009-10 to 12.2 per cent.

Swansea has undertaken a number of surveys to assess the demand for Welsh-medium provision, and I note that the authority has publicly stated in the press and in their quality in education programme 2020, launched in 2007, that the Welsh language and the Welsh education scheme are embedded within this strategy. Its programme projects that the current 1,988 full-time places will increase to 2,719 by 2016, and the local authority has identified a target of an additional 500 places by 2011 in its Welsh education scheme.

The new 315-place school building for Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw opened in mid-September 2008 in place of the temporary school building that accommodated around 100 pupils. Four other schools are being expanded or will have increased capacity in the near future providing around 200 extra places overall. Some of these projects are dependent on the successful outcome of statutory proposals.

I note that Welsh-medium schools have continued to feature in the authority's capital maintenance programme. Between 2002 and 2011 Swansea local authority received £28,109,024 in school buildings improvement grant of which nearly £13 million has been allocated to Welsh-medium schools.

The Welsh-medium education strategy notes that we expect local authorities to identify how they will provide sufficient and appropriate places for children whose parents wish for them to have Welsh-medium education where there is a choice between Welsh-medium and English-medium provision. The strategy makes it clear that we will also expect local authorities to adopt robust methods of measuring parental demand for Welsh-medium childcare and education provision where appropriate. In November 2009, the Welsh Language Board published a good practice guide that identified the key considerations in terms of measuring demand, and an exemplar

cydnabod, fodd bynnag, fod rhai materion technegol y mae angen eu hystyried. Un enghraifft yw cael mynediad i ddata genedigaethau byw. Mae'r mater hwn yn derbyn sylw brys.

Yr ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol gyflwyno gwybodaeth gywir i rieni ar natur ieithyddol gwahanol ysgolion. Bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd, ac yr ydym yn bwriadu cefnogi gweithio mewn consortiwm, lle bo hynny'n bosibl.

5.40 p.m.

Sut y byddwn yn monitro cynnydd yr awdurdodau lleol o ran mesur a gweithredu ar y galw gan rieni am addysg cyfrwng Cymraeg? Y prif offeryn a fydd yn cael ei ddefnyddio wrth fonitro gwaith awdurdodau lleol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg fydd y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, i'w cyflwyno'n flynyddol gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Byddaf hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol fabwysiadu arferion gorau wrth sefydlu fforwm cyfrwng Cymraeg o fewn pob awdurdod i gydlynu'r gwaith o gefnogi'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn integreiddio'n effeithiol gyda'r cynllun llythrennedd cenedlaethol a'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Bydd cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol yn unigol, gan ystyried amgylchiadau lleol, i wneud penderfyniadau ar ei ffordd arbennig o wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi maes o law ar sut y mae disgwyl i awdurdodau lleol weithredu'n brydlon ar sail canfyddiadau arolygon y galw gan rieni.

Mae'r strategaeth yn datgan yn glir y bydd mesurau pellach, gan gynnwys deddfwriaeth, yn cael eu hystyried os na fydd awdurdodau lleol yn cydweithio'n wirfoddol i asesu ac ymateb yn effeithiol i'r galw gan rieni.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's business to a close. Thank you very much.

questionnaire. I recognise, however, that there are some technical issues, for example, access to live births data. This matter is receiving urgent attention.

We expect local authorities to present accurate information to parents about the linguistic nature of different schools. Local authorities will be encouraged to work together, and we intend to support consortium working wherever possible.

5.40 p.m.

How will we monitor the progress of local authorities in measuring and acting on demand by parents for Welsh-medium education? The main tool to be used to monitor the work of local authorities in relation to Welsh-medium provision will be the Welsh in education strategic plans, to be submitted annually by local authorities to the Welsh Assembly Government.

I shall also expect local authorities to adopt best practice in establishing a Welsh-medium forum within each authority to coordinate work in support of the Welsh-medium education strategy, and ensure effective integration of Welsh-medium provision with the national literacy plan and the school effectiveness framework. It will be a matter for each local authority, in the light of local circumstances, to take decisions on its particular way to improve Welsh-medium provision. Guidelines will be issued in due course on how local authorities are expected to act promptly in response to the findings of surveys of parental demand.

The strategy makes it clear that if local authorities do not cooperate on a voluntary basis in assessing and responding effectively to parental demand, then further levers, including legislation, will be considered.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â busnes heddiw i ben. Diolch yn fawr iawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.41 p.m.

The meeting ended at 5.41 p.m.

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)